**Rhif: WG49943**

Llywodraeth Cymru

# Crynodeb o'r ymateb

# Ymgynghoriad ar y Flwyddyn Ysgol

Ebrill 2024

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-049-4

## Y prif ganfyddiadau

1. **A allai calendr y flwyddyn ysgol gael ei strwythuro'n well i fynd i'r afael ag anfantais, a chefnogi cynnydd, llesiant a'r ffordd rydym yn byw heddiw?**

- Mae mwy na hanner ymatebwyr yr arolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y gallai calendr yr ysgol gael ei strwythuro'n well i fynd i'r afael ag anfantais a chefnogi cynnydd, llesiant a'r ffordd rydym yn byw heddiw. Fodd bynnag, mae Opsiwn 1, o gynnal y flwyddyn ysgol bresennol, yn dal i gael ei ffafrio (C9 52.28%).
- Adroddodd rhanddeiliaid nifer o broblemau gyda'r calendr ysgol presennol gan gynnwys blinder yn nhymor yr hydref a thymhorau anghyson o ran hyd fel rhwystr i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Mae cryfderau'r calendr presennol yn cynnwys y ffordd y mae sawl sector wedi addasu o'i gwmpas. Mae elfen o ddisgwyl bod un gwyliau haf hirach yn well na'r opsiynau eraill a gyflwynir wrth ymdrin â blinder a llesiant

2. **Pa effeithiau y mae rhanddeiliaid yn rhagweld y byddai'r strwythurau blwyddyn ysgol amgen arfaethedig yn eu cael arnynt, yn y tymor byr ac yn fwy hirdymor?**

- Mae barn rhanddeiliaid ar yr effeithiau yn amrywio gan ddibynnu ar gyd-destunau unigol rhanddeiliaid, a'r manylion o fewn y strwythurau arfaethedig.
- Mae'r rhai sydd o blaid pythefnos o wyliau hanner tymor yr hydref yn nodi'r effeithiau cadarnhaol posibl ar lesiant dysgwyr, gan gynnwys llai o flinder a salwch ymhlith dysgwyr. Dywedodd y rhai a oedd yn erbyn y pythefnos arfaethedig o wyliau hanner tymor yn yr hydref nad oedd unrhyw fuddion a fyddai'n deillio o'r wythnos ychwanegol hon o wyliau yn werth yr aberth o wythnos yn llai o wyliau'r haf.
- Mae tipyn o gefnogaeth i ddatgysylltu gwyliau'r Pasg. Mae manteision y cynnig hwn yn cynnwys rhywfaint o sefydlogrwydd, rhwyddineb cynllunio a chysondeb dyddiadau tymhorau o flwyddyn i flwyddyn. Byddai gwyliau diweddarach yn y gwanwyn na'r hyn ydyw mewn rhai blynyddoedd o fudd i dwristiaeth ac yn atal tymor cywasgedig, byr yn y gwanwyn, i staff addysg a dysgwyr.
- Mae nifer o randdeiliaid yn pryderu am effaith bosibl pythefnos o wyliau hanner tymor ym mis Mai / mis Mehefin ar ddyddiadau arholiadau a pherfformiad dysgwyr. Mae'r tywydd cynhesach yn cael ei ystyried fel rhywbeth cadarnhaol yn bennaf gan rieni a dysgwyr, gyda rhai yn mynegi y byddai'n well ganddynt gael pythefnos o wyliau yn hanner tymor Mai / Mehefin yn hytrach nag ym mis Hydref.
- Yn gyffredinol, mae byrhau gwyliau'r haf i ganiatáu ymestyn gwyliau'r hydref a/neu wyliau mis Mai yn cael ei weld gan lawer o grwpiau rhanddeiliaid fel rhywbeth a fyddai'n cael effaith negyddol, yn arbennig ar recriwtio a chadw staff ysgolion.
- Mae'r cynnig i symud diwrnodau canlyniadau arholiadau fel eu bod o fewn yr un wythnos ar gyfer TGAU a Safon Uwch yn boblogaidd (C8 69.18%).

- O ran yr effeithiau posib ar y Gymraeg, cymysg yw’r farn. Mae rhai yn teimlo na fyddai'r cynigion hyn yn effeithio ar y Gymraeg, a mynegodd eraill y gallai gwyliau byrrach yn yr haf wella gallu dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref i ddal gafael ar eu Cymraeg.

**3. Pa newidiadau penodol, os o gwbl, fyddai'n fwyaf effeithiol er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng gwahanol anghenion a phryderon rhanddeiliaid?**

- Mae anghenion a phryderon rhanddeiliaid yn gymysg ac ychydig iawn o gonsensws sydd rhwng pawb ohonynt.
- Yn yr arolwg, roedd ymatebwyr o bob grŵp demograffig yn dweud nad oeddent o blaid Opsiwn 3, a dim ond gweithwyr rhan amser oedd o blaid Opsiwn 2.
- Mae'r ymchwil ansoddol yn dangos darlun mwy cymhleth:
    - Yn gyffredinol, mae rhieni o blaid newid, wedi'u rhannu yn bennaf rhwng Opsiynau 2 a 3. Mae llywodraethwyr ysgol a gweithwyr ieuenctid hefyd yn gyffredinol o blaid Opsiwn 2. Mae rhanddeiliaid twristiaeth yn croesawu datgysylltu gwyliau'r gwanwyn oddi wrth y Pasg ond yn gwrthwynebu'n gryf yr holl newidiadau eraill yn Opsiwn 2.
    - Ymhlith y rhai sy'n gwrthwynebu newid mae'r rhan fwyaf o staff ysgolion ac undebau addysg. Ar y cyfan, mae'n well gan ysgolion ac undebau y drefn bresennol (Opsiwn 1).
    - Roedd y rhai a gyfwelwyd yn gweld Opsiwn 2 fel "cyfaddawd hapus".
    - Mae'n well gan awdurdodau lleol a rhanddeiliaid blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae Opsiwn 3.

**4. Pa opsiynau gweithredu ar gyfer unrhyw newidiadau i strwythur y flwyddyn ysgol fyddai'r mwyaf a'r lleiaf effeithiol a ffafriol? Pam?**

- Oherwydd yr adborth cymysg iawn, oedd weithiau yn croes-ddweud ei gilydd, mae'n anodd bod yn sicr pa un o'r 3 opsiwn a gynigir yn yr ymgynghoriad fyddai'r mwyaf, na’r lleiaf, effeithiol.
- Mae mwy na hanner yr ymatebion i'r arolwg yn cytuno y gellid strwythuro'r calendr ysgolion yn well, tra bod mwy na hanner yr ymatebion i'r arolwg yn ffafrio Opsiwn 1 o gadw at y flwyddyn ysgol bresennol.
- O fewn yr ymchwil ansoddol nid oes fawr o gonsensws: mae rhieni, llywodraethwyr ysgolion a gweithwyr ieuenctid yn gyffredinol o blaid newid, a rhanddeiliaid twristiaeth, y gweithlu addysg ac undebau addysg yn erbyn newid.
- Mae effeithiau disgwyliedig unrhyw newidiadau yn amrywiol, yn aml yn ddibynnol ar randdeiliaid, ac yn aml nid ydynt yn canolbwyntio ar gyflawniad, cyrhaeddiad na chynnydd acadaemaidd.
- Cafodd rhai cynigion amgen ar gyfer diwygiadau i'r flwyddyn ysgol eu cynnig gan ymatebwyr.
- O'r newidiadau a gynigiwyd, cael diwrnodau canlyniadau arholiadau ar gyfer TGAU a Safon Uwch yn yr un wythnos yw'r un sy'n cael ei ffafrio fwyaf gan ymatebwyr.

## Y cynigion

- **Opsiwn 1**: Y calendr ysgol presennol (y drefn bresennol / y status quo). Wythnos o wyliau ym mis Hydref, pythefnos o wyliau dros y Nadolig, wythnos o wyliau ym mis Chwefror, pythefnos o wyliau dros y Pasg, wythnos o wyliau ym mis Mai a chwe wythnos o wyliau dros yr haf.
- **Opsiwn 2**: Calendr ysgol newydd ("Yr Opsiwn Newydd") o 2025 i 2026 ymlaen. Pythefnos o wyliau ym mis Hydref, yr hyblygrwydd i ddatgysylltu gwyliau'r gwanwyn ("gwyliau'r Pasg") â gwyl gyhoeddus y Pasg, a phum wythnos o wyliau dros yr haf, i'w cyflwyno o flwyddyn ysgol 2025 i 2026. Ni fyddai gwyliau mis Chwefror, y Nadolig na mis Mai yn newid yn yr opsiwn hwn.
- **Opsiwn 3:** Calendr Ysgol Newydd ("Yr Opsiwn Newydd a Mwy") yn y dyfodol yn cael ei gyflwyno mewn dau gam.
    - Cam 1 yn cael ei roi ar waith o flwyddyn ysgol 2025 i 2026 ymlaen a byddai'r un peth ag Opsiwn 2.
    - Newidiadau ychwanegol Cam 2 gan gynnwys pythefnos o wyliau ym mis Mai a phedair wythnos o wyliau dros yr haf. Gallai newidiadau pellach hefyd gynnwys cynnal diwrnodau canlyniadau'r arholiadau Safon UG/Safon Uwch a TGAU yn ystod yn yr un wythnos.
    - Ni fyddai gwyliau mis Chwefror na wyliau'r Nadolig yn newid yn y naill gam na'r llall o'r opsiwn hwn.
- Bydd y ddarpariaeth bresennol o 190 diwrnod/380 sesiwn (38 wythnos) o ddysgu a'r nifer presennol o ddiwrnodau hyfforddi staff (HMS) o bob blwyddyn ysgol yn ogystal â phob gwyliau cyhoeddus yn parhau o fewn unrhyw newidiadau a gynigir.
- Amlinellwyd dyddiadau tymor enghreifftiol ar gyfer blwyddyn ysgol 2025 i 2026, o dan Opsiwn 2 ac Opsiwn 3 Cam 1 yn y ddogfen ymgynghori.

### Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

### Manylion cyswllt

Am fwy o wybodaeth:
Y Gangen Amser Ysgol
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost: ArchwiliorDefnyddOAmserYsgol@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg: https://www.gov.wales/structure-school-year

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

**Copïau ychwanegol**

Cyhoeddir y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir ei gyrchu ar wefan Llywodraeth Cymru.
Dolen i'r ddogfen ymgynghori: https://www.llyw.cymru/strwythur-y-flwyddyn-ysgol

# Cynnwys


**1 Crynodeb 2**

Beth yw'r prif ystyriaethau? 2

Lle ydym ni nawr? 2

Y dystiolaeth dros newid 2

Y cynigion 3

Canfyddiadau 3

**1 Cyflwyniad 4**

1.1 Cyflwyniad 4

1.2 Cefndir Polisi 4

1.2.1 Cefndir yr ymgynghoriad 5

1.2.2 Strwythur yr Adroddiad 7

**2 Canfyddiadau 8**

2.1 Arolwg yr Ymgynghoriad 8

2.1.1 Cwestiwn 1 - I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi'r ffordd rydym yn byw, yn dysgu ac yn gweithio heddiw? 8

2.1.2 Cwestiwn 2 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi dysgwyr dan anfantais economaidd-gymdeithasol? 8

2.1.3 Cwestiwn 3 - I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)? 9

2.1.4 Cwestiwn 4 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi llesiant athrawon neu ddysgwyr a lleihau blinder? 10

2.1.5 Cwestiwn 5 - I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno wythnos ychwanegol o wyliau (wedi'i thynnu oddi ar wyliau'r haf) i rannu'r tymor hiraf (yr hydref)? 11

2.1.6 Cwestiwn 6 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chael yr hyblygrwydd i ddatgysylltu (gwahanu) gwyliau'r gwanwyn â gŵyl gyhoeddus y Pasg? 12

2.1.7 Cwestiwn 7 - I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno wythnos ychwanegol o wyliau ym mis Mai neu fis Mehefin (wedi'i thynnu oddi ar wyliau'r haf a'i hychwanegu at wyliau presennol mis Mai), er mwyn creu tymhorau cyson o ran hyd? 13

2.1.8 Cwestiwn 8 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chynnal diwrnodau canlyniadau Safon Uwch, Safon UG a TGAU yn ystod yr un wythnos? 14

2.1.9 Cwestiwn 9 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 1: cadw at y calendr ysgol presennol? 15

2.1.10 Cwestiwn 10 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 2 a'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig: calendr ysgol â phythefnos o wyliau ym mis Hydref, gwyliau'r gwanwyn ar yr un pryd fwy neu lai bob blwyddyn (ni waeth pryd y bydd y Pasg yn disgyn) a 5 wythnos o wyliau dros yr haf? 16

2.1.11 Cwestiwn 11 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 3: calendr ysgol â phythefnos o wyliau ym mis Hydref, gwyliau'r gwanwyn ar yr un pryd fwy neu lai bob blwyddyn (ni waeth pryd y bydd y Pasg yn disgyn), pythefnos o wyliau ym mis Mai a 4 wythnos o wyliau dros yr haf? 17
2.1.12 Cwestiwn 12 – Ar gyfer 2025 i 2026, i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dyddiadau arfaethedig a nodwyd ar gyfer y tymhorau yn Opsiwn 2 ac Opsiwn 3? 18
2.1.13 Effeithiau ar y Gymraeg 20
2.1.14 Sylwadau eraill 21
2.1.15 Demograffeg 22
2.2 Ymatebion Hawdd eu Deall 30
2.2.1 Cwestiwn 1 – Ydych chi'n hoffi'r calendr ysgol fel y mae nawr? 30
2.2.2 Cwestiwn 2 – Dychmygwch fod 1 wythnos o wyliau'r haf yn cael ei symud i fis Hydref er mwyn gwneud gwyliau mis Hydref yn 2 wythnos, yn lle 1 wythnos, o hyd. Byddai hyn yn golygu bod 5 wythnos o wyliau dros yr haf. Ydych chi'n hoffi'r syniad yma? 30
2.2.3 Cwestiwn 3 – Dychmygwch fod gwyliau'r gwanwyn yn digwydd tua'r un pryd bob blwyddyn. Ar hyn o bryd mae gwyliau'r gwanwyn yn symud bob blwyddyn i gyd-fynd â'r Pasg. Mae hyn yn gallu gwneud rhai tymhorau ysgol yn hir iawn neu'n fyr iawn. Ydych chi'n hoffi'r syniad o gael gwyliau'r gwanwyn tua'r un pryd bob blwyddyn? 31
2.2.4 Cwestiwn 4 – Dychmygwch ein bod yn cael pythefnos o wyliau ym mis Mai neu fis Mehefin. Ar hyn o bryd 1 wythnos o wyliau sydd. Byddai hyn yn golygu bod gwyliau'r haf 1 wythnos yn fyrrach. Ydych chi'n hoffi'r syniad yma? 31
2.2.5 Cwestiwn 5 – Ydych chi'n hoffi'r syniad o gael diwrnodau canlyniadau arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yn yr un wythnos? 32
2.2.6 Cwestiwn 7 – Ydych chi'n meddwl y byddai newid y calendr ysgol yn effeithio ar y Gymraeg? 32
2.2.7 Cwestiwn 8 – Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi, ar y Gymraeg? Sut gallen ni leihau unrhyw effeithiau gwael a chynyddu effeithiau da? 33
2.2.8 Cwestiwn 9 – Oes unrhyw beth arall hoffech chi ei ddweud wrthon ni am eich barn am y calendr ysgol? 33
2.2.9 Cwestiwn 6 – Demograffeg 33
2.3 Cyfryngau Cymdeithasol 34
2.3.1 Polau X (Twitter gynt) 34
2.3.2 Cwestiwn 1 – Oes yna newidiadau yr hoffech eu gweld yn y calendr ysgol? 34
2.3.3 Cwestiwn 2 – Dychmygwch fod 1 wythnos o wyliau'r haf wedi cael ei symud i fis Hydref ... 34
2.3.4 Cwestiwn 3 – Dychmygwch fod gwyliau'r gwanwyn yn digwydd ar adeg debyg bob blwyddyn... 35
2.3.5 Cwestiwn 4 – Dychmygwch ein bod yn cael gwyliau o 2 wythnos ym mis Mai neu fis Mehefin.... 35
2.3.6 Cwestiwn 5 – Ydych chi'n hoffi'r syniad o gael... diwrnodau canlyniadau arholiadau yn yr un wythnos? 35

2.3.7 Cwestiwn 7 – Ydych chi'n meddwl y byddai newid y calendr ysgol yn effeithio ar y Gymraeg? 36
2.3.8 Gweithgarwch arall ar X (Twitter gynt) a Facebook 36
2.3.9 Gweithgarwch Gwefan 37
2.3.10 Cyfryngau 37
2.4 Grwpiau Ffocws 38
2.4.1 Diwygio'r Calendr Ysgol – pythefnos o wyliau hanner tymor yn yr hydref a phum wythnos o wyliau yn yr haf 38
2.4.2 Diwygio'r Calendr Ysgol – Datgysylltu'r Past 39
2.4.3 Diwygio'r Calendr Ysgol – pythefnos o wyliau hanner tymor ym mis Mai / mis Mehefin a phedair wythnos o wyliau yn yr haf 40
2.4.4 Diwygio'r Calendr Ysgol – dyddiau canlyniadau TGAU a Safon UG / Safon Uwch 41
2.4.5 Cefnogaeth i Opsiwn 1 42
2.4.6 Cefnogaeth i Opsiwn 2 (pythefnos o wyliau ym mis Hydref) 42
2.4.7 Cefnogaeth i Opsiwn 3 43
2.4.8 Effeithiau ar y Gymraeg 44
2.4.9 Sylwadau Amgen 44
2.5 Cyfweliadau 45
2.5.1 Diwygio'r Calendr Ysgol – pythefnos o wyliau hanner tymor yn yr hydref a phum wythnos o wyliau yn yr haf 45
2.5.2 Diwygio'r Calendr Ysgol – datgysylltu'r Pasg 45
2.5.3 Diwygio'r Calendr Ysgol – pythefnos o wyliau hanner tymor ym mis Mai / mis Mehefin a phedair wythnos o wyliau yn yr haf 46
2.5.4 Diwygio'r Calendr Ysgol – diwrnodau canlyniadau arholiadau TGAU a Safon UG / Safon Uwch 46
2.5.5 Cefnogaeth i Opsiwn 1 47
2.5.6 Cefnogaeth i Opsiwn 2 48
2.5.7 Cefnogaeth i Opsiwn 3 48
2.5.8 Effeithiau ar y Gymraeg 48
2.5.9 Sylwadau ychwanegol 49
2.6 Gohebiaeth Ychwanegol – negeseuon e-bost a llythyrau 51
2.6.1 Ymatebion ychwanegol i newidiadau arfaethedig 51
2.6.2 Ymatebion cyffredinol i newidiadau arfaethedig 51
2.6.3 Cefnogaeth i Opsiwn 1 52
2.6.4 Cefnogaeth i Opsiwn 2 – hyd gwyliau'r haf 52
2.6.5 Diwygio'r Calendr Ysgol – pythefnos o wyliau hanner tymor yn yr Hydref 54
2.6.6 Diwygio'r Calendr Ysgol – datgysylltu'r Pasg 55
2.6.7 Cefnogaeth i Opsiwn 2 yn gyffredinol 55
2.6.8 Diwygio'r Calendr Ysgol – pythefnos o wyliau hanner tymor ym mis Mai / mis Mehefin 55
2.6.9 Diwygio'r Calendr Ysgol – dyddiau canlyniadau TGAU a Safon UG / Safon Uwch 56

2.6.10 Cefnogaeth i Opsiwn 3 yn gyffredinol 56
2.6.11 Effaith ar grwpiau penodol 57
2.6.12 Effaith ar sectorau penodol 58
2.6.13 Awgrymiadau amgen ar gyfer y calendr 58
2.6.14 Sylwadau ychwanegol 59
**3 Casgliad 61**
3.1.1 A allai calendr y flwyddyn ysgol gael ei strwythuro'n well i fynd i'r afael ag anfantais, a chefnogi cynnydd, llesiant a’r ffordd rydym yn byw heddiw? 61
3.1.2 Pa effeithiau y mae rhanddeiliaid yn rhagweld y byddai'r strwythurau blwyddyn ysgol amgen arfaethedig yn eu cael arnynt, yn y tymor byr ac yn fwy hirdymor? 61
3.1.3 Pa newidiadau penodol, os o gwbl, fyddai'n fwyaf effeithiol er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng gwahanol anghenion a phryderon rhanddeiliaid? 62
3.1.4 Pa opsiynau gweithredu ar gyfer unrhyw newidiadau i strwythur y flwyddyn ysgol fyddai'r mwyaf a'r lleiaf effeithiol a ffafriol? Pam? 63
**4 Atodiadau 65**
4.1 Ymatebion i'r ymgynghoriad 65
4.2 Methodoleg 71
4.2.1 Cwmpasu a Pharatoi 72
4.2.2 Sesiynau Cyd-drafod Ansoddol 72
4.2.3 Dadansoddi 73
4.2.4 Adrodd 74
4.3 Cwestiynau’r Ymgynghoriad 75
4.4 Cwestiynau Hawdd Eu Deall 76
4.5 Cwestiynau i’r Grwpiau Ffocws 77
4.6 Cwestiynau Cyfweliadau 80
4.7 Geirfa 83

# 1 Crynodeb

## Beth yw'r prif ystyriaethau?

Mae ymarfer ymgynghori a chyd-drafod Strwythur y Flwyddyn Ysgol yn deillio o addewid yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a’i Chytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru i archwilio newidiadau i galendr y flwyddyn ysgol ac, fel mater ar wahân, i’r diwrnod ysgol, yn ogystal â diwygiadau addysg ehangach.

Mae patrwm strwythuro'r calendr ysgol wedi dod yn gyfarwydd dros y 150 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, gan nad yw'r calendr ysgol wedi'i bennu mewn deddfwriaeth, nid yw dyddiadau tymhorau yr un fath bob amser ledled y Deyrnas Unedig na ledled Cymru. Mae'r gyfraith yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gydweithio i geisio cadw dyddiadau tymhorau mor gyson â phosib, ond mae gwahaniaethau lleol bach.

Mae'r flwyddyn ysgol yng Nghymru yn dechrau ym mis Medi ac yn gorffen ym mis Gorffennaf. Yn arferol, mae gan y calendr ysgol presennol dymor hydref hirach o'i gymharu â thymhorau byrrach y gwanwyn a'r haf. Nid oes unrhyw ffordd wedi ei phennu ar gyfer dosbarthu'r 13 wythnos o wyliau ysgol. Fel arfer, mae gan y calendr ysgol presennol wythnos o wyliau sy'n rhannu pob tymor yn hanner tymor (y cyfeirir atynt fel y "gwyliau hanner tymor"), gwyliau o bythefnos ar ddiwedd tymhorau'r hydref a'r gwanwyn (sy'n cyd-ddigwydd â'r Nadolig a'r Pasg ar hyn o bryd) a thua chwe wythnos o wyliau ar ddiwedd tymor yr haf. Mae hyd pob tymor a’r hanner tymor cysylltiedig yn cael ei bennu gan amserau gwyliau cyhoeddus, fel y Nadolig a'r Pasg. Mae amrywioldeb dyddiadau gwyliau cyhoeddus, er enghraifft, Dydd Sul y Pasg yn golygu bod y tymhorau yn amrywio o ran hyd.

## Lle ydym ni nawr?

Dros y blynyddoedd diwethaf bu llawer o newidiadau a gwelliannau i addysg yng Nghymru gan gynnwys cwricwlwm newydd, newidiadau i ddysgu proffesiynol, a ffyrdd newydd o gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, nid yw strwythur y flwyddyn ysgol, y tymhorau na'r gwyliau wedi newid. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried newid strwythur y calendr ysgol am bedwar rheswm:

1. Diwallu anghenion dysgwyr dan anfantais a'u teuluoedd yn well.
2. Cefnogi llesiant dysgwyr ac athrawon yn well a lleihau blinder.
3. Cefnogi’r dysgu a’r addysgu yn well.
4. Cefnogi patrymau byw a gweithio modern.

## Y dystiolaeth dros newid

Mae'r galwadau am Gomisiwn i "ail-greu addysg yng Nghymru" yn dyddio'n ôl i adroddiad 2018 ar Amodau i Athrawon Ysgol yng Nghymru.[1] Archwiliodd Adolygiad Tystiolaeth Llywodraeth Cymru 2021[2] y dystiolaeth bresennol ar effeithiau newidiadau i’r flwyddyn ysgol. Cynhaliodd Beaufort Research[3] ymchwil maes yng Nghymru i archwilio agweddau a chanfod lefelau uchel o fod yn agored tuag at ddiwygio yn gyffredinol. Comisiynwyd Miller Research i gynnal astudiaeth ansoddol (2023) i ddeall yn well effeithiau'r calendr ysgol presennol ar ddysgwyr, eu rhieni a'u staff addysg, a ganfu mai dysgwyr o gefndiroedd dan

[1] Datganiad Ysgrifenedig: Panel Arbenigol i Ail-greu Addysg
[2] Effeithiau newidiadau i'r flwyddyn ysgol LLYW. CYMRU
[3] Archwilio diwygio'r flwyddyn ysgol Adroddiad Ymchwil Beaufort: agweddau tuag at ddiwygio blwyddyn ysgol yng Nghymru GOV. CYMRU

anfantais yn gymdeithasol ac yn economaidd a'r rhai ag ADY y mae’r calendr ysgol presennol yn effeithio’n fwyaf negyddol arnynt.[4]

## Y cynigion

- **Opsiwn 1**: Y calendr ysgol presennol (y drefn bresennol / y status quo). Wythnos o wyliau ym mis Hydref, pythefnos o wyliau dros y Nadolig, wythnos o wyliau ym mis Chwefror, pythefnos o wyliau dros y Pasg, wythnos o wyliau ym mis Mai a chwe wythnos o wyliau dros yr haf.
- **Opsiwn 2**: Calendr ysgol newydd ("Yr Opsiwn Newydd") o 2025 i 2026 ymlaen. Pythefnos o wyliau ym mis Hydref, yr hyblygrwydd i ddatgysylltu gwyliau’r gwanwyn (“gwyliau’r Pasg”) â gwyl gyhoeddus y Pasg, a phum wythnos o wyliau dros yr haf, i’w cyflwyno o flwyddyn ysgol 2025 i 2026. Ni fyddai gwyliau mis Chwefror, y Nadolig na mis Mai yn newid yn yr opsiwn hwn.
- **Opsiwn 3:** Calendr Ysgol Newydd ("Yr Opsiwn Newydd a Mwy") yn y dyfodol yn cael ei gyflwyno mewn dau gam.
    - Cam 1 yn cael ei roi ar waith o flwyddyn ysgol 2025 i 2026 ymlaen a byddai'r un peth ag Opsiwn 2.
    - Newidiadau ychwanegol Cam 2 gan gynnwys pythefnos o wyliau ym mis Mai a phedair wythnos o wyliau dros yr haf. Gallai newidiadau pellach hefyd gynnwys cynnal diwrnodau canlyniadau’r arholiadau Safon UG/Safon Uwch a TGAU yn ystod yn yr un wythnos.
    - Ni fyddai gwyliau mis Chwefror na wyliau’r Nadolig yn newid yn y naill gam na'r llall o'r opsiwn hwn.
- Bydd y ddarpariaeth bresennol o 190 diwrnod/380 sesiwn (38 wythnos) o ddysgu a'r nifer presennol o ddiwrnodau hyfforddi staff (HMS) o bob blwyddyn ysgol yn ogystal â phob gwyliau cyhoeddus yn parhau o fewn unrhyw newidiadau a gynigir.
- Amlinellwyd dyddiadau tymor enghreifftiol ar gyfer blwyddyn ysgol 2025 i 2026, o dan Opsiwn 2 ac Opsiwn 3 Cam 1 yn y ddogfen ymgynghori.[5]

## Canfyddiadau

Mae'n anodd bod yn sicr pa un o'r 3 opsiwn a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad fyddai'r mwyaf, na’r lleiaf, effeithiol o ganlyniad i'r adborth cymysg iawn, ac anghyson weithiau, i'r ymgynghoriad. Cytunodd mwy na hanner yr ymatebion i'r arolwg y gallai’r calendr ysgol gael ei strwythuro'n well i fynd i'r afael ag anfantais, a chefnogi cynnydd, llesiant a’r ffordd rydym yn byw heddiw, tra bod mwy na hanner (er bod hyn ychydig yn llai) o'r ymatebion i'r arolwg yn ffafrio Opsiwn 1 o gynnal y flwyddyn ysgol bresennol. Dangosodd yr ymchwil ansoddol ddarlun mwy cymhleth gyda rhieni, llywodraethwyr ysgolion a gweithwyr ieuenctid ar y cyfan o blaid newid ar y naill law, a rhanddeiliaid twristiaeth, y gweithlu addysg a'r undebau addysg yn erbyn ar y llaw arall. Mae effeithiau disgwyliedig unrhyw newidiadau yn amrywiol, yn aml yn ddibynnol ar randdeiliaid, ac yn aml heb fod yn canolbwyntio ar gyflawniad, cyrhaeddiad a dilyniant academaidd. Nid oedd fawr o gonsensws ym marn a rhagdybiaethau rhanddeiliaid, a chynrychiolir hyn yn glir gan y rhaniad a oedd yn agos i 50/50 ar sawl cwestiwn.

Gellir gweld y fethodoleg yn Atodiad 4.2 ac mae'r cwestiynau ymgynghori wedi'u cynnwys yn Atodiad 4.3.

[4] Diwygio'r flwyddyn ysgol: canfyddiad a phrofiadau o’r calendr ysgol presennol GOV. CYMRU
[5] Dogfen ymgynghori Strwythur y Flwyddyn Ysgol GOV. CYMRU

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cyflwyniad

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Miller Research ym mis Awst 2023 i gynnal ymchwil a gwaith dadansoddi i gefnogi'r ymgynghoriad ar Strwythur y Flwyddyn Ysgol.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 21 Tachwedd 2023 a 12 Chwefror 2024. Roedd y gweithgareddau ymgynghori a chyd-drafod yn ceisio ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:

- A allai calendr y flwyddyn ysgol gael ei strwythuro'n well i fynd i'r afael ag anfantais, a chefnogi cynnydd, llesiant a'r ffordd rydym yn byw heddiw?
- Pa effeithiau y mae rhanddeiliaid yn rhagweld y byddai'r strwythurau blwyddyn ysgol amgen arfaethedig yn eu cael arnynt, yn y tymor byr ac yn fwy hirdymor?
- Pa newidiadau penodol, os o gwbl, fyddai fwyaf effeithiol o ran sicrhau cydbwysedd rhwng gwahanol anghenion a phryderon rhanddeiliaid?
- Pa opsiynau gweithredu ar gyfer unrhyw newidiadau i strwythur y flwyddyn ysgol fyddai'r mwyaf, a'r lleiaf, effeithiol a ffafriol? Pam?

Cynhyrchwyd y ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb hefyd fel fersiwn Hawdd ei Ddeall. Ochr yn ochr â'r dogfennau ymgynghori, cynhaliwyd gweithgareddau cyd-drafod wedi'u targedu, gan gynnwys grwpiau ffocws gyda dysgwyr, gweithwyr proffesiynol addysgu, rhieni/gofalwyr, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion, gweithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar a chynrychiolwyr y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, sefydliadau lletygarwch a thwristiaeth ac undebau'r gweithlu addysg. Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gyda chynrychiolwyr o enwadau crefyddol, Trafnidiaeth Cymru a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC), Cymwysterau Cymru ac Estyn. Datblygwyd pecyn cymorth hunan-gwblhau yn seiliedig ar y cwestiynau Hawdd eu Darllen ar gyfer ysgolion.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o bob elfen o'r cyd-drafod a'r ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae hyn yn cynnwys 16,328 o ymatebion unigryw a gyflwynwyd drwy'r ffurflen ymgynghori ffurfiol a 68 o ymatebion i'r fersiwn Hawdd ei Ddeall, tystiolaeth a gasglwyd o'r 25 grŵp ffocws blaenoriaeth a 10 cyfweliad gyda'r grwpiau rhanddeiliaid.

## 1.2 Cefndir Polisi

Mae'r ymarfer ymgynghori a chyd-drafod yn deillio o'r ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a'i Chytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru i archwilio newidiadau i galendr y flwyddyn ysgol ac, fel mater ar wahân, i'r diwrnod ysgol, yn ogystal â diwygiadau addysg ehangach.[6]

Mae rhaglen Llywodraeth Cymru o ddiwygio addysg wedi'i llunio i wella ansawdd addysg a chynyddu'r graddau y caiff rhieni a chymunedau eu cynnwys. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod arni eisiau ystyried a ellid newid y ffordd y mae'r calendr ysgol wedi'i strwythuro mewn ffyrdd sydd â'r potensial i liniaru effeithiau anfantais, lleihau anghydraddoldebau addysgol, cefnogi llesiant dysgwyr a staff a sicrhau bod y calendr yn gydnaws â phatrymau cyfoes bywyd teuluol a chyflogaeth.

Mae tystiolaeth eang i ymchwil ar y berthynas rhwng cyrhaeddiad dysgwyr ac amgylchiadau economaidd, sy'n tanlinellu'r angen i ystyried dysgwyr sydd o dan anfantais economaidd yn ofalus yn yr ymgynghoriad hwn ac unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r calendr. Nodwyd bod bwlch cyrhaeddiad y dysgwyr tlotaf fel y'i mesurir gan ganlyniadau TGAU yn arbennig o sylweddol, gyda dim ond 26% o ddysgwyr Cymru sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

[6] Rhaglen lywodraethu | LLYW. CYMRU
Y Cytundeb Cydweithio: 2021 | LLYW. CYMRU

yn cyflawni 5 TGAU da, o'i gymharu â 38% yn Lloegr. Mor gynnar â 2014, fe wnaeth Estyn dynnu sylw at effaith methiannau i gynllunio'n strategol i godi perfformiad a thargedu cefnogaeth benodol at ddysgwyr dan anfantais a gwerthuso effaith strategaethau i wella cyflawniad a llesiant dysgwyr dan anfantais[7]. Roedd Ymchwiliad y Senedd i Ganlyniadau Addysgol i Blant o Aelwydydd Incwm Isel yn dadlau y byddai polisïau sydd â'r nod o 'wella lefelau cyrhaeddiad yn gyffredinol' yn arwain at 'effaith o ymchwydd yn y llanw yn codi pob llong', ond bod angen polisïau 'wedi'u targedu'n benodol at godi cyrhaeddiad dysgwyr o deuluoedd incwm isel'[8].

Mae galwadau am Gomisiwn i "ail-greu addysg yng Nghymru" yn dyddio'n ôl i adroddiad 2018 ar Amodau i Athrawon Ysgol yng Nghymru, er bod pandemig Covid–19 wedi tarfu ar hyn.[9] Yn fwy diweddar, archwiliodd Adolygiad Tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn 2021 ddata eilaidd gyda'r gobaith o roi golwg fwy pendant ar opsiynau ar gyfer diwygio'r flwyddyn ysgol a buddion rhagamcanol y rheini, ond nid oedd wedi gallu dod i gasgliadau clir, oherwydd bod tystiolaeth ynglŷn â newid y flwyddyn ysgol yn 'gymysg ac amhendant'.[10]

Comisiynwyd Beaufort Research wedyn i archwilio canfyddiadau ac agweddau at ddiwygio trwy ymchwil ansoddol a meintiol gyda rhanddeiliaid.[11] Profodd yr ymchwil agweddau tuag at fodelau amgen a'r hyn a ganfuwyd oedd, er bod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn seilio'u syniad o ddiwygio ar y calendr ysgol presennol (y drefn bresennol / y status quo) gyda mân newidiadau, roedd graddau uchel o fod yn agored tuag at y pwnc yn gyffredinol. Argymhellwyd y byddai angen rhagor o 'dystiolaeth galed' i ddangos effeithiau posibl.

Mae'n hynod o arwyddocaol fod yr astudiaeth wedi argymell hefyd y dylid cyd-drafod ymhellach â'r rheini o gefndiroedd o dan anfantais neilltuol a rhieni a gofalwyr plant sydd ag ADY er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o'u hanghenion. Comisiynwyd Miller Research yn 2023 i gynnal yr ymgynghori dyfnach hwn, a ganfu fod dysgwyr o gefndiroedd sydd o dan anfantais gymdeithasol ac economaidd a'r rhai sudd ag ADY yn cael eu gweld fel t rhai y mae'r calendr ysgol presennol yn effeithio fwyaf arnynt.[12] Roedd yr ymgynghoriad hwn yn 2024 yn gyfle i ystyried y grwpiau hyn a'r ffordd y gallai diwygio'r flwyddyn ysgol effeithio ar eu cynnydd a'u llesiant.

### 1.2.1 Cefndir yr ymgynghoriad

Arweiniodd y gyfres o weithgarwch ymchwil a nodir uchod, a gwaith o ymgynghori helaeth ar bolisi, at ddatblygu amrediad o addasiadau arfaethedig i strwythur y flwyddyn ysgol. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i brofi'r cynigion hyn ac amseru unrhyw newidiadau posibl i strwythur y flwyddyn ysgol trwy ymarferiad ymgynghori cyhoeddus statudol llawn 12 wythnos.

Dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Strwythur y Flwyddyn Ysgol ar 21 Tachwedd 2023, a gefnogwyd gan ymgyrch gyfathrebu dan arweiniad Llywodraeth Cymru, a daeth i ben ar 12 Chwefror 2024.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar gwestiynau'n ymwneud â'r egwyddor o addasu'r flwyddyn ysgol, opsiynau ar gyfer gweithredu unrhyw addasiad o'r flwyddyn ysgol gan gynnwys rhai newidiadau sy'n cael eu cynnig ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/2026, a dyddiadau tymhorau a awgrymwyd ar gyfer y flwyddyn honno sy'n cyfateb i'r diwygiadau arfaethedig.

[7] Adroddiad Difreintedd Disgyblion Estyn
[8] Ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o aelwydydd incwm isel
[9] Datganiad Ysgrifenedig: Panel Arbenigol i Ail-greu Addysg
[10] Effeithiau newidiadau i'r flwyddyn ysgol a chalendrau ysgol amgen LLYW.CYMRU
[11] Archwilio diwygio'r flwyddyn ysgol: Adroddiad Beaufort Research: agweddau tuag at ddiwygio'r flwyddyn ysgol yng Nghymru LLYW.CYMRU
[12] Diwygio'r flwyddyn ysgol: canfyddiadau a phrofiadau o'r calendr presennol LLYW. CYMRU

Roedd y 3 opsiwn a gynigiwyd fel rhan o'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

Mae Ffigur 1.1.1 yn amlinellu Opsiwn 1, y cyfeirir ato fel y drefn bresennol neu’r status quo, sef strwythur presennol y flwyddyn ysgol. Mae'r strwythur presennol yn cynnwys wythnos o wyliau ym mis Hydref, pythefnos o wyliau dros y Nadolig, wythnos o wyliau ym mis Chwefror, pythefnos o wyliau dros y Pasg, wythnos o wyliau ym mis Mai a chwe wythnos o wyliau dros yr haf.

**Ffigur 1.1.1 – Opsiwn 1 Y drefn bresennol**

| | Tymor yr Hydref | | | Diwedd Tymor | Tymor y Gwanwyn | | Diwedd Tymor | Tymor yr Haf | | | Diwedd Tymor 3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyliau | | 1 | | 2 | | 1 | 2 | | 1 | | 6 | |
| | Med | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gor | Aws |

Mae Ffigur 1.1.2 yn amlinellu Opsiwn 2. Yn yr opsiwn hwn, cynigiwyd calendr ysgol gyda phythefnos o wyliau ym mis Hydref, yr hyblygrwydd i ddatgysylltu gwyliau’r gwanwyn ("gwyliau’r Pasg") â gŵyl gyhoeddus y Pasg, a phum wythnos o wyliau dros yr haf, i'w gyflwyno o flwyddyn ysgol 2025 i 2026. Ni fyddai'r gwyliau ym mis Chwefror, y Nadolig na mis Mai yn newid yn yr opsiwn hwn.

**Ffigur 1.1.2 Opsiwn 2 –Opsiwn Newydd o 2025 ymlaen**

| Opsiwn 2 (o 2025/26 ymlaen) | Tymor yr Hydref | | | Diwedd Tymor | Tymor y Gwanwyn | | Diwedd Tymor | Tymor yr Haf | | | Diwedd Tymor 3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyliau | | 2 | | 2 | | 1 | 2 | | 1 | | 5 | |
| | Med | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gor | Aws |

Newidiadau Opsiwn 2

Mae Ffigur 1.1.3 yn amlinellu Opsiwn 3 Cam 1 a Cham 2. Byddai Cam 1 Opsiwn 3 yn cael ei weithredu o flwyddyn ysgol 2025 i 2026 a byddai'r un peth ag Opsiwn 2. Yn y cam hwn, cynigiodd Llywodraeth Cymru galendr ysgol gyda phythefnos o wyliau ym mis Hydref, yr hyblygrwydd i ddatgysylltu gwyliau’r y gwanwyn ("gwyliau’r Pasg") â gŵyl gyhoeddus y Pasg, a phum wythnos o wyliau dros yr haf. Yn ogystal â'r newidiadau yng Ngham 1, cynigiodd Llywodraeth Cymru newidiadau ychwanegol i'r calendr ysgolion ar ôl gweithredu newidiadau Cam 1. Roedd y newidiadau ychwanegol hyn, Cam 3 Opsiwn 2. yn cynnwys pythefnos o wyliau ym mis Mai a phedair wythnos o wyliau dros yr haf. Gallai newidiadau pellach hefyd fod wedi cynnwys cynnal diwrnodau canlyniadau Safon UG/Safon Uwch a TGAU yn yr un wythnos.

**Ffigur 1.1.3 Opsiwn 3: Yr Opsiwn Newydd a Mwy**

| Opsiwn 3 Cam 1 (o 2025/26 ymlaen) | Tymor yr Hydref | | | Diwedd Tymor 1 | Tymor y Gwanwyn | | Diwedd Tymor 2 | Tymor yr Haf | | | | Diwedd Tymor 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyliau | | 2 | | 2 | | 1 | 2 | | 1 | | | 5 |
| | Med | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gor | Aws |

| Opsiwn 3 Cam 2 (o ddyddiad diweddarach) | Tymor yr Hydref | | | Diwedd Tymor 1 | Tymor y Gwanwyn | | Diwedd Tymor 2 | Tymor yr Haf | | | | Diwedd Tymor 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyliau | | 2 | | 2 | | 1 | 2 | | 2 | | | 4 |
| | Med | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gor | Aws |

| | |
|---|---|
| (melyn) | Newidiadau Opsiwn 3 Cam 1 (yr un peth ag Opsiwn 2) |
| (coch) | Newidiadau Opsiwn 3 Cam 2 |

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o bob elfen o'r broses ymgynghori a chyd-drafod. Mae hyn yn cynnwys yr 16,328 o ymatebion unigryw a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad a 68 o ymatebion Hawdd eu Deall, tystiolaeth a gasglwyd o'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau. Dadansoddwyd ymatebion drwy'r ffurflen ymgynghori a'r cyd-drafod ansoddol yn annibynnol gan Miller Research a'u crynhoi yn yr adroddiad hwn.

### 1.2.2 Strwythur yr Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro o amgylch gwahanol gamau’r broses gyd-drafod â rhanddeiliaid a dadansoddi’r ymgynghoriad fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn nodi'r canfyddiadau o dan y math o ymateb:
  - Ymatebion ffurflenni ymgynghori
  - Ymatebion yr ymgynghoriad Hawdd ei Ddeall
  - Ymatebion i'r cyfryngau cymdeithasol
  - Grwpiau Ffocws
  - Cyfweliadau
  - Gohebiaeth ychwanegol – negeseuon e-bost a llythyrau
- Mae Adran 3 yn rhoi casgliadau ar y broses gyffredinol.
- Mae'r Atodiad yn cynnwys y deunyddiau ymchwil:
  - Y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil
  - Cwestiynau Ymgynghori
  - Cwestiynau Hawdd eu Deall
  - Cwestiynau Grŵp Ffocws
  - Cwestiynau Cyfweliad

# 2 Canfyddiadau

## 2.1 Arolwg yr Ymgynghoriad


### 2.1.1 Cwestiwn 1 - I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi'r ffordd rydym yn byw, yn dysgu ac yn gweithio heddiw?

Roedd mwy na hanner (58.42%) naill ai'n cytuno (24.03%) neu'n cytuno'n gryf (34.39%) y gallai'r flwyddyn ysgol gael ei llunio'n well i gefnogi'r ffordd yr ydym yn byw, dysgu a gweithio heddiw. Roedd 27.19% yn anghytuno'n gryf a 13.57% yn anghytuno gan ffurfio cyfanswm cyfunol o 40.76% o ymatebion negyddol.

**Tabl 2.1.1 Ymatebion Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad**

| Ymateb | Nifer | Y cant |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 5616 | 34.39 |
| Cytuno | 3923 | 24.03 |
| Anghytuno | 2216 | 13.57 |
| Anghytuno'n gryf | 4439 | 27.19 |
| Heb ateb | 134 | 0.82 |
| Cyfanswm | 16328 | 100.00 |

**Ffigur 2.1.1 Ymatebion i Gwestiwn 1 yr Ymgynghoriad**





### 2.1.2 Cwestiwn 2 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi dysgwyr dan anfantais economaidd-gymdeithasol?

Roedd dros hanner (54.72%) naill ai'n cytuno (27.14%) neu'n cytuno'n gryf (27.57%) y gellid llunio'r flwyddyn ysgol yn well i gefnogi dysgwyr dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Roedd 25.45% yn anghytuno'n gryf a 18.58% yn anghytuno gan ffurfio cyfanswm cyfunol o 44.02% o ymatebion yn erbyn.

**Tabl 2.1.2 Ymatebion i Gwestiwn 2 yr Ymgynghoriad**

| Ymateb | Nifer | Y cant |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 4502 | 27.57 |
| Cytuno | 4432 | 27.14 |
| Anghytuno | 3033 | 18.58 |
| Anghytuno'n gryf | 4155 | 25.45 |
| Heb ateb | 206 | 1.26 |
| Cyfanswm | 16328 | 100.00 |

**Ffigur 2.1.2 Ymatebion i Gwestiwn 2 yr Ymgynghoriad**





### 2.1.3 Cwestiwn 3 - I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)?

Roedd dros hanner yr ymatebion (55.39%) naill ai'n cytuno (27.06%) neu'n cytuno'n gryf (28.33%) y gellid llunio'r flwyddyn ysgol yn well i gefnogi dysgwyr ag ADY. Roedd 24.57% yn anghytuno'n gryf a 18.67% yn anghytuno, gan ffurfio canran gyfunol o 44.02% o ymatebion yn erbyn.

**Tabl 2.1.3 Ymatebion i Gwestiwn 3 yr Ymgynghoriad**

| Ymateb | Nifer | Y cant |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 4625 | 28.33 |
| Cytuno | 4419 | 27.06 |
| Anghytuno | 3048 | 18.67 |
| Anghytuno'n gryf | 4012 | 24.57 |
| Heb ateb | 224 | 1.37 |
| Cyfanswm | 16328 | 100.00 |

**Ffigur 2.1.3 Ymatebion i Gwestiwn 3 yr Ymgynghoriad**





### 2.1.4 Cwestiwn 4 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi llesiant athrawon neu ddysgwyr a lleihau blinder?

Roedd mwy na hanner yr ymatebion (59.58%) naill ai'n cytuno (24.11%) neu'n cytuno'n gryf (35.47%) y gellid llunio'r flwyddyn ysgol yn well i gefnogi llesiant athrawon neu ddysgwyr a lleihau blinder. Roedd 25.21% o'r ymatebion yn anghytuno'n gryf a 14.11% yn anghytuno gan ffurfio canran gyfunol o 39.33% o ymatebion yn erbyn.

**Tabl 2.1.4 Ymatebion i Gwestiwn 4 yr Ymgynghoriad**

| Ymateb | Nifer | Y cant |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 5792 | 35.47 |
| Cytuno | 3937 | 24.11 |
| Anghytuno | 2304 | 14.11 |
| Anghytuno'n gryf | 4117 | 25.21 |
| Heb ateb | 178 | 1.09 |
| Cyfanswm | 16328 | 100.00 |

**Ffigur 2.1.4 Ymatebion i Gwestiwn 4 yr Ymgynghoriad**




### 2.1.5 Cwestiwn 5 - I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno wythnos ychwanegol o wyliau (wedi'i thynnu oddi ar wyliau'r haf) i rannu'r tymor hiraf (yr hydref)?


Roedd tua hanner yr ymatebwyr (50.7%) yn cytuno (17.74%) neu'n cytuno'n gryf (32.96%) gydag wythnos ychwanegol o wyliau yn nhymor yr hydref wedi ei thynnu oddi ar wyliau'r haf. Roedd y gyfran unigol fwyaf o ymatebion (37.89%) yn anghytuno'n gryf ac ynghyd â (10.66%) yn anghytuno, roedd 48.54% o'r ymatebion yn gwrthwynebu wythnos ychwanegol o wyliau yn nhymor yr hydref wedi'i thynnu oddi ar o wyliau'r haf.

Cwestiwn 5 gafodd y nifer fwyaf o ymatebion yn yr arolwg.

**Tabl 2.1.5 Ymatebion i Gwestiwn 5 yr Ymgynghoriad**

| Ymateb | Nifer | Y cant |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 5381 | 32.96 |
| Cytuno | 2897 | 17.74 |
| Anghytuno | 1740 | 10.66 |
| Anghytuno'n gryf | 6186 | 37.89 |
| Heb ateb | 124 | 0.76 |
| Cyfanswm | 16328 | 100.00 |

**Ffigur 2.1.5 Ymatebion i Gwestiwn 5 yr Ymgynghoriad**





### 2.1.6 Cwestiwn 6 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chael yr hyblygrwydd i ddatgysylltu (gwahanu) gwyliau'r gwanwyn â gŵyl gyhoeddus y Pasg?

Roedd tua hanner (50.77%) naill ai'n cytuno (27.65%) neu'n cytuno'n gryf (23.12%) gyda chael yr hyblygrwydd i ddatgysylltu gwyliau'r gwanwyn â gŵyl gyhoeddus y Pasg. Roedd cyfuniad o 48.18% naill ai'n anghytuno (17.47%) neu'n anghytuno cryf (30.71%).

**Tabl 2.1.6 Ymatebion i Gwestiwn 6 yr Ymgynghoriad**

| Ymateb | Nifer | Y cant |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 3775 | 23.12 |
| Cytuno | 4515 | 27.65 |
| Anghytuno | 2853 | 17.47 |
| Anghytuno'n gryf | 5014 | 30.71 |
| Heb ateb | 171 | 1.05 |
| Cyfanswm | 16328 | 100.00 |

**Ffigur 2.1.6 Ymatebion i Gwestiwn 6 yr Ymgynghoriad**





### 2.1.7 Cwestiwn 7 - I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno wythnos ychwanegol o wyliau ym mis Mai neu fis Mehefin (wedi'i thynnu oddi ar wyliau'r haf a'i hychwanegu at wyliau presennol mis Mai), er mwyn creu tymhorau cyson o ran hyd?

Roedd dros hanner (54.3%) yn gwrthwynebu wythnos ychwanegol o wyliau ym mis Mai neu fis Mehefin (wedi'i thynnu oddi ar wyliau'r haf a'i hychwanegu at wyliau presennol mis Mai) er mwyn creu tymhorau cyson o ran hyd. Roedd y ganran uchaf o ymatebion, 37.89%, yn anghytuno'n gryf, a 16.41%. arall yn anghytuno. Roedd cyfuniad o 44.89% naill ai'n cytuno (19.71%) neu'n cytuno'n gryf (25.17%).

**Tabl 2.1.7 Ymatebion i Gwestiwn 7 yr Ymgynghoriad**

| Ymateb | Nifer | Y cant |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 4110 | 25.17 |
| Cytuno | 3219 | 19.71 |
| Anghytuno | 2680 | 16.41 |
| Anghytuno'n gryf | 6186 | 37.89 |
| Heb ateb | 133 | 0.81 |
| Cyfanswm | 16328 | 100.00 |

**Ffigur 2.1.7 Ymatebion i Gwestiwn 7 yr Ymgynghoriad**





### 2.1.8 Cwestiwn 8 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chynnal diwrnodau canlyniadau Safon Uwch, Safon UG a TGAU yn ystod yr un wythnos?

Roedd mwyafrif o ymatebion (69.18%) o blaid cynnal diwrnodau canlyniadau Safon Uwch, Safon UG a TGAU yn yr un wythnos. Roedd 43.99% o'r ymatebion yn cytuno a 25.2% pellach yn cytuno'n gryf. Roedd cyfanswm o 28.45% naill ai'n anghytuno (15.04%) neu'n anghytuno'n gryf (13.42%).

**Tabl 2.1.8 Ymatebion i Gwestiwn 8 yr Ymgynghoriad**

| Ymateb | Nifer | Y cant |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 4114 | 25.20 |
| Cytuno | 7182 | 43.99 |
| Anghytuno | 2455 | 15.04 |
| Anghytuno'n gryf | 2191 | 13.42 |
| Heb ateb | 386 | 2.36 |
| Cyfanswm | 16328 | 100.00 |

**Ffigur 2.1.8 Ymatebion i Gwestiwn 8 yr Ymgynghoriad**





### 2.1.9 Cwestiwn 9 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 1: cadw at y calendr ysgol presennol?

Roedd mwy na hanner (52.58%) yn cytuno (13.52%) neu'n cytuno'n gryf (39.07%) gydag Opsiwn 1: cadw at y calendr ysgol presennol. O'r rhai nad oeddent o blaid Opsiwn 1 (46.39%), roedd 23.49% yn anghytuno a 22.89% yn anghytuno'n gryf.

**Tabl 2.1.9 Ymatebion i Gwestiwn 9 yr Ymgynghoriad**

| Ymateb | Nifer | Y cant |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 6379 | 39.07 |
| Cytuno | 2207 | 13.52 |
| Anghytuno | 3836 | 23.49 |
| Anghytuno'n gryf | 3738 | 22.89 |
| Heb ateb | 168 | 1.03 |
| Cyfanswm | 16328 | 100.00 |

**Ffigur 2.1.9 Ymatebion i Gwestiwn 9 yr Ymgynghoriad**





### 2.1.10 Cwestiwn 10 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 2 a'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig: calendr ysgol â phythefnos o wyliau ym mis Hydref, gwyliau'r gwanwyn ar yr un pryd fwy neu lai bob blwyddyn (ni waeth pryd y bydd y Pasg yn disgyn) a 5 wythnos o wyliau dros yr haf?

Roedd dros hanner (54.01%) naill ai'n anghytuno (17.03%) neu'n anghytuno'n gryf (36.98%) gydag Opsiwn 2: calendr ysgol gyda phythefnos o wyliau ym mis Hydref, gwyliau'r gwanwyn ar yr un pryd fwy neu lai bob blwyddyn (ni waeth pryd fydd y Pasg yn disgyn) a 5 wythnos o wyliau dros yr haf. Roedd cyfuniad o 44.92% naill ai'n cytuno (27.11%) neu'n cytuno'n gryf (17.8%) gydag Opsiwn 2.

**Tabl 2.1.10 Ymatebion i Gwestiwn 10 yr Ymgynghoriad**

| Ymateb | Nifer | Y cant |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 2907 | 17.80 |
| Cytuno | 4427 | 27.11 |
| Anghytuno | 2780 | 17.03 |
| Anghytuno'n gryf | 6038 | 36.98 |
| Heb ateb | 176 | 1.08 |
| Cyfanswm | 16328 | 100.00 |

**Ffigur 2.1.10 Ymatebion i Gwestiwn 10 yr Ymgynghoriad**




### 2.1.11 Cwestiwn 11 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 3: calendr ysgol â phythefnos o wyliau ym mis Hydref, gwyliau'r gwanwyn ar yr un pryd fwy neu lai bob blwyddyn (ni waeth pryd y bydd y Pasg yn disgyn), pythefnos o wyliau ym mis Mai a 4 wythnos o wyliau dros yr haf?


Roedd mwyafrif yr ymatebion (62.54%) naill ai'n anghytuno (13.39%) neu'n anghytuno'n gryf (49.15%) gydag Opsiwn 3: calendr ysgol â phythefnos o wyliau ym mis Hydref, gwyliau'r gwanwyn ar yr un pryd fwy neu lai bob blwyddyn (ni waeth pryd y bydd y Pasg yn disgyn), pythefnos o wyliau ym mis Mai a 4 wythnos o wyliau dros yr haf. Roedd cyfanswm o 36.64% naill ai'n cytuno (12.99%) neu'n cytuno'n gryf (23.65%) gydag Opsiwn 3.

Derbyniodd yr opsiwn anghytuno'n gryf ar gyfer cwestiwn 11 y gyfradd ymateb uchaf o'r holl gwestiynau yn yr arolwg, sef 8025.

**Tabl 2.1.11 Cwestiwn ymgynghoriad 11 o ymatebion**

| Ymateb | Cyfrif | Y cant |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 3862 | 23.65 |
| Cytuno | 2121 | 12.99 |
| Anghytuno | 2187 | 13.39 |
| Anghytuno'n gryf | 8025 | 49.15 |
| Heb ateb | 133 | 0.81 |
| Cyfanswm | 16328 | 100.00 |

**Ffigur 2.1.11 Ymatebion i Gwestiwn 11 yr Ymgynghoriad**





### 2.1.12 Cwestiwn 12 – Ar gyfer 2025 i 2026, i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dyddiadau arfaethedig a nodwyd ar gyfer y tymhorau yn Opsiwn 2 ac Opsiwn 3?

Roedd dros hanner (52.85%) naill ai'n anghytuno (12.19%) neu'n anghytuno'n gryf (40.65%) gyda'r dyddiadau tymor arfaethedig a nodwyd ar gyfer 2025 i 2026 yn Opsiwn 2 a 3. Roedd 22.6% o'r ymatebion yn cytuno a 22.89% yn cytuno'n gryf gan ffurfio cyfanswm cyfunol o 45.49% a oedd yn cytuno â'r dyddiadau tymor arfaethedig a nodwyd yn Opsiynau 2 a 3.

**Tabl 2.1.12 Ymatebion i Gwestiwn 12 yr Ymgynghoriad**

| Ymateb | Nifer | Y cant |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 3737 | 22.89 |
| Cytuno | 3690 | 22.60 |
| Anghytuno | 19 91 | 12.19 |
| Anghytuno'n gryf | 6638 | 40.65 |
| Heb ateb | 272 | 1.67 |
| Cyfanswm | 16328 | 100.00 |

**Ffigur 2.1.12 Ymatebion i Gwestiwn 12 yr Ymgynghoriad**



### 2.1.13 Effeithiau ar y Gymraeg

Fel gyda phob ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru, roedd cwestiynau safonol yn cael eu cynnwys ar yr iaith Gymraeg. Roedd cwestiwn 13 a 14 yn gofyn:

- **Cwestiwn 13 – Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. A ydych yn meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? A ydych yn meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?**
- **Cwestiwn 14 – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r cynigion er mwyn:**
  - **cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**
  - **lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Derbyniodd Cwestiwn 13 gyfanswm o 7210 o ymatebion a derbyniwyd 5415 o ymatebion i Gwestiwn 14.

Daeth sawl thema allweddol i'r amlwg yn y sylwadau ar y ddau gwestiwn, a'r mwyaf cyffredin o'r rhain oedd naill ai na fyddai newidiadau i'r flwyddyn ysgol yn cael dim effaith ar y Gymraeg neu nad yw strwythur y flwyddyn ysgol yn berthnasol o gwbl i'r Gymraeg. Ni wnaed unrhyw gysylltiad, ac ni chredid bod cysylltiad, rhwng y Gymraeg yn gyffredinol na gallu dysgwyr yn y Gymraeg a strwythur y flwyddyn ysgol.

Roedd themâu eraill yn tynnu sylw at effeithiau cadarnhaol posibl ar y Gymraeg yn sgil newidiadau i'r calendr ysgol. Yn yr ymatebion, gwnaed cyswllt rhwng gwyliau haf byrrach a dysgwyr yn cadw sgiliau Cymraeg yn well o'i gymharu â'r gwyliau chwe wythnos presennol. Tynnwyd sylw at ddysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref ac sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg fel rhai a allai elwa o hyn. Roedd y ffactorau y dywedwyd eu bod yn dylanwadu ar hyn, yn sgil y newidiadau i'r calendr ysgol, yn cynnwys llai o golli dysg oherwydd y gwyliau haf byrrach, y dysgwyr ym mhresenoldeb y Gymraeg yn fwy rheolaidd, ac wrth i waith cartref gael ei osod dros wyliau pythefnos mae llai o risg o golli dysg drwy ymestyn gwyliau o wythnos o hyd, o'i gymharu â gwyliau'r haf lle nad yw gwaith ysgol yn cael ei osod.

Soniwyd am bwysigrwydd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol, er na roddwyd unrhyw gyd-destun cadarnhaol na negyddol i hyn. Amlygwyd diffyg cymorth a darpariaeth Gymraeg yn ystod yr haf.

Roedd dealltwriaeth fod digwyddiadau diwylliannol yn bwysig i'r Gymraeg ac y gallai newidiadau arfaethedig i'r flwyddyn ysgol effeithio arnynt. Gallai gwyliau hirach ym mis Mai (fel yn Opsiwn 3) fod o fudd i Eisteddfod yr Urdd gan y gallai amser hirach i ffwrdd o'r ysgol annog presenoldeb uwch. Gallai hefyd gefnogi llesiant staff a dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg oherwydd yn ôl sylwadau, mae nifer yn rhoi o'u hamser i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, neu eu chefnogi, yn ystod gwyliau mis Mai, gan olygu llai o amser i orffwys.

Roedd themâu ynghylch effaith negyddol y cynigion yn cysylltu nifer uwch o wyliau hirach â mwy o darfu ar sgiliau Cymraeg mewn ysgolion.

Roedd pryder am effeithiau negyddol posib ar ddigwyddiadau diwylliannol sy'n digwydd yn ystod gwyliau'r haf sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac yn ei hyrwyddo. Gallai'r Eisteddfod Genedlaethol ddioddef gan y byddai'n cystadlu â blaenoriaethau eraill i deuluoedd yn ystod gwyliau byrrach yn yr haf. Ar hyn o bryd mae Sioe Frenhinol Cymru yn cael ei chynnal y tu

allan i'r tymor ym Mhowys (ac yn rheolaidd y tu allan i'r tymor i awdurdodau lleol eraill) a mynegwyd pryderon y byddai newidiadau arfaethedig i wyliau'r haf yn golygu bod y digwyddiad hwn yn digwydd yn ystod y tymor. Roedd sylwadau'n awgrymu y byddai effaith anghymesur ar gymunedau Cymraeg gan fod y digwyddiadau hyn yn ddigwyddiadau pwysig yn y calendr.

Roedd ystyriaeth arall am yr effaith ar y Gymraeg yn ymwneud â'r pryder y gallai newidiadau i'r calendr ysgol effeithio'n negyddol ar dwristiaeth Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae niferoedd uwch o siaradwyr Cymraeg.

### 2.1.14 Sylwadau eraill

Cwestiwn 15 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma. Derbyniodd cwestiwn 15 gyfanswm o 5272 o ymatebion.

I'r rhai nad oeddent yn cefnogi newidiadau i'r calendr ysgol, roedd y themâu yn cynnwys llesiant dysgwyr a staff ysgolion, gwahaniaethau tymhorol, a chanlyniadau anfwriadol.

Roedd yr ymatebion yn nodi bod gwyliau haf o chwe wythnos yn angenrheidiol neu'n 'haeddiannol' er mwyn llesiant staff ysgolion a dysgwyr. Byddai'r newidiadau arfaethedig i'r flwyddyn ysgol (yn Opsiwn 2 ac Opsiwn 3) yn byrhau'r amser hwn ac yn gohirio dechrau'r gwyliau pan fydd staff a dysgwyr wedi blino ar ddiwedd tymor yr haf. Y farn oedd bod y strwythur presennol yn rhoi amser i ddysgwyr fwynhau eu plentyndod i ffwrdd o'r ysgol a dadflino ar ôl y flwyddyn academaidd. Dywedwyd bod tymhorau a gwyliau hirach yn helpu i sefydlu trefn reolaidd i ddysgwyr a bod hynny'n cefnogi eu llesiant.

Roedd gwyliau o chwe wythnos yn cael ei ystyried yn hanfodol er mwyn denu a chadw'r gweithlu addysg. Esboniodd yr ymatebwyr mai gwyliau'r haf yw'r unig amser ar gyfer gwyliau gwirioneddol i ffwrdd o'r gwaith, oherwydd bod, yn eu barn hwy, athrawon yn rheolaidd yn treulio gwyliau eraill y flwyddyn (sef y Nadolig, y Pasg a hanner tymor) yn gweithio. Mae aelodau uwch o staff eisoes yn byrhau eu gwyliau haf yn rheolaidd oherwydd eu swyddi, fel y mae staff ysgolion uwchradd oherwydd wythnosau canlyniadau Safon Uwch a TGAU.

Thema arall a ystyriwyd fel rhywbeth sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant y gweithlu addysg oedd y farn (yn ôl pob tebyg gan y rhai y tu allan i'r sector) mai math o wasanaeth gofal plant yw ysgolion yn bennaf, ac felly dylid ystyried goblygiadau o ran gwyliau blynyddol a ddyrennir i rieni sy'n gweithio. Mae'r sectorau gofal plant ac addysg yn ystyriaethau ar wahân, gyda'u heriau a'u gweithwyr proffesiynol eu hunain sy'n gweithio ynddynt.

Dywedwyd bod gwahaniaethau tymhorol yn y tywydd, o gymharu'r haf â'r hydref, yn dylanwadu ar iechyd a llesiant dysgwyr, o gofio bod llai o gyfleoedd am weithgarwch corfforol yn yr hydref o'i gymharu â'r haf oherwydd y tywydd oerach a llai o oriau golau dydd. Roedd pryderon y byddai wythnos ychwanegol yng ngwyliau'r hydref yn cynyddu'r amser mae dysgwyr yn ei dreulio'r tu ôl i sgrin, gan fod llai o gyfle i fynd tu allan. Roedd disgwyl mwy o effeithiau negyddol i ddysgwyr dan anfantais economaidd a'u teuluoedd gyda chostau uwch ar gyfer adloniant (dan do) o'i gymharu â'r haf a gwariant ychwanegol ar wresogi'r cartref.

Mynegwyd pryderon am y canlyniadau anfwriadol pe byddai Cymru'n cael gwyliau ysgol sy'n wahanol i weddill y DU. Byddai dyddiadau tymor gwahanol i Loegr yn effeithio'n fwy ar gymunedau ar hyd y ffin gydag enghreifftiau'n cael eu rhoi o deuluoedd â phlant mewn gwahanol ysgolion y naill ochr i'r ffin, neu rieni sy'n gweithio mewn addysg mewn gwlad wahanol i ysgol eu plentyn. Yn ehangach, roedd pryderon y gallai dyddiadau gwyliau gwahanol i weddill y DU atal dysgwyr rhag cymysgu â gweddill poblogaeth y DU. Ni soniwyd am y gwahaniaeth presennol yn nyddiau'r tymhorau yn yr Alban a Gogledd

Iwerddon, felly y casgliad yw y gellir dehongli cyfeiriadau at y DU fel Lloegr yn unig. Mae dyddiadau tymor eisoes yn wahanol ar adegau rhwng Cymru a Lloegr.

Thema a godwyd gan rai oedd y byddai newidiadau i'r flwyddyn ysgol yn effeithio'n negyddol ar ardaloedd gwledig pe bai Sioe Frenhinol Cymru yn digwydd ar amser tymor. Roedd yr ymatebion yn cynnwys pryderon y byddai presenoldeb yn is, gan effeithio'n negyddol ar yr economi wledig law yn llaw â risg uwch o bresenoldeb gwael yn yr ysgol yn ystod amseroedd y sioe.

Roedd rhai sylwadau a oedd yn gwrthwynebu newid i galendr yr ysgol yn mynegi cred na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith ac felly nad oedd eu hangen. Roedd eraill yn teimlo bod diffyg tystiolaeth o hyd i gefnogi'r angen am newid. Gwnaed honiadau anghywir nad yr ymgynghoriad yw'r cyntaf ar fater diwygio'r flwyddyn ysgol ac nad oedd y tro hwn yn ddim ond ymarferiad i geisio creu canlyniad ffafriol. Efallai nad oedd ymatebwyr wedi deall, nad oedd, yn wahanol i’r ymarferiad hwn, Arolwg Beaufort ac ymchwil ansoddol yn ymgyngoriadau ynghylch yr opsiynau ar gyfer diwygio'r flwyddyn ysgol.

I'r rhai a oedd yn cefnogi newidiadau i galendr yr ysgol, roedd y themâu a grybwyllwyd yn cynnwys: cefnogaeth i newid mwy radical, gwella llesiant, a goblygiadau costau i deuluoedd.

Roedd rhai o’r awgrymiadau mwy radical yn datgan nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell i ymdrin â llesiant ac i fod yn gydnaws â byw modern. Ymhlith yr awgrymiadau roedd:

- newid strwythur yr wythnos i alluogi wythnos 4-diwrnod, gan adlewyrchu nad yw trefn o ddydd Llun i ddydd Gwener yn cyd-fynd â gweddill cymdeithas mwyach
- rhoi gwyliau wythnos ychwanegol yn nhymor yr hydref ar wahân i'r gwyliau presennol i greu tri 'hanner' tymor cyn y Nadolig
- gwyliau o dair wythnos adeg y Nadolig a'r Pasg
- newid hyd tymor yr hydref trwy ddechrau'r gwyliau Nadolig wythnos ynghynt
- mabwysiadu sefyllfa derfynol Opsiwn 3 ar unwaith heb unrhyw amser pontio.

Roedd patrymau tywydd tymhorol yn thema mewn sylwadau yn cefnogi newid hefyd. Mynegwyd mwy o gefnogaeth i wyliau hirach yn y gwanwyn a'r haf yn lle'r hydref yn ogystal â gofyn am i wyliau’r haf ddechrau yn gynharach na diwedd Gorffennaf. Roedd y pwynt olaf hwn yn gysylltiedig â'r farn bod y tywydd yn well (cynhesach, sychach, a gyda mwy o oriau golau dydd) cyn mis Awst ac y byddai Sioe Frenhinol Cymru, gyda’r trefniant hwn, yn aros yn ystod gwyliau'r haf.

Dywedodd eraill fod y gwyliau haf presennol yn rhy hir i ddysgwyr sydd ag ADY. Dywedwyd bod y dysgwyr hyn yn cael trafferth gyda'r tarfu ar eu trefn arferol ar ddiwedd tymor yr haf ac yna eto ar ddechrau'r hydref. Roedd rhai yn mynegi’r farn fod dysgwyr mwy abl a thalentog yn cael eu hanwybyddu’n aml wrth drafod effeithiau ar ddysgwyr.

Roedd yr effaith ar gostau teuluoedd yn ffactor. Gallai'r newidiadau arfaethedig i’r calendr ysgol helpu i gydbwyso costau gofal plant yn fwy cyson dros y flwyddyn gan fod gwyliau o'r ysgol yn cael eu dosbarthu'n fwy cyson. Roedd meddwl am effeithiau prisiau gwyliau teuluol yn bwysig i rai, gyda'r farn y gallai newidiadau i amserau a hyd gwyliau ysgol, ei gwneud hi'n rhatach i deuluoedd fynd ar wyliau pan nad yw tymhorau'r un fath ag yn Lloegr.

#### 2.1.15 Demograffeg

Gofynnodd cwestiwn 16 i'r ymatebwyr ddewis yr holl opsiynau sy'n berthnasol iddynt o'r dewisiadau canlynol.

- 17 oed ac yn iau
- 18 oed ac yn hŷn
- Y gweithlu addysg

- Y sector twristiaeth
- Y sector gofal plant
- Gwaith llawn amser (rhowch fanylion)
- Gwaith rhan-amser (rhowch fanylion)
- Rhiant neu ofalwr (defnyddiwyd 'rhiant' fel term llaw-fer i gynnwys mamau, tadau, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, llys-rieni, gofalwyr sy’n berthnasau, neiniau a theidiau a gwarcheidwaid)
- Arall (rhowch fanylion)

Gallai fod gorgyffwrdd rhwng yr opsiynau hyn. Mewn sawl achos defnyddiwyd Arall (rhowch fanylion) i roi manylion ychwanegol ar gyfer yr opsiynau eraill, megis faint o oriau sy'n cael eu gweithio'n rhan-amser, neu fath o sefydliad neu rôl yr ymatebydd yn y sector addysg.

**Tabl 2.1.13 Grwpiau demograffig**

| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 17 oed ac yn iau | 1009 | 6.18 |
| 18 oed ac yn hŷn | 6488 | 39.74 |
| Y gweithlu addysg | 7615 | 46.64 |
| Y sector twristiaeth | 538 | 3.29 |
| Y sector gofal plant | 705 | 4.32 |
| Gwaith llawn amser (rhowch fanylion) | 8134 | 49.82 |
| Gwaith rhan-amser (rhowch fanylion) | 2277 | 13.95 |
| Rhiant neu ofalwr | 8251 | 50.53 |
| Arall (rhowch fanylion): | 2524 | 15.46 |

Mae tablau 2.1.14 i 2.1.25 yn cynnwys siartiau sy'n amlinellu'r dadansoddiad o ymatebion i bob cwestiwn trwy ymateb demograffig. Mae'r rhai na wnaeth ateb pob cwestiwn wedi'u tynnu o'r amlinelliad hwn. Gellir gweld dadansoddiad manwl o ymatebion i bob cwestiwn yn Atodiad 4.1.


Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r sector twristiaeth yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ar bob cwestiwn ar wahân i gwestiynau 8 (wythnos canlyniadau arholiadau) a 9 (cefnogaeth i Opsiwn 1, cadw’r flwyddyn ysgol bresennol) lle’r oedd y mwyafrif yn cytuno, neu’n cytuno’n gryf law yn llaw â'r duedd gyffredinol. Mae hyn yn rhoi twristiaeth yn groes i bob grŵp ymateb arall ar gyfer cwestiynau 1 i 5 ac yn cyd-fynd â’r grŵp 17 oed ac iau yn unig ar gyfer cwestiwn 6.

Roedd pob grŵp yn cytuno yng nghwestiwn 8 gyda chytuno/cytuno'n gryf yn derbyn rhwng 60.41% (sector twristiaeth) a 72.51% (gwaith rhan-amser). Gwelwyd cysondeb llawn hefyd gyda chwestiwn 11 (cefnogaeth i Opsiwn 3) gyda'r mwyafrif neu dros hanner yn gwrthwynebu ym mhob grŵp ymateb.


Nid oedd ymatebion rhieni/gofalwyr, gweithwyr rhan-amser, ac ymatebion y sector gofal plant yn cyd-fynd â'r ymateb cyffredinol i gcwestiwn 7 (gwyliau ychwanegol ym mis Mai) ac yn cytuno/cytuno'n gryf o'i gymharu â chyfanswm yr ymatebion a oedd yn anghytuno/anghytuno'n gryf. Roedd y tri grŵp hyn hefyd yn groes i’r duedd yng nghwestiwn 9 (cynnal y flwyddyn ysgol bresennol) ac yn gwrthwynebu Opsiwn 1.

Gweithwyr rhan-amser oedd yr unig grŵp lle’r oedd mwyafrif yn cefnogi Opsiwn 2 (cwestiwn 10, pythefnos wyliau ym mis Hydref). Roedd y sector gofal plant yn unfarn â hwy gyda mwy na hanner yn cytuno/cytuno'n gryf â chwestiwn 12 (dyddiadau arfaethedig ar gyfer 2025 i 2026) o'i gymharu â grwpiau ymateb eraill a oedd yn anghytuno/anghytuno'n gryf.


**Ffigur 2.1.13 - Cwestiwn 1 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi'r ffordd rydym yn byw, yn dysgu ac yn gweithio heddiw?**





**Ffigur 2.1.14 - Cwestiwn 2 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi dysgwyr sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol?**




**Ffigur 2.1.15 – Cwestiwn 3 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)?**





**Ffigur 2.1.16 - Cwestiwn 4 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi llesiant athrawon a/neu ddysgwyr a lleihau blinder?**




**Ffigur 2.1.17 - Cwestiwn 5 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno wythnos ychwanegol o wyliau (wedi'i thynnu oddi ar wyliau'r haf) i rannu'r tymor hiraf (yr hydref?**





**Ffigur 2.1.18 - Cwestiwn 6 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chael y hyblygrwydd i ddatgysylltu (gwahanu) gwyliau'r gwanwyn â gŵyl gyhoeddus y Pasg?**




**Ffigur 2.1.19 - Cwestiwn 7 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno wythnos ychwanegol o wyliau ym mis Mai neu fis Mehefin (wedi'i thynnu oddi ar wyliau'r haf a'i hychwanegu at wyliau presennol mis Mai), er mwyn creu tymhorau cyson o ran hyd?**





**Ffigur 2.1.20 - Cwestiwn 8 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chynnal diwrnodau canlyniadau arholiadau Safon Uwch, Safon UG a TGAU yn ystod yr un wythnos?**




**Ffigur 2.1.21 – Cwestiwn 9 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 1: Cadw at y calendr ysgol presennol?**





**Ffigur 2.1.22 - Cwestiwn 10 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 2 a'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig: calendr ysgol â phythefnos o wyliau ym mis Hydref, gwyliau'r gwanwyn ar yr un pryd fwy neu lai bob blwyddyn (ni waeth pryd y bydd y Pasg yn disgyn), a 5 wythnos o wyliau dros yr haf?**



**Ffigur 2.1.23 - Cwestiwn 11 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 3: calendr ysgol â phythefnos o wyliau ym mis Hydref, gwyliau'r gwanwyn ar yr un pryd fwy neu lai bob blwyddyn (ni waeth pryd y bydd y Pasg yn disgyn), pythefnos o wyliau ym mis Mai, a 4 wythnos o wyliau dros yr haf?**




**Ffigur 2.1.24 - Cwestiwn 12 – Ar gyfer 2025 i 2026, i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dyddiadau arfaethedig a nodwyd ar gyfer y tymhorau yn Opsiwn 2 ac Opsiwn 3?**



## 2.2 Ymatebion Hawdd eu Deall

Roedd y ddogfen ymgynghori Hawdd ei Deall yn cynnwys 9 cwestiwn. Rhoddwyd opsiynau Ie / na/ ansicr ar gyfer chwech o'r cwestiynau gyda lle ar gyfer sylwadau ychwanegol. Roedd ymatebion testun agored ar gael ar gyfer 2 gwestiwn. Cynhwyswyd cwestiwn demograffig aml-ddewis hefyd. Cyflwynwyd cyfanswm o 68 o ymatebion Hawdd eu Darllen.

### 2.2.1 Cwestiwn 1 – Ydych chi'n hoffi'r calendr ysgol fel y mae nawr?

Roedd yr ymatebwyr yn rhanedig eu barn gyda 31 o blaid y calendr ysgol presennol a 28 heb fod o blaid ac 8 arall yn ansicr. Cafodd y cwestiwn hwn ei adael heb ei ateb gan un ymatebydd.

**Tabl 2.2.1 Ymatebion i Gwestiwn 1 y ddogfen Hawdd ei Deall**

| Ymateb | Nifer |
|---|---:|
| Ydw | 31 |
| Nac ydw | 28 |
| Ddim yn siŵr | 8 |
| Heb ateb | 1 |
| Cyfanswm | 68 |

Roedd y sylwadau’n gymysg gyda'r rhai a oedd yn hoffi'r calendr ysgol presennol yn nodi bod pawb wedi arfer â'r trefniadau presennol a'i fod yn gweithio i bawb. Awgrymwyd bod y gwyliau haf 6–wythnos ar yr adeg iawn fel bod dysgwyr yn yr ysgol yn ystod tywydd gwael ac allan o'r ysgol yn ystod tywydd gwell. Mae cael 6 wythnos yn rhoi amser i ddysgwyr a staff orffwyso, gan osgoi sefyllfa lle mae’r staff wedi ymlâdd yn llwyr, a digon o amser i deuluoedd gael yr hyblygrwydd i dreulio amser gwerthfawr gyda'i gilydd ac ymweld â pherthnasau pell i ffwrdd.

Dywedodd y rhai nad oeddent yn hoffi'r calendr ysgol presennol fod angen ei adolygu fel ei fod yn fwy cydnaws â bywyd mod gan ei fod yn hen ac yn perthyn i oes arall. Gellir osgoi llethu staff a dysgwyr drwy leihau hyd tymhorau, gyda thymor yr hydref yn cael ei grybwyll yn benodol fel un sy’n rhy hir ac yn gadael dysgwyr a staff wedi blino ac yn sâl. Roedd cael gwyliau haf 6-wythnos yn cael ei ystyried yn rhy hir i rieni sy'n gweithio ac sy’n gorfod trefnu gofal plant, i ddysgwyr sydd ag ADY ac i'r teuluoedd hynny sy'n dibynnu ar brydau ysgol am ddim.

Roedd y rhai a ddywedodd eu bod yn ansicr yn cydnabod bod athrawon yn mwynhau cael 6 wythnos i ffwrdd yn yr haf, ond yn dweud hefyd fod tymor yr hydref yn rhy hir. Roedd llawer o ymatebion ansicr yn nodi nad oeddent wedi meddwl am y calendr ysgol o'r blaen.

### 2.2.2 Cwestiwn 2 – Dychmygwch fod 1 wythnos o wyliau'r haf yn cael ei symud i fis Hydref er mwyn gwneud gwyliau mis Hydref yn 2 wythnos, yn lle 1 wythnos, o hyd. Byddai hyn yn golygu bod 5 wythnos o wyliau dros yr haf. Ydych chi'n hoffi'r syniad yma?

Cafwyd ymatebion cymysg i gwestiwn 2 gyda mwyafrif bach (36) o blaid, 24 heb fod o blaid ac 8 yn ansicr.

**Tabl 2.2.2 Atebion i Gwestiwn 2 y ddogfen Hawdd ei Deall**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 36 |
| Nac ydw | 24 |
| Ddim yn siŵr | 8 |
| Heb ateb | 0 |
| Cyfanswm | 68 |

Roedd sylwadau yn mynegi’r farn fod tymor yr hydref yn rhy hir, a bod angen gwyliau ychwanegol i wrthsefyll blinder a salwch. Ar y llaw arall, codwyd pryderon am risgiau y byddai gwyliau o bythefnos mor fuan ar ôl yr haf yn tarfu ar barhad dysgu ac, er y byddai'n golygu gorffwys hirach, byddai gwyliau estynedig yn yr hydref ar yr adeg anghywir o'r flwyddyn oherwydd tywydd salach diffyg gŵyl arbennig; y farn yn hytrach oedd y byddai gwyliau ym mis Mai yn ddewis gwell.

### 2.2.3 Cwestiwn 3 – Dychmygwch fod gwyliau’r gwanwyn yn digwydd tua’r un pryd bob blwyddyn. Ar hyn o bryd mae gwyliau’r gwanwyn yn symud bob blwyddyn i gyd-fynd â'r Pasg. Mae hyn yn gallu gwneud rhai tymhorau ysgol yn hir iawn neu'n fyr iawn. Ydych chi'n hoffi'r syniad o gael gwyliau’r gwanwyn tua’r un pryd bob blwyddyn?

Roedd mwyafrif (36) hefyd o blaid cael gwyliau’r gwanwyn ar adeg debyg bob blwyddyn. Roedd nifer y rhai a wrthwynebodd yn 18 ac roedd 14 arall yn ansicr.

**Tabl 2.2.3 Atebion i Gwestiwn 3 y ddogfen Hawdd ei Deall**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 36 |
| Nac ydw | 18 |
| Ddim yn siŵr | 14 |
| Heb ateb | 0 |
| Cyfanswm | 68 |

Roedd sylwadau gan y rhai oedd o blaid yn dweud y byddai hyn yn creu mwy o sefydlogrwydd, yn golygu bod hyd tymhorau yn fwy cyfartal, ac yn cynyddu hyd amserau brig i'r sector twristiaeth. Roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu naill ai’n gweld dim angen am newid, neu’n amlygu pwysigrwydd y Pasg fel gŵyl grefyddol a'r ffordd y gall rhieni sy'n gweithio ddefnyddio’r gwyliau banc i ategu gwyliau blynyddol i ddiwallu gofynion gofal plant dros wyliau'r Pasg presennol. Ni allai'r rhai a oedd yn ansicr ei weld yn cael effaith y naill ffordd neu'r llall, ond roeddent yn meddwl y gallai fod yn werth ei ystyried.

### 2.2.4 Cwestiwn 4 – Dychmygwch ein bod yn cael pythefnos o wyliau ym mis Mai neu fis Mehefin. Ar hyn o bryd 1 wythnos o wyliau sydd. Byddai hyn yn golygu bod gwyliau'r haf 1 wythnos yn fyrrach. Ydych chi'n hoffi'r syniad yma?

Roedd union hanner yr holl ymatebion (34) yn erbyn cwestiwn 4. Roedd y rhai o blaid 26 ac 8 yn ansicr.

**Tabl 2.2.4 Atebion i Gwestiwn 4 y ddogfen Hawdd ei Deall**

| Ymateb | Nifer |
|---|---:|
| Ydw | 26 |
| Nac ydw | 34 |
| Ddim yn siŵr | 8 |
| Heb ateb | 0 |
| Cyfanswm | 68 |

Roedd meddwl am fwy o sefydlogrwydd, gwell tywydd, a'r cyfle am wyliau ychwanegol a rhatach yn arwain ymatebwyr i ddweud mai'r opsiwn hwn oedd y dewis gorau ar gyfer wythnos ychwanegol o wyliau. Roedd y rhai a oedd yn erbyn y cynnig hwn yn nodi effeithiau negyddol posibl ar chwaraeon ysgol a threfniadau gwaith dysgwyr neu ar baratoi ar gyfer arholiadau yn nhymor yr haf. Roedd yn well gan lawer o'r ymatebwyr – o blith y 3 gwahanol ymateb – gael gwyliau haf cyn hired â phosibl gyda 4 wythnos (pe bai'r opsiwn hwn hefyd yn cynnwys gwyliau pythefnos yn yr hydref) yn cael ei ystyried yn rhy fyr gan rai.

### 2.2.5 Cwestiwn 5 – Ydych chi'n hoffi'r syniad o gael diwrnodau canlyniadau arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yn yr un wythnos?

Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn amlwg yn ffafrio cael diwrnodau canlyniadau arholiadau yn yr un wythnos (31 o blaid o'i gymharu ag 11 yn erbyn) y cwestiwn hwn oedd â'r nifer uchaf o ymatebion ansicr, sef 26.

**Tabl 2.2.5 Atebion i Gwestiwn 5 y ddogfen Hawdd ei Deall**

| Ymateb | Nifer |
|---|---:|
| Ydw | 31 |
| Nac ydw | 11 |
| Ddim yn siŵr | 26 |
| Heb ateb | 0 |
| Cyfanswm | 68 |

Roedd llawer yn dweud eu bod yn ansicr gan nad oedd y cwestiwn hwn yn effeithio arnyn nhw, nad oedden nhw ddim yn ei ystyried yn broblem, neu nad oedden nhw'n teimlo bod ganddyn nhw ddigon o wybodaeth i wneud sylw. Mynegwyd pryder ymhlith y tri math o ymatebwyr y byddai angen cysoni â gweddill y DU yn arbennig ar gyfer canlyniadau Safon Uwch. Er bod rhai yn gweld hyn fel rhywbeth sy’n ychwanegu mwy o bwysau ar staff, roedd eraill yn ei weld yn haws i baratoi ar ei gyfer ac yn rhoi mwy o amser i staff, dysgwyr a theuluoedd i ffwrdd o ysgolion yn ystod yr haf.

### 2.2.6 Cwestiwn 7 – Ydych chi'n meddwl y byddai newid y calendr ysgol yn effeithio ar y Gymraeg?

Credai’r mwyafrif (41) na fyddai'r cynigion yn effeithio ar y Gymraeg gydag 11 yn ateb eu bod yn credu y bydden nhw a 14 yn ansicr.

**Tabl 2.2.6 Atebion i Gwestiwn 7 y ddogfen Hawdd ei Deall**

| Ymateb | Nifer |
|---|---:|
| Ydw | 11 |
| Nac ydw | 41 |
| Ddim yn siŵr | 14 |
| Heb ateb | 2 |
| Cyfanswm | 68 |

### 2.2.7 Cwestiwn 8 – Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi, ar y Gymraeg? Sut gallen ni leihau unrhyw effeithiau gwael a chynyddu effeithiau da?

Unwaith eto, roedd y sylwadau'n gymysg gyda gwahanol ffactorau yn dylanwadu ar farn ymatebwyr. Roedd llawer o bobl nad oedd yn disgwyl unrhyw effaith oherwydd nad yw'r flwyddyn ysgol yn cael ei gweld fel un sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg, gan y byddai'r cwricwlwm a addysgir i ddysgwyr yr un fath o hyd, neu nid yw'r newidiadau yn ddigon gwahanol i achosi gwahaniaeth i'r Gymraeg.

Disgwylid effaith negyddol gan leiafrif o ymatebion gan y byddai gwyliau hirach ychwanegol (sef cynnydd mewn gwyliau pythefnos) yn tarfu mwy ar ddysgu. Y tu allan i ysgolion, dadleuwyd bod digwyddiadau diwylliannol fel Sioe Frenhinol Cymru yn hanfodol i'r Gymraeg ac y byddai unrhyw newid a fyddai'n effeithio'n negyddol ar ddigwyddiadau o'r fath yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg. Roedd eraill yn tynnu sylw at batrwm tebyg o ran sgil-effeithiau ar dwristiaeth gan fod ardaloedd sydd â lefelau uwch o siaradwyr Cymraeg yn gyrchfannau i dwristiaid.

Rhagwelid effaith gadarnhaol gan leiafrif arall o ymatebion oherwydd llai o golli dysg yn sgil gwyliau haf byrrach. Dywedwyd bod lleihau'r amser a dreulir i ffwrdd o'r ysgol ar unrhyw adeg benodol o fudd arbennig i ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref. Yn olaf, gellid gweld newid at strwythur blwyddyn ysgol gwahanol i weddill y DU fel datganiad beiddgar o hunaniaeth Gymreig a allai gryfhau'r Gymraeg.

### 2.2.8 Cwestiwn 9 – Oes unrhyw beth arall hoffech chi ei ddweud wrthon ni am eich barn am y calendr ysgol?

Roedd sylwadau ychwanegol yn ailadrodd llawer o'r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i gwestiynau cynharach. Manteisiodd rhai ar y cyfle i dynnu sylw at sut y byddai newidiadau'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr sydd ag ADY ac yn helpu i gefnogi presenoldeb i bob dysgwr. Dywedodd eraill nad yw'r newidiadau arfaethedig yn ddigon i ymdrin ag unrhyw un o'r materion perthnasol neu bod diffyg tystiolaeth y bydden nhw'n effeithiol.

Ymhlith yr ystyriaethau eraill a godwyd oedd yr effaith ar berfformiad mewn arholiadau, plant sy'n cystadlu yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, a'r effeithiau posibl y gallai newid yn yr hinsawdd eu cael ar pryd yw'r amser gorau ar gyfer gwyliau ysgol.

### 2.2.9 Cwestiwn 6 – Demograffeg

Roedd cwestiwn 6 yn cynnwys yr un opsiynau ymateb demograffig â'r arolwg ar-lein.

**Tabl 2.2.7 Ymatebion Demograffig Hawdd eu Darllen**

| Ymateb | Cyfrif |
|---|---:|
| 17 oed ac yn iau | 1 |
| 18 oed ac yn hŷn | 25 |
| Rwy'n gweithio ym myd addysg | 30 |
| Rwy'n gweithio ym maes twristiaeth | 3 |
| Rwy'n gweithio ym maes gofal plant | 5 |
| Rwy'n gweithio'n llawn amser | 35 |
| Rwy'n gweithio'n rhan-amser | 14 |
| Rwy'n rhiant neu ofalwr | 36 |
| Arall | 6 |

## 2.3 Cyfryngau Cymdeithasol

### 2.3.1 Polau X (Twitter gynt)

Postiwyd cyfanswm o 8 cwestiwn ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Addysg Llywodraeth Cymru yn Gymraeg a Saesneg fel polau X wythnosol. Roedd y rhain yn casglu ymatebion syml ie / na/ ddim yn sicr i gwestiynau allweddol o'r fersiwn Hawdd ei Deall o'r ymgynghoriad ac yn caniatáu i ymatebwyr bostio sylwadau.

### 2.3.2 Cwestiwn 1 – Oes yna newidiadau yr hoffech eu gweld yn y calendr ysgol?

Postiwyd ar 23 Tachwedd (86 pleidlais Saesneg / 14 pleidlais Gymraeg).

Roedd ymatebwyr i'r pôl cyfrwng Saesneg wedi eu rhannu bron yn gyfartal rhwng y rhai a hoffai weld newidiadau (44.2%) a'r rhai na hoffai (45.3%). Roedd y rhai a ymatebodd yn Gymraeg yn fwy o blaid, ond roedd ganddynt gyfran fwy o bleidleisiau ansicr hefyd.

**Tabl 2.3.1 Cwestiwn 1 Pôl X n = 86/14**

| | Yes / Oes % | No / Nac oes % | Not sure / Ddim yn siwr % |
|---|---|---|---|
| Saesneg | 44.2 | 45.3 | 10.5 |
| Cymraeg | 42.9 | 35.7 | 21.4 |

### 2.3.3 Cwestiwn 2 – Dychmygwch fod 1 wythnos o wyliau'r haf wedi cael ei symud i fis Hydref ...

Postiwyd ar 30 Tachwedd (858 pleidlais Saesneg / 8 pleidlais Gymraeg).

Unwaith eto, roedd ymatebwyr i'r arolwg Saesneg wedi eu rhannu bron yr un mor gyfartal rhwng y rhai a hoffai weld newidiadau (46.9%) a'r rhai na hoffai (43.8%). Roedd y rhai a ymatebodd yn Gymraeg yn fwy o blaid, ond roedd ganddynt gyfran fwy o bleidleisiau ansicr hefyd.

**Tabl 2.3.2 Cwestiwn 2 Pôl X n = 858/8**

| | Yes / Ydw % | No / Nac ydw % | Not sure / Ddim yn siwr % |
|---|---|---|---|
| Saesneg | 46.9 | 43.8 | 9.3 |
| Cymraeg | 50.0 | 12.5 | 37.5 |

Roedd sylwadau'n cynnwys y rhai nad oedd eisiau gwyliau ychwanegol yn ystod cyfnod o ddiwrnodau byrrach a thywydd oerach a'r rhai a fyddai'n croesawu mwy o amser adeg y Nadolig.

Holodd un ymatebydd a ymgynghorwyd â'r gymuned deithwyr, gan fod misoedd yr haf yn arbennig o bwysig ar gyfer ymrwymiadau gwaith.

### 2.3.4 Cwestiwn 3 – Dychmygwch fod gwyliau'r gwanwyn yn digwydd ar adeg debyg bob blwyddyn...

Postiwyd ar 7 Rhagfyr (197 pleidlais Saesneg / 22 pleidlais Gymraeg).

Roedd ymatebwyr i'r arolwg cyfrwng Saesneg yn eithaf cryf o blaid y cynnig (56.3%) a'r rhai a ymatebodd yn y Gymraeg yn fwy fyth felly (72.7%). Ychydig iawn o bleidleisiau ansicr oedd ar y cwestiwn hwn.

**Tabl 2.3.3 Cwestiwn 3 Pôl X n = 197/22**

| | Yes / Ydw % | No / Nac ydw % | Not sure / Ddim yn siwr % |
|---|---|---|---|
| Saesneg | 56.3 | 34.0 | 9.6 |
| Cymraeg | 72.7 | 22.7 | 4.5 |

Roedd sylwadau'n cynnwys rhai gan ymatebwyr a oedd yn disgrifio'u hunain yn wirfoddol fel Cristnogion yn eu hatebion, a oedd yn awyddus i gadw gwyliau o bedwar diwrnod i barchu'r ŵyl grefyddol. Fodd bynnag, roedd eraill yn croesawu'r sicrwydd o dymhorau sefydlog o ran hyd a allai ddeillio o hyn.

### 2.3.5 Cwestiwn 4 – Dychmygwch ein bod yn cael gwyliau o 2 wythnos ym mis Mai neu fis Mehefin....

Postiwyd ar 14 Rhagfyr (371 pleidlais Saesneg / 4 pleidlais Gymraeg).

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolygon barn cyfrwng Cymraeg a Saesneg o blaid y cynnig, gyda chymeradwyaeth gryfach gan yr ymatebwyr cyfrwng Cymraeg.

**Tabl 2.3.4 Cwestiwn 4 Pôl X n = 371/4**

| | Yes / Ydw % | No / Nac ydw % | Not sure / Ddim yn siwr % |
|---|---|---|---|
| Saesneg | 53.1 | 39.9 | 7.0 |
| Cymraeg | 75.0 | 25.0 | 0.0 |

Ychydig o sylwadau a gafwyd ar y cynnig hwn, er i un person fynegi pryder am yr effaith ar amseriadau arholiadau.

### 2.3.6 Cwestiwn 5 – Ydych chi'n hoffi'r syniad o gael... diwrnodau canlyniadau arholiadau yn yr un wythnos?

Postiwyd ar 21 Rhagfyr (71 pleidlais Saesneg / 9 pleidlais Gymraeg).

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolygon barn cyfrwng Cymraeg a Saesneg o blaid y cynnig.

**Tabl 2.3.5 Cwestiwn 5 Pôl X n = 71/9**

| | Yes / Ydw % | No / Nac ydw % | Not sure / Ddim yn siwr % |
|---|---|---|---|
| Saesneg | 64.8 | 22.5 | 12.7 |
| Cymraeg | 66.7 | 22.2 | 11.1 |

### 2.3.7 Cwestiwn 7 – Ydych chi'n meddwl y byddai newid y calendr ysgol yn effeithio ar y Gymraeg?

Postiwyd ar 8 Ionawr (506 pleidlais Saesneg / 8 pleidlais Gymraeg).

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg barn Saesneg yn teimlo na fyddai'r cynigion yn cael effaith ar y Gymraeg. I'r gwrthwyneb, cafwyd ymatebion cymysg ymhlith ymatebwyr cyfrwng Cymraeg a theimlai niferoedd cyfartal y byddai'r cynigion yn cael effaith neu roeddent yn ansicr gyda llai yn dweud na fyddai dim effaith.

**Tabl 2.3.5 Cwestiwn 7 Pôl X n = 506/8**

| | Yes / Ydw % | No / Nac ydw % | Not sure / Ddim yn siwr % |
|---|---|---|---|
| Saesneg | 7.3 | 85.8 | 6.9 |
| Cymreig | 37.5 | 25.0 | 37.5 |

### 2.3.8 Gweithgarwch arall ar X (Twitter gynt) a Facebook

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyrch ar X a Facebook drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Cafodd y postiadau eu cyhoeddi drwy amrywiaeth o gyfrifon gan gynnwys @WG_Education, @edubeginsathome, @Addysg_Cymraeg, @HwbAddysg_Cymru, @LIC_Addysg a @dechraucartref.

Cafodd gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol ei fonitro yn ystod yr ymgyrch. Am y cyfnod rhwng 7 Rhagfyr 2023 ac 8 Ionawr 2024, cyflwynwyd cyfanswm o 128 o bostiadau gan gynnwys 230 o ddefnyddwyr a chyflawni 570,361 o argraffiadau posibl.

**Tabl 2.3.6 Gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol**

| Wythnos | Saesneg | | | Cymraeg | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfans wm | Cysylltiadau | Argraffiadau posib | Cyfans wm | Cysylltiadau | Argraffiadau posib |
| 7/13 Rhagfyr | 24 | 52 | 114,698 | 7 | 12 | 27,184 |
| 14–20fed Rhag | 11 | 56 | 76,810 | 5 | 0 | 4,670 |
| 21ain Rhagfyr – 8fed Ionawr | 65 | 104 | 325,753 | 16 | 6 | 21,246 |
| Cyfansw m | 100 | 212 | 517261 | 28 | 18 | 53100 |

Roedd gweithgarwch allanol sylweddol ar X, gydag un postiad gan aelod o'r gweithlu addysg yn denu 225,300 o edrychwyr a 326 o sylwadau.

**Ffigwr 2.3.1 – Postiad ar X (Twitter gynt)**




### 2.3.9 Gweithgarwch Gwefan

Yn ôl Google Analytics, denodd tudalen we yr ymgynghoriad 7,164 o argraffiadau a 2,593 o gliciau yn ystod 10 wythnos gyntaf yr ymgynghoriad. Cafwyd y lefel uchaf o gliciau ar gyfer yr ymadroddion "dyddiadau tymor", "blwyddyn ysgol Cymru" a "gwyliau ysgol."[13]

### 2.3.10 Cyfryngau

Mae adroddiadau'r cyfryngau yn dangos bod lansiad yr ymgynghoriad wedi cynhyrchu o leiaf 80 darn o sylw i'r wasg – yn lleol ac yn genedlaethol, gan gynnwys CBBC Newsround, The Sun, Mail Online, The Guardian a'r Telegraph. Roedd sylw hefyd mewn yn y wasg fasnachol a'r wasg leol, gyda ffigur cyfanswm cyfleoedd i weld (OTS) o bron i 45m.

Roedd y sylw a gafwyd yn wybodus ac yn gytbwys yn ystod y cyfnod lansio. Yn ystod hanner olaf y cyfnod ymgynghori bu newid pwyslais - yn ymwneud i raddau helaeth â'r effaith bosib ar Sioe Frenhinol Cymru ac agwedd yr undebau amaethyddol.

[13] Strwythur yr ymgynghoriad ar y flwyddyn ysgol LLYW.CYMRU

## 2.4 Grwpiau Ffocws

### 2.4.1 Diwygio’r Calendr Ysgol – pythefnos o wyliau hanner tymor yn yr hydref a phum wythnos o wyliau yn yr haf

Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda dysgwyr, gweithwyr proffesiynol addysgu, rhieni/gofalwyr, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion, gweithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar a chynrychiolwyr blynyddoedd cynnar, y sector gofal plant a chwarae, sefydliadau lletygarwch a thwristiaeth ac undebau'r gweithlu addysg. Un o'r gwelliannau arfaethedig i'r flwyddyn ysgol a drafodwyd gyntaf yn y 25 grŵp ffocws oedd Opsiwn 2, sy'n cynnwys ychwanegu wythnos at wyliau hanner tymor yr Hydref a lleihad cysylltiedig o wythnos yng ngwyliau'r haf.

Roedd ymatebwyr yn nodi’r effeithiau cadarnhaol posibl ar les dysgwyr drwy gydol y flwyddyn gyda gwyliau hanner tymor hirach yn yr Hydref yn cael ei weld fel rhywbeth a fyddai â'r potensial i leihau blinder dysgwyr, problemau ymddygiad a phroblemau presenoldeb dros y tymor hiraf, a mwyaf dwys yn y flwyddyn ysgol. Er nad oedd disgwyl i'r effaith gadarnhaol hon fod yn berthnasol i bob dysgwr, mynegwyd pryderon penodol y byddai gwyliau hirach yn yr hydref yn tarfu mwy ar drefn y dysgu yn nhymor yr Hydref i rai dysgwyr iau, dysgwyr ag ADY a dysgwyr mewn blynyddoedd pontio. Nid oedd y dysgwyr eu hunain o blaid ymestyn gwyliau hanner tymor yr hydref oherwydd y farn y byddai tywydd salach ac oriau golau dydd byrrach o gymharu â gwyliau'r haf yn cyfyngu ar eu gallu i gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Roedd yr effaith ganfyddedig y byddai'r newid hwn yn ei chael ar lesiant y gweithlu addysg yn fwy cymysg. Roedd cydnabyddiaeth bod tymor hir yr hydref hefyd yn cael effaith negyddol ar flinder a llesiant athrawon a staff cymorth. Fodd bynnag, y teimlad oedd na fyddai'r budd o wythnos ychwanegol yn ystod gwyliau hanner tymor yr Hydref yn werth yr aberth o gael wythnos yn llai yn ystod gwyliau'r haf. Roedd ymatebwyr yn y gweithlu addysg yn gweld yr haf fel un o'r ychydig achlysuron pan allai athrawon gael seibiant 'go-iawn'. Dywedodd yr ymatebwyr fod y rhan fwyaf o athrawon yn gweithio yn ystod eu gwyliau i helpu i reoli eu llwyth gwaith a pharatoi ar gyfer y tymor newydd, llwyth gwaith na ellid ei symud i amser gwahanol o'r flwyddyn. Hefyd, roedd cydnabyddiaeth fod llawer o athrawon a staff cymorth hefyd yn rhieni ac y byddai'n rhaid iddynt reoli cyfrifoldebau gofal plant dros gyfnod hirach gwyliau’r hydref gyda'r potensial o lai o ddewisiadau gofal plant neu adloniant yn dibynnu ar amgylchiadau teuluol unigol, law yn llaw â'r llwyth gwaith hwn a fyddai'n effeithio ar lesiant a lefelau blinder staff.

Roedd ymestyn gwyliau hanner tymor yr hydref yn cael ei weld i raddau helaeth gan y gweithlu addysg fel rhywbeth a fyddai’n cael effaith negyddol ar gyflwyno'r cwricwlwm. Y farn oedd nad oedd wythnos ychwanegol o addysgu a dysgu yn yr haf i’w chymharu ag wythnos o addysgu a dysgu a gollwyd yn yr hydref o ran cyflwyno cynnwys y cwricwlwm, yn enwedig i fyfyrwyr TGAU a Safon Uwch na fyddent yn elwa o wythnos ychwanegol tymor yr haf ar ôl cwblhau eu harholiadau a'u hasesiadau eisoes. Roedd disgwyl i'r effaith hon ar gyflwyno’r cwricwlwm gael effeithiau negyddol hefyd ar safonau addysg yn ehangach, yn enwedig i ddysgwyr sy'n cael asesiadau nad ydynt yn arholiadau ac a gaiff eu cyflwyno'n bennaf yn ystod tymor yr hydref.

Mynegodd rhieni farn gymysg ar y newidiadau arfaethedig i wyliau'r hydref a'r haf; roedd ymatebion yn amrywiol iawn ac yn dibynnu ar amgylchiadau teuluoedd unigol. Roedd rhieni a oedd yn ddibynnol ar ofal plant y telir amdano yn teimlo y gallai fod yn anoddach sicrhau gofal plant am gyfnod byrrach (sef mewn gwyliau hanner tymor estynedig yn yr hydref o'i gymharu â’r gwyliau haf presennol); fodd bynnag, gallai teuluoedd eraill elwa o bosibl drwy allu gwasgaru costau gofal plant yn fwy cyfartal drwy gydol y flwyddyn. Ar wahân i ofal plant, roedd costau ychwanegol yn gysylltiedig ag wythnos ychwanegol yn ystod gwyliau

hanner tymor yr hydref o'i gymharu ag wythnos yn ystod gwyliau'r haf oherwydd y gost uwch sy'n gysylltiedig â gwresogi, bwydo ac adloniant yn ystod rhan oerach o'r flwyddyn lle mae llai o gyfleoedd ar hyn o bryd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored isel o ran cost, yn enwedig yn absenoldeb darpariaeth gofal plant gwyliau yn y gwyliau hanner tymor hirach yn yr hydref. Roedd rhieni ac addysgwyr yn cydnabod yr effaith anghymesur y byddai hyn yn ei chael ar rieni incwm isel, gan gynnwys staff cymorth addysgu sy'n rhieni, gan negyddu buddion y gwyliau estynedig i'r staff addysg hyn.

Mynegodd ymatebwyr o'r sector gwaith ieuenctid rai pryderon ynghylch ymestyn gwyliau hanner tymor yr hydref gan dynnu sylw at y ffaith nad yw'r galw am gymorth dros y gwyliau yn diflannu yn ystod yr hydref ac y gallai hyd yn oed gynyddu i rai teuluoedd incwm isel sy'n ei chael yn anodd gyda'r costau ychwanegol a amlinellir uchod. O'r herwydd, codwyd cwestiynau gan yr ymatebwyr hyn ynghylch a fyddai darpariaeth gwyliau yn cael ei chyflwyno yn ystod y gwyliau estynedig hyn ac a fyddai'n cael ei hariannu ar sail debyg i ddarpariaeth yr wythnos o wyliau'r haf a gollid. Er y rhagwelwyd mwy o anawsterau logistaidd sy'n gysylltiedig â darpariaeth gwyliau yn ystod gwyliau hanner tymor estynedig yr hydref (o ran sicrhau cyfleusterau dan do), y teimlad oedd y gellid gwneud y ddarpariaeth yn fwy hyblyg i ddiwallu anghenion teuluoedd a dysgwyr, cyn belled â bod yr arian ar gael ar gyfer y gweithgareddau hyn.

Roedd ymatebwyr o atyniadau a digwyddiadau twristaidd yn gryf yn erbyn byrhau gwyliau'r haf, sydd ar hyn o bryd yn digwydd yn y 'tymor brig', ac ymestyn gwyliau hanner tymor yr hydref sy’n digwydd ar adeg tawelach. Roedd disgwyl i hyn gael effaith negyddol sylweddol ar y sector, yn enwedig ar atyniadau a digwyddiadau twristaidd bach, tymhorol ac awyr agored. Roedd cytundeb helaeth na fyddai wythnos ychwanegol yn hanner tymor yr hydref yn cymharu â’r wythnos a gollwyd o wyliau'r haf, hyd yn oed ar gyfer atyniadau mwy, dan do, o ran nifer yr ymwelwyr a gwariant y pen, gan fod rhieni'n aml yn cynilo ar gyfer y Nadolig yn ystod yr hydref. Y teimlad oedd y byddai hyn yn cael effaith niweidiol iawn ar faint yr elw ac felly ar gynaliadwyedd ariannol nifer o fusnesau yn y sector, a fyddai'n cael sgil-effeithiau ar hyfywedd economïau gwledig a’r cyfleoedd gwaith a hyfforddiant lleol a fyddai ar gael i bobl ifanc. Yn ogystal, y teimlad oedd na ellid symud digwyddiadau â hanes cryf, fel Sioe Frenhinol Cymru a byddai rhieni, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn debygol o fynd â'u plant allan o'r ysgol i’w mynychu gan effeithio'n negyddol ar bresenoldeb a dysgu. Y teimlad oedd y byddai'n rhaid i ddigwyddiadau llai a gynhaliwyd yn hanesyddol ar ddyddiad penodol yn yr haf ddygymod â phresenoldeb is neu gael eu canslo oherwydd y gystadleuaeth gynyddol am sylw mewn gwyliau haf byrrach.

### 2.4.2 Diwygio’r Calendr Ysgol – Datgysylltu’r Past

Roedd y syniad o ddatgysylltu'r Pasg oddi wrth dymor y gwanwyn yn cael ei groesawu’n gyffredinol, heb ddim ond un neu ddau o fân bryderon ynghylch presenoldeb a chyfleu’r newid i rieni a dysgwyr.

Roedd y manteision sy'n gysylltiedig â Pasg wedi ei ddatgysylltu yn cynnwys mwy o gysondeb wrth drefnu tymor y gwanwyn, a allai ei gwneud yn haws cynllunio ar gyfer ysgolion a gweithwyr ieuenctid. Fodd bynnag, roedd nifer fach o athrawon a nododd fod athrawon eisoes wedi arfer cynllunio o amgylch tymor y Pasg fel y mae'n gweithredu ar hyn o bryd ac felly ni fyddent yn gweld budd o angenrheidrwydd.

Roedd gan rieni a dysgwyr farn gymysg ynghylch datgysylltu'r Pasg oddi wrth wyliau'r gwanwyn ar yr achlysur pan na fyddent yn cyd-ddigwydd. Roedd rhai yn croesawu'r ddau ddiwrnod ychwanegol o ŵyl banc yn yr achosion hynny (sef pan fydd Dydd Gwener y Groglith a Dydd Llun y Pasg yn disgyn yn ystod y tymor); fodd bynnag, roedd un neu ddau o rieni yn poeni am golli dau ddiwrnod dysgu, yn enwedig yn y cyfnod cyn arholiadau ar gyfer dysgwyr hŷn. Yn ogystal, mynegwyd pryder gan un rhiant y byddai rhieni'n dal i fynd â phlant o'r ysgol yn ystod gwyliau traddodiadol y Pasg mewn achosion lle nad oedd yn cyd-

ddigwydd â gwyliau'r gwanwyn, er mwyn cydamseru â gwyliau'r banc, y byddent yn eu cael yn rhydd o’r gwaith.

Roedd atyniadau twristaidd yn croesawu’n gyffredinol y syniad o ddatgysylltu’r Pasg oddi wrth wyliau'r Gwanwyn. Mewn achosion lle nad oedd y naill a’r llall yn cydamseru, byddai'r atyniadau'n croesawu dau ddiwrnod ychwanegol o fasnach.

Cafwyd barn gymysg gan athrawon a llywodraethwyr ysgolion Eglwys ynghylch datgysylltu'r Pasg. Croesawyd y cyfle i ddathlu'r cyfnod cyn y Pasg o fewn ysgolion; fodd bynnag, roedd rhai pryderon y byddai'r newid hwn yn effeithio'n negyddol ar allu teuluoedd yn ardaloedd y ffin i dreulio amser gyda'i gilydd. Roedd un llywodraethwr ysgol Eglwys yn pryderu y gallai'r newid hwn arwain at i’r Pasg golli ei statws gwarchodedig fel gŵyl banc ac roedd am weld hynny’n cael ei gyfleu’n glir.

Roedd mân bryder y byddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar gyflogwyr, yn enwedig mewn ysgolion a lleoliadau, a fyddai angen adolygu eu contractau a chyfrifo lwfans gwyliau yng ngoleuni'r newidiadau i swyddi fel goruchwylwyr amser cinio.

Yn olaf, roedd teimlad helaeth y byddai angen i unrhyw newidiadau a wneir gael yn glir i rieni a dysgwyr er mwyn osgoi unrhyw ddryswch ynghylch yr hyn y byddai'n ei olygu i’r gwyliau'r banc, yn enwedig gan fod rhai rhanddeiliaid nad ydynt yn cytuno â'r sail resymegol dros y cynnig hwn nac yn ei weld yn effeithio'n gadarnhaol ar ganlyniadau dysgu.

### 2.4.3 Diwygio’r Calendr Ysgol – pythefnos o wyliau hanner tymor ym mis Mai / mis Mehefin a phedair wythnos o wyliau yn yr haf

Roedd y rhan fwyaf o'r drafodaeth ynghylch ymestyn hanner tymor Mai/Mehefin yn canolbwyntio ar sut y byddai hyn yn effeithio ar ddysgwyr sy'n sefyll arholiadau.

Roedd rhai dysgwyr o blaid yr opsiwn hwn, gan ei ystyried fel newid a fyddai’n rhoi amser ychwanegol iddynt adolygu a pharatoi ar gyfer arholiadau gartref.

Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid (staff ysgolion, y sector addysg ehangach a rhai dysgwyr) yn teimlo y byddai'r gwyliau hyn yn cael effaith negyddol ar arholiadau trwy golli amser dysgu a llai o amser yn yr ysgol gydag athrawon i'w helpu i baratoi. Roedd pryder y byddai hyn yn effeithio'n anghymesur ar fyfyrwyr difreintiedig a'r rhai ag ADY, nad ydynt bob amser yn gallu astudio y tu allan i'r ysgol.

Roedd rhai dysgwyr yn poeni y byddai hyn yn gwneud iddynt anghofio mwy o ddeunydd cwrs ac yn eu tynnu allan o'r drefn ddysgu yn agos iawn i arholiadau. Roedd dysgwyr eraill yn teimlo’n syml nad oedd angen y gwyliau hyn mor agos i wyliau hir yr haf.

Pwysleisiai staff y byddai disgwyl i athrawon gefnogi dysgwyr drwy gydol y gwyliau estynedig gyda sesiynau adolygu ac y byddai hyn yn arwain at ddrwgdeimlad ymhlith y gweithlu, gan arwain o bosibl at fwy o deimlad o ymlâdd a chael eu llethu gan waith.

Roedd ychwanegu wythnos arall o wyliau i gyfnod arholiadau hefyd yn cael ei weld fel her logistaidd.

Ar wahân i arholiadau, roedd y tywydd cynhesach yn cael ei ystyried fel rhywbeth cadarnhaol yn bennaf gyda rhieni a dysgwyr, gyda rhai yn dweud y byddai’n well ganddynt bythefnos o wyliau yng nghanol tymor yr haf nag nag ym mis Hydref oherwydd na fyddai'n rhaid i rieni dalu biliau gwresogi uwch (fel y byddent yn ystod pythefnos o wyliau ym mis Hydref).

Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch yr effaith y byddai gwyliau hanner tymor hirach yn ei chael ar brisiau gwyliau, gyda'r syniad y gallai'r gwyliau hyn gynnig mwy o gyfle i rieni archebu gwyliau rhatach ac felly leihau pwysau ariannol dros yr haf.

Fodd bynnag, roedd y canlyniadau ar brisiau gwyliau yn ansicr. Mynegwyd pryderon y gallai'r gwyliau hyn effeithio ar bresenoldeb ysgol (gyda gwyliau teuluol yn aml yn ymestyn cyn/ar ôl pythefnos o wyliau).

Roedd y rhai a oedd o blaid gwyliau haf o bedair wythnos yn cyfeirio at yr heriau a wynebir ar hyn o bryd yn ystod gwyliau'r haf, gan gynnwys pryderon am ddiogelu (gydag uchafbwynt mewn atgyfeiriadau cyn gwyliau haf), darpariaeth gofal plant cyfyngedig mewn ardaloedd gwledig, dim digon o gefnogaeth i ddysgwyr ag ADY dros yr haf, a chyfnodau hir o dorri ar drefn arferol.

Roedd rhai hefyd yn teimlo y byddai gwyliau haf pedair wythnos yn gwneud gofal plant yn haws drwy leihau'r amser y mae teuluoedd yn dibynnu ar ddarparwyr neu deulu estynedig, ac y byddai o gymorth i ofalwyr ifanc.

Roedd llawer yn gwrthwynebu gwyliau haf pedair wythnos. Roedd athrawon yn benodol yn teimlo bod gwyliau haf pedair wythnos yn rhy fyr i ymlacio'n llawn, yn enwedig i staff ysgolion sy'n gorfod gweithio yn yr haf (gan gynnwys yn ystod wythnos y canlyniadau ac i baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd).

Y farn oedd y byddai gweithredu gwyliau o bedair wythnos yn her ychwanegol i ysgolion. Nodwyd bod angen gwneud unrhyw waith cynnal a chadw neu adeiladu yn yr haf, ac y gallai'r galw cywasgedig am adeiladu a chynnal a chadw fod yn anodd mewn haf byrrach.

Roedd teimlad y byddai llai o gyfle i ddysgwyr hŷn, staff cymorth ysgolion, a theuluoedd sicrhau gwaith cyflogedig ychwanegol dros yr haf i ddiwallu anghenion ariannol. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn cyrchfannau twristiaeth lle mae cyflogaeth dymhorol yn gyffredin.

O ran twristiaeth yn ehangach, roedd staff atyniadau a digwyddiadau twristiaid yn teimlo'n arbennig o negyddol am y posibilrwydd o wyliau haf byrrach, pedair wythnos, gan fod hyn yn cael ei weld fel colli pythefnos o "dymor brig" ar gyfer digwyddiadau a theithio, gyda phryder arbennig am Sioe Frenhinol Cymru. Gallai gwyliau haf byrrach hefyd effeithio'n negyddol ar fusnesau amaeth a thwristiaeth teuluol.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder hefyd ynghylch rheoli staffio darpariaeth gwyliau ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, sy'n dibynnu ar weithlu tymhorol prifysgolion ac y mae'n anoddach cael cyllid ar gyfer gwyliau byrrach.

### 2.4.4 Diwygio’r Calendr Ysgol – dyddiau canlyniadau TGAU a Safon UG / Safon Uwch

Awgrymwyd y gallai un wythnos ganlyniadau roi mwy o seibiant i staff ysgolion uwchradd drwy atal yr angen i ddod i'r ysgol dros gyfnod o bythefnos yn ystod yr haf. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn hanfodol i rai rhanddeiliaid pe bai'r haf yn cael ei fyrhau. Roedd rhai yn dweud bod hyn wedi gweithio'n dda yn ystod Covid–19.

Yn ogystal, roedd rhai dysgwyr yn teimlo y byddai hyn yn lleihau straen cyffredinol ac y byddai'n gyfleus i deuluoedd â phlant sy'n sefyll arholiadau TGAU a Safon UG/Safon Uwch.

Ar y llaw arall, byddai hyn yn cywasgu’r llwyth gwaith a wneir ar hyn o bryd dros bythefnos (gan gynnwys paratoi, etc) i mewn i un wythnos ar gyfer arweinwyr ysgolion, yn enwedig. Roedd pryder y byddai'n anodd gofyn i athrawon, cynorthwywyr addysgu, arweinwyr a staff bugeiliol gefnogi'r wythnos ganlyniadau (sydd eisoes ar sail wirfoddol). Roedd rhai yn teimlo bod hyn yn gofyn gormod gan staff ysgol; roedd un rhanddeiliad yn teimlo y byddai hyn yn peri gofid i'r gofyniad statudol am wyliau i staff. Gall hyn olygu nad yw pob dysgwr yn cael digon o sylw a chefnogaeth, gyda myfyrwyr TGAU o bosibl yn cael eu dadflaenoriaethu.

Yn olaf, roedd pryder ynghylch sut y byddai hyn yn effeithio ar ddysgwyr, o ystyried diffyg cysondeb â Lloegr, ac a ellid cyflawni hyn o safbwynt marcio arholiadau, gan y nodwyd y byddai hyn yn gofyn am brosesu 300,000 o gymwysterau ychwanegol wythnos ynghynt.

Roedd galwadau gan sawl grŵp am gyhoeddi canlyniadau yn lle hynny cyn i ddysgwyr adael am wyliau'r haf.

### 2.4.5 Cefnogaeth i Opsiwn 1

Roedd y gefnogaeth i Opsiwn 1 mewn ysgolion yn gymysg, gyda rhai yn teimlo nad oedd y calendr wedi'i gynllunio'n fwriadol ac eraill yn teimlo bod gormod o newid yn digwydd yn y proffesiwn, ac y byddai unrhyw ddiwygiadau i'r flwyddyn ysgol yn cael effaith negyddol bellach ar yr hyn a ddisgrifiwyd ganddynt fel argyfwng recriwtio a chadw.

Roedd pawb o’r rhanddeiliaid ysgolion yn cydnabod fod problemau gyda strwythur presennol y flwyddyn ysgol, ond roedd rhai yn teimlo y dylid canolbwyntio diwygiadau ar sut i gefnogi dysgwyr yn well pan nad ydynt yn yr ysgol yn hytrach na chymhlethu pethau rhwng y sectorau addysg a gofal plant. Mae safbwyntiau sy'n eu cysylltu yn esgeuluso gwahanol heriau a blaenoriaethau'r sectorau.

Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod tymor hirach yr hydref yn ddefnyddiol i ysgolion uwchradd gynnal cyfnod hirach o ddysgu parhaus, tra bod eraill yn teimlo bod y tymor yn rhy hir a bod angen cywiro hyn.

Roedd dysgwyr yn fodlon ar yr opsiwn hwn i raddau helaeth gan eu bod yn "gyfarwydd â hyn," fodd bynnag pwysleisiai rhai fod gwyliau'r haf yn teimlo'n rhy hir.

Roedd rhanddeiliaid awdurdodau lleol ymhlith y rhai a oedd yn cadarnhau heriau'r drefn bresennol i ddysgwyr sy’n derbyn prydau ysgol am ddim o ran diogelu, cyflawniad academaidd, a phlant sy’n ymddwyn yn heriol neu sy'n ofalwyr ifanc eu hunain.

Roedd rhieni'n arbennig o bryderus am hyd y gwyliau haf chwe wythnos presennol, gan nodi anawsterau rheoli eu gwyliau blynyddol o’u gwaith wrth ofalu am blant a'u difyrru, a theimlai rhai fod llesiant plant yn dirywio dros yr haf hir hyd yn oed os ydyn nhw'n mwynhau bod gartref. Ar y llaw arall, mae rhieni sydd â mwy o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion gofal plant yn mwynhau gwyliau'r haf hir ac yn cefnogi'r opsiwn hwn.

### 2.4.6 Cefnogaeth i Opsiwn 2 (pythefnos o wyliau ym mis Hydref)

Roedd rhywfaint o gefnogaeth ymhlith dysgwyr i Opsiwn 2, fodd bynnag, roedd gan rai dysgwyr bryderon am ddiwrnodau byrrach a thywydd oerach yn yr hydref o gymharu ag yn ystod gwyliau'r haf.

Roedd rhieni yn gyffredinol o blaid newid, wedi'u rhannu'n bennaf rhwng Opsiwn 2 a 3. Roedd rhieni yn croesawu llai o bwysau i ddiddanu plant dros wyliau hir yn yr haf ac i ddefnyddio gwyliau blynyddol, yn enwedig lle roedd opsiynau gofal plant yn ystod gwyliau'r haf yn gyfyngedig. Roedd rhieni, sydd â mwy o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion gofal plant, yn ffafrio gwyliau hirach. Hefyd, roedd rhieni yn gyffredinol yn disgwyl effeithiau cadarnhaol ar lesiant dysgwyr o gael gwyliau byrrach yn yr haf yn enwedig dysgwyr ADY/gwledig/difreintiedig.

Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr ysgolion yn gwrthwynebu unrhyw newid gyda Opsiwn 1 yn cael ei ffafrio. Er eu bod yn cydymdeimlo â’r heriau i rieni a dysgwyr difreintiedig sy’n ymwneud â gwyliau hir yr haf, roedd amheuaeth ynghylch effaith bosibl y cynigion ar golli amser dysgu ac ar lesiant dysgwyr. Roedd pryderon ynghylch goblygiadau newidiadau blwyddyn ysgol ar gyflwyno’r cwricwlwm yn sgil mwy o darfu ar dymor yr hydref. Roedd hyn yn cael ei weld fel symud heriau i adeg wahanol o'r flwyddyn yn hytrach na'u lleihau yn gyffredinol. Mae mynediad at ddarpariaeth gwyliau digonol yn ystod gwyliau'r haf yn cael ei ystyried fel mwy o flaenoriaeth na newid strwythur y flwyddyn ysgol. Nodwyd hefyd bod llawer o athrawon a staff cymorth yn gweithio drwy gyfnodau o wyliau a bod angen i lawer reoli cyfrifoldebau gofal plant hefyd. Mae'r gwyliau chwe wythnos yn cael ei weld fel yr unig

gyfle i gael seibiant 'gwirioneddol'. Roedd pryder hefyd am yr effaith y gallai'r newidiadau hyn ei chael ar recriwtio a chadw, sydd eisoes yn cael ei ystyried yn broblem fawr i ysgolion.

Roedd gweithwyr ieuenctid o blaid Opsiwn 2 yn bennaf, ac er bod rhai heriau yn ymwneud â sicrhau cyfleusterau dan do priodol yn ystod gwyliau'r hydref, roeddent hefyd yn amlygu y gallai'r ddarpariaeth fod yn hyblyg i newidiadau yn y flwyddyn ysgol gyhyd â bod cyllid ar gael.

Roedd llywodraethwyr o blaid Opsiwn 2 yn bennaf oherwydd er bod Opsiwn 3 yn cael ei ystyried yn naid rhy fawr, byddai rhywfaint o newid yn cael ei groesawu i helpu ysgolion i gynllunio. Roedd rhywfaint o bryder ynghylch a fyddai darpariaeth gwyliau ar gael yn yr hydref a'r anghysondeb parhaus rhwng faint o wyliau blynyddol sydd ar gael i rieni sy'n gweithio a hyd gwyliau'r ysgol yn gyffredinol.

Byddai undebau addysg yn gwrthwynebu unrhyw newid i'r flwyddyn ysgol bresennol, gan fynegi’r farn na fyddai hyn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol amlwg ar ganlyniadau dysgwyr. Roeddent hefyd yn teimlo y byddai unrhyw newid, mewn nifer o achosion, yn debygol o waethygu canlyniadau ar sail y dystiolaeth sydd ar gael. Nid oedd cyflwyno wythnos ychwanegol at wythnos hanner tymor mis Hydref yn cael ei ystyried yn gyfwerth nac yn rhywbeth y gellid ei gyfenwid â thymor yr haf, o ystyried y pwyslais ar gyflwyno'r cwricwlwm ac asesiadau nad ydynt yn arholiadau yn nhymor yr hydref. Roedd disgwyl hefyd y byddai unrhyw newidiadau i'r flwyddyn ysgol yn cael effaith negyddol ar recriwtio a chadw staff.

Byddai staff atyniadau a digwyddiadau i dwristiaid yn croesawu datgysylltu'r Pasg ond fel arall yn gwrthwynebu Opsiwn 2 yn gryf. Y disgwyl oedd y byddai disodli wythnos o fasnachu yn ystod y tymor brig ag wythnos o fasnachu mewn cyfnod tawelach yn cael effaith fawr ar lefelau a gwariant ymwelwyr yn ogystal â hyfywedd economaidd ehangach atyniadau twristaidd Cymru. Roedd teimlad mai’r rhai a fyddai’n cael eu taro galetaf oedd atyniadau awyr agored, tymhorol a llai yn ogystal â digwyddiadau na ellir eu haildrefnu i adeg arall o'r flwyddyn.

### 2.4.7 Cefnogaeth i Opsiwn 3

O safbwynt gwaith ieuenctid, y prif bryder gydag Opsiwn 3 yw a fyddai haf byrrach yn arwain at ostyngiad mewn cyllid ar gyfer gweithgareddau gwyliau haf eraill na fyddai'n cael ei ddigolledu ar gyfer rhannau eraill o'r flwyddyn. Cyn belled â bod cyllid ar gyfer gweithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol yn cael ei gynnal yn ystod gwyliau estynedig arfaethedig hanner tymor mis Hydref a mis Mai/Mehefin ar sail debyg-at-ei-debyg i’r hyn sydd ar gael ar gyfer darpariaeth gwyliau'r haf, roedd cefnogaeth gyffredinol i Opsiwn 3.

Roedd rhanddeiliaid blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn teimlo mai’r opsiwn hwn fyddai’n rhoi'r hyblygrwydd mwyaf i rieni i wasgaru cost gofal plant drwy gydol y flwyddyn ond roeddent yn ansicr a fyddai cynorthwywyr addysgu ysgolion yn dal i allu cefnogi darpariaeth Blynyddoedd Cynnar trwy wyliau haf byrrach.

Roedd rhanddeiliaid awdurdodau lleol yn ffafrio'r opsiwn hwn i raddau helaeth.

Roedd undebau addysg yn gwrthwynebu'r opsiwn hwn, gan bwysleisio'r angen i sicrhau bod pob cytundeb contract (e.e. Llyfr Bwrgwyn[14]) yn cael eu parchu.

Er bod staff ysgolion yn deall yr awydd i gael tymhorau tebyg o ran hyd, pwysleisiwyd nad yw wythnos yn nhymor yr haf yn gyfwerth ag wythnos yn nhymor yr hydref, ac mai'r opsiwn

[14] Mae'r Llyfr Bwrgwyn yn gytundeb cenedlaethol (Cymru a Lloegr) rhwng y pum undeb athrawon a'r cyflogwyr cenedlaethol (NEOST). Mae ei brif ddarpariaethau'n ymwneud â chyfnodau rhybudd, absenoldeb salwch a chyflog, ac absenoldeb a thâl mamolaeth.

hwn yw'r cam mwyaf anhysbys ei ganlyniadau, felly byddai'n cymryd amser i ddod i arfer ag ef, a byddai angen cyfathrebu clir â rhieni a dysgwyr.

Roedd pryder penodol am effeithiau Opsiwn 3 ar gymunedau ar y ffin. Mae ysgolion arbennig, er enghraifft, yn cystadlu am staff ag ysbytai ac ysgolion eraill, ac yn poeni y byddent yn colli eu staff i swyddi yn Lloegr gyda'r diwygiad hwn.

### 2.4.8 Effeithiau ar y Gymraeg

Roedd barn gymysg ynghylch a fyddai haf byrrach yn cael effaith ar golli Cymraeg a ddysgwyd. Roedd rhai'n cytuno bod gwyliau haf chwe wythnos yn rhy hir ac yn arwain at golli rhywfaint o Gymraeg yn enwedig i ddysgwyr mewn teuluoedd Saesneg eu hiaith ac y byddai haf byrrach yn lliniaru'r effeithiau hyn.

Awgrymai rhanddeiliaid eraill fod colli sgiliau Cymraeg a gaffaelwyd wedi bod yn broblem bob amser ac na fyddai'r cynigion yn lleihau hyn. Roeddent o'r farn y bydd dysgwyr yn dal i ddysgu Cymraeg pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol ac y bydd y rhai sy'n poeni am eu sgiliau yn ymarfer yr iaith y tu allan i'r ysgol er mwyn lleihau colli’r hyn a ddysgwyd.

Roedd pryderon hefyd y gallai'r cynigion effeithio ar recriwtio athrawon a staff cymorth Cymraeg, sydd eisoes yn cael ei ystyried yn broblem fawr wrth ddarparu'r Gymraeg mewn ysgolion.

Roedd pryderon hefyd am effeithiau’r cynigion ar y Gymraeg yn sgil presenoldeb yn Sioe Frenhinol Cymru a’r Eisteddfod Genedlaethol gyda phlant naill ai'n absennol o'r ysgol neu'n colli cyfle i brofi digwyddiadau diwylliannol Cymraeg pwysig, a chystadleuaeth am amser teuluoedd mewn gwyliau haf byrrach.[15]

Awgrymwyd cyfleoedd i liniaru effeithiau niweidiol drwy annog gweithgarwch yn ymwneud â’r Gymraeg yn ystod gwyliau megis trwy waith cartref Cymraeg, gwersi Cymraeg neu ymweld â lleoedd lle siaredir y Gymraeg ac y dylid ymestyn y cyfleoedd hyn hefyd i ysgolion cyfrwng Saesneg.

### 2.4.9 Sylwadau Amgen

Amlygodd sawl cyfranogwr eu cefnogaeth i ddatgysylltu'r Pasg heb newid unrhyw elfennau eraill o'r calendr.

Roedd hefyd rai ceisiadau am wyliau Nadolig hirach, gwyliau Nadolig sefydlog/"datgysylltiedig", dechrau'r flwyddyn ysgol yn ddiweddarach, a dechrau gwyliau'r haf yn gynharach i gael tywydd gwell.

Cafwyd cryn drafod am yr angen i gefnogi plant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol lle bo hynny'n bosibl, gyda rhai rhanddeiliaid yn teimlo na fyddai diwygio’r flwyddyn ysgol - waeth beth fyddai hyn yn ei olygu - yn gallu mynd i'r afael â'r heriau y mae plant difreintiedig yn eu hwynebu. Fe wnaethon nhw bwysleisio'r angen am fwy o ddarpariaeth gwyliau a gwasanaethau y tu allan i’r ysgol i blant sydd ag ADY.

[15] Byddai'r dyddiadau a gynlluniwyd ar gyfer y Sioe Frenhinol yn gosod y digwyddiad yn ystod y tymor ar sail dyddiadau arfaethedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2025 i 2026 yn yr ymgynghoriad. Mae'r Eisteddfod Genedlaethol fel arfer yn cael ei chynnal ym mis Awst a byddai yn ystod gwyliau'r haf ar sail dyddiadau arfaethedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2025 i 2026 yn yr ymgynghoriad.

## 2.5 Cyfweliadau

### 2.5.1 Diwygio'r Calendr Ysgol – pythefnos o wyliau hanner tymor yn yr hydref a phum wythnos o wyliau yn yr haf

Roedd cefnogwyr y newid hwn yn ei weld fel ffordd o rannu tymor hir yr hydref a lliniaru'r blinder yn ei sgil i ddysgwyr a'r gweithlu ysgolion. Cyfeiriodd ymarferwyr ysgolion at heriau ymddygiadol yn y cyfnod sy'n arwain at hanner tymor a lefelau salwch fel rhesymau dros yr angen am wyliau hirach. Roedd amrywiaeth o wahanol grwpiau rhanddeiliaid o blaid pythefnos o wyliau hanner tymor yn yr hydref, gan gynnwys rhanddeiliaid o'r byd addysg ac enwadau crefyddol.

Ar y llaw arall, pwysleisiai rhai rhanddeiliaid addysg effaith negyddol bosibl pythefnos o wyliau hanner tymor yn yr hydref ar baratoi dysgwyr ar gyfer cyfres arholiadau TGAU mis Tachwedd. Fodd bynnag, nid oedd disgwyl i'r effaith hon fod yn ddifrifol.

Roedd eraill yn teimlo y byddai tywydd salach yr hydref yn golygu bod pythefnos o wyliau hanner tymor yn lleihau'r cyfle i bobl fod tu allan yn ystod gwyliau ysgol ac mai cyfyngedig fyddai'r budd i dwristiaeth y DU, gan y byddai pobl yn fwy tebygol o fynd dramor yn ystod y gwyliau hwn. Gwnaed un sylw mewn cyfweliad am broblemau ymddygiad posibl pe bai Calan Gaeaf yn digwydd mewn gwyliau estynedig ym mis Hydref.

Cytunai un o'r rhai a gyfwelwyd bod angen mynd i'r afael â blinder yn nhymor yr hydref ond ni welai wyliau hirach ym mis Hydref fel yr ateb iawn i hyn.

O ran yr effaith y byddai hyn yn ei gael ar wyliau'r haf - wrth ei fyrhau i bum wythnos - roedd pryderon difrifol am yr effeithiau ar Sioe Frenhinol Cymru, gan ei bod wedi'i threfnu o fewn tymor haf Opsiwn 2 yn 2026 ac y gallai ddisgyn o fewn tymor yr haf eto yn y dyfodol.[16] Mae presenoldeb teuluol yn bwysig i "ethos" y Sioe, gyda 70% o'r aelodau yn mynychu fel rhan o becynnau teuluol. Mynegwyd pryderon y gallai effaith newid yn y calendr ysgol ac felly yr effaith ar allu plant i fynychu arwain at ostyngiad mewn presenoldeb, ergyd ariannol uniongyrchol bosibl o £1 miliwn ac effaith o £40 miliwn ar yr economi leol, yn ogystal ag effeithiau ar allu'r Sioe i bontio'r rhaniad rhwng gwlad a thref yng Nghymru drwy ddod â grŵp amrywiol o fynychwyr at ei gilydd.

### 2.5.2 Diwygio'r Calendr Ysgol – datgysylltu'r Pasg

Nodwyd y byddai datgysylltu'r Pasg yn rhoi rhywfaint o sefydlogrwydd, rhwyddineb cynllunio, a chysondeb dyddiadau tymhorau o flwyddyn i flwyddyn. Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod cael tymhorau anghyson eu hyd yn ei gwneud yn anodd i ysgolion ac y byddai toriad Pasg datgysylltiedig yn rhoi strwythur cliriach i'r flwyddyn.

Roedd barn grwpiau ffydd yn amrywio. Roedd rhai'n cytuno â'r ddadl a nodwyd uchod, ar yr amod bod Dydd Gwener y Groglith a Dydd Llun y Pasg yn cael eu diogelu, ac roedd un yn amlinellu'r manteision posibl o fod yn yr ysgol yn ystod yr Wythnos Fawr yn y blynyddoedd y mae gŵyl y Pasg yn digwydd y tu allan i wyliau'r gwanwyn (ar wahân i wyliau banc y Pasg). Roedd hyn yn cynnwys y cyfle ychwanegol i ddysgu am y Pasg yn yr Wythnos Fawr ei hun.

Roedd rhanddeiliad grŵp ffydd nad oedd o blaid datgysylltu'r Pasg yn cyfeirio at sawl pryder y byddai'n ei achosi. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg tystiolaeth canfyddedig yn y ddogfen ymgynghori am fanteision newid gwyliau'r Pasg; barn fod y cynigion fel rhan o duedd ehangach (gan gynnwys y Cwricwlwm i Gymru) i wneud crefydd yn llai gweladwy yn y gymdeithas yng Nghymru; a gwahaniaethu canfyddedig yn erbyn clerigwyr a gweithwyr eglwysig sy'n profi blinder tebyg i athrawon ac na fyddai'n gallu cymryd gwyliau gyda'u teuluoedd mewn achosion pan fo Pasg a fyddai wedi datgysylltu yn digwydd y tu allan i

[16] Ar hyn o bryd mae Sioe Frenhinol Cymru y tu allan i amser ysgol i Bowys, ac yn aml ar gyfer dyddiadau tymhorau awdurdodau lleol eraill hefyd.

wyliau'r gwanwyn (ar wahân i wyliau'r banc). Roedd y rhanddeiliaid yn dweud hefyd y gallai datgysylltu'r Pasg gyfyngu ar y cyfle i blant yng Nghymru fynychu canolfannau encilio Cristnogol y bydd eu calendrau yn seiliedig ar wyliau Lloegr. Yn ogystal, amlygwyd y gallai gwyliau a digwyddiadau Cristnogol yn yr wythnos ar ôl y Pasg arwain at ddysgwyr yn colli'r ysgol pe bai'r Pasg yn cael ei ddatgysylltu. Roedd y rhanddeiliaid yn pwysleisio hefyd y byddent yn gwneud cais am i'r wythnos ar ôl y Pasg fod ar restr o wyliau crefyddol cydnabyddedig y gallai plant golli'r ysgol amdanynt yn gyfreithiol.

Pwysleisiodd y person hwn a gyfwelwyd yn mynegi gwrthwynebiad i ddatgysylltu'r Pasg hefyd gan y byddai'n negyddol ar gyfer twristiaeth, gan arwain at llai o botensial marchnad. Awgrymwyd y gellid cyflawni nodau tebyg drwy ohirio gwyliau mis Mai o wythnos yn hytrach na symud y Pasg.

### 2.5.3 Diwygio'r Calendr Ysgol – pythefnos o wyliau hanner tymor ym mis Mai / mis Mehefin a phedair wythnos o wyliau yn yr haf

Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau am wyliau pythefnos ym mis Mai / mis Mehefin yn ymwneud ag arholiadau, gyda rhai'n dadlau y byddai'n tarfu gormod ar yr amserlen arholiadau ac y gallai arwain at CBAC (ni chyfeiriwyd at fyrddau arholi eraill) i gyfyngu amserlenni cymwysterau cymeradwy i'r tu allan i'r gwyliau pythefnos hwnnw, gan orfodi mwy o ddysgwyr a chanolfannau arholi i wasgu mwy o arholiadau i amserlen fyrrach. Yna gallai arholiadau ar gyfer cymwysterau heb eu cymeradwyo (sef dynodedig) gael eu cynnal yn ystod gwyliau'r Pasg, gyda goblygiadau i ganolfannau arholi. Gan ddibynnu ar pryd mae'r wythnos ychwanegol yn digwydd, gallai hefyd fod yn anoddach amserlennu cymwysterau galwedigaethol a chwblhau marcio arholiadau mewn pryd.

Roedd rhanddeiliaid addysg yn tynnu sylw hefyd at y pryder y byddai hyn yn golygu bod dysgwyr ym Mlwyddyn 10, 11, 12 a 13 yn colli wythnos o ddysgu (sef ym mis Mai / mis Mehefin) ac yn pwysleisio y gallai hyn effeithio'n negyddol ar baratoi arholiadau; nodwyd paratoi arholiadau lefel UG yma. Pwysleisiai un fod gwyliau banc ychwanegol yn y tymor hwn yn rhoi mwy o seibiant i ddysgwyr beth bynnag, ac na fyddai ychwanegu wythnos ychwanegol at y gwyliau hanner tymor yr adeg hon o'r flwyddyn yn ddigon buddiol i oresgyn y dryswch posibl y gallai ei achosi.

Nid oedd y sail resymegol dros yr wythnos ychwanegol hon o wyliau yn eglur i rai rhanddeiliaid yn y sector addysg, a mynegwyd pryderon am driwantiaeth ychwanegol ar ddiwedd tymor yr haf a allai ddigwydd o ganlyniad i'r diwygiad hwn.

Ar y llaw arall, roedd y rhai a oedd o blaid yn cyfeirio'n helaeth at y tywydd cynnes a'r potensial ar gyfer gwyliau ym mis Mai.

O ran y gwyliau haf pedair wythnos, roedd safbwyntiau yn gymharol begynnol. Roedd rhai yn gweld hyn fel rhywbeth cadarnhaol i gefnogi myfyrwyr difreintiedig ac o bosibl yn llacio'r prosesau paratoi a chywasgu sy'n digwydd y naill ochr a'r llall i'r gwyliau haf. Roedd eraill yn poeni am yr effeithiau ar dwristiaeth ac ar economïau lleol a'r galw cywasgedig am wyliau (a'r cynnydd cysylltiedig mewn prisiau) gan staff mewn busnesau. Ofnai un y gallai hyn arwain at gynnydd mewn absenoldebau heb eu hawdurdodi o'r ysgol.

Dywedodd sawl un y byddai athrawon yn gwrthwynebu'n gryf wyliau haf pedair wythnos ac y byddent yn gadael y proffesiwn, gan y byddai llawer na fyddent hyd yn oed yn cael mwynhau'r pedair wythnos lawn oherwydd diwrnodau canlyniadau a gwaith paratoi.

### 2.5.4 Diwygio'r Calendr Ysgol – diwrnodau canlyniadau arholiadau TGAU a Safon UG / Safon Uwch

Roedd y rhai a oedd o blaid y cynnig hwn yn teimlo y byddai un wythnos ganlyniadau yn lleihau llwyth gwaith athrawon dros yr haf a bod y system hon wedi gweithio'n dda yn 2021 o ganlyniad i Covid–19.

Mynegodd eraill bryderon ynghylch adnoddau ac ansawdd ar y sail y byddai'n arwain at ffenestr farcio wedi'i chywasgu, gan gynyddu'r risg o wallau marcio, a mwy o bwysau gweithredol ar CBAC a'r tîm ystadegau bach yn Cymwysterau Cymru, yn ogystal ag ar gyfleusterau a dysgwyr.

O ystyried bod y rhan fwyaf o farcwyr arholiadau yn athrawon sy'n gweithio, gallai calendr wedi'i newid (e.e., haf byrrach) a chael un wythnos ganlyniadau (sef symud wythnos canlyniadau TGAU ymlaen) achosi straen ar gapasiti. Mynegwyd y byddai cael un wythnos ganlyniadau yn bosibl ond y byddai hyn yn gofyn am ddyblu capasiti (marcio, adnoddau) a fyddai'n dod ar gost ychwanegol. Roedd un rhanddeiliad addysg yn ei gwneud yn glir bod manteision rhoi canlyniadau TGAU a Safon Uwch yn yr un wythnos yn gorbwyso'r risgiau o'u safbwynt nhw.

Yn bwysicaf oll, cydnabuwyd y gallai hyn arwain at ddysgwyr yn methu derbyn eu canlyniadau mewn pryd, a allai effeithio ar lesiant y dysgwyr hynny a oedd â phryderon nad ydynt yn gysylltiedig â lleoedd mewn prifysgolion. Gallai’r grŵp hwn dderbyn llai o sylw a chefnogaeth o ganlyniad.

Codwyd cwestiynau ynghylch sut yn hollol y byddai wythnosau canlyniadau'n cael eu symud, gyda rhanddeiliaid yn pwysleisio'r angen i gadw diwrnod canlyniadau Safon Uwch yr un pryd ag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon i'w hystyried gan brifysgolion.

Roedd un rhanddeiliad addysg yn teimlo y dylai diwrnodau canlyniadau ddigwydd yn ystod y tymor ac y dylent aros mewn gwahanol wythnosau. Roedd cyfeiriad at wledydd eraill sy'n cynnal arholiadau cyn y Pasg a lle mae gwaith cwrs yn cael ei gyflwyno wedyn.

### 2.5.5 Cefnogaeth i Opsiwn 1

Mae rhanddeiliaid yn cydnabod bod tymor yr hydref yn hir a nodwyd bod hanner tymor mis Hydref y llynedd wedi digwydd yn hwyrach ac felly cafodd fwy o effaith ar gyfres arholiadau mis Tachwedd.

Mae'r gwyliau haf chwe wythnos yn bwysig i lawer, sy'n teimlo mai dyma'r unig seibiant gwirioneddol mae'r gweithlu addysg yn ei gael drwy'r flwyddyn a'i fod yn allweddol ar gyfer rheoli straen a llesiant meddyliol. Mae'n amlwg bod staff ac arweinwyr ysgolion yn aml yn gwneud rhywfaint o waith yn yr haf, yn enwedig o amgylch diwrnodau canlyniadau, sy'n golygu nad yw'r gwyliau chwe wythnos mewn enw yn cyfateb bob amser i chwe wythnos heb waith. Pwysleisiwyd hefyd fod yr haf yn amser i ddysgwyr gael profiadau addysgol y tu allan i'r ysgol ac y dylai'r llywodraeth gefnogi hyn yn fwy.

Roedd rhai'n poeni y byddai lleihau gwyliau'r haf yn golygu bod teuluoedd i gyd yn gwasgu'r un gwyliau o fewn amrediad byrrach o amser. Roedd un a gyfwelwyd o'r sector busnes yn pwysleisio ei bod yn haws i fusnesau wasgaru gwyliau gweithlu dros chwe wythnos nag y byddai dros gyfnod byrrach.

Roedd un rhanddeiliad addysg yn pwysleisio diffyg tystiolaeth bod y graddau o golli dysg mewn chwe wythnos yn waeth nag ar ôl gwyliau pythefnos, gan amau’r rhesymeg dros wyliau byrrach yn yr haf. Cyfeiriodd un arall at sgoriau PISA uwch Iwerddon, sydd hefyd â gwyliau haf hirach, sy’n gwrth-ddweud y dadleuon am golli dysg dros wyliau chwe wythnos yr haf.

Roedd eraill yn teimlo'n gryf fod y gwyliau haf chwe wythnos yn rhy hir i ddysgwyr difreintiedig, gan gynnwys y rhai y mae pryderon diogelu yn berthnasol iddynt. Gyda dechreuadau graddol a diwrnodau HMS, gall y gwyliau hyn ymestyn yn hirach na chwe wythnos ar adegau, gan waethygu pryderon ynghylch dysgwyr difreintiedig a cholli dysg.

Yn gyffredinol, roedd disgwyl i effaith Opsiwn 1 ar y gweithlu olygu "busnes fel arfer," sydd â chyfyngiadau ond sy'n cael ei ddeall yn dda. Dywedodd un o’r rhai a gyfwelwyd ei fod yn dal

heb gael ei argyhoeddi bod hyn yn werth newid y drefn bresennol. Roedd teimlad helaeth fod llawer o newidiadau yn digwydd yn y sector addysg (gan gynnwys cymwysterau newydd) ac y bydd heriau newydd yn codi law yn llaw â'r rhain.

### 2.5.6 Cefnogaeth i Opsiwn 2

Nodwyd ymatebion cadarnhaol gan amrywiol randdeiliaid, gyda chefnogaeth i'r effaith ar leoliadau cyfrwng Cymraeg. Roedd rhai rhanddeiliaid yn nodi y gallai'r effeithiau fod yn gadarnhaol, ond yn gymharol fach. Roedd rhai yn cefnogi hyn fel yr opsiwn gorau yn gyffredinol, ond yn ffafrio gwyliau haf pedair wythnos.

Roedd teimlad bod Opsiwn 2 yn "gyfaddawd hapus," yn ateb synhwyrol nad oedd yn gorfodi newid radical ar y system.

Roedd sylwadau'n amrywio o ran effaith Opsiwn 2 ar baratoi ar gyfer dysgwyr mewn blynyddoedd arholiad, gyda rhai'n nodi y byddai angen ystyried yr opsiwn hwn ymhellach ar sail ei effeithiau ar y system arholiadau a'r cymwysterau. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai'n effeithio'n sylweddol ar y system arholiadau a dywedodd eraill na fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i newid yr amserlen arholiadau. Awgrymwyd hefyd y gallai'r opsiwn hwn gael effeithiau cadarnhaol ar lesiant dysgwyr blwyddyn arholiad ond y gallai effeithio'n negyddol ar staff wrth iddynt geisio cyflwyno wythnos ychwanegol o gynnwys i ddysgwyr mewn llai o wythnosau addysgu.

### 2.5.7 Cefnogaeth i Opsiwn 3

Yr opsiwn hwn a fyddai'n cael yr effaith fwyaf sylweddol ar y system arholi, gyda phryderon yn cael eu mynegi am gael digon o farcwyr mewn cyfnod byrrach. Roedd un yn teimlo na fyddai'r newidiadau yn effeithio ar adnoddau.

Ar y llaw arall, nodwyd fel posibilrwydd y gallai gwyliau mwy cyson o ran hyd a gwyliau haf byrrach leihau'r graddau o golli dysg, a fyddai'n cael mwy o effaith mewn system arholiadau fwy unedig gydag asesiadau mwy parhaus ac felly gallai fod o fudd i ddysgwyr. Y disgwyl oedd y byddai staff a dysgwyr ysgolion uwchradd yn elwa ar y tymhorau a'r gwyliau mwy cyson eu hyd a gynigir yn yr opsiwn hwn, o ran eu llesiant a pharatoi ar gyfer asesiadau. Nodwyd hefyd y gallai dysgwyr difreintiedig brofi manteision penodol. Gallai rhieni hefyd gael mwy o gyfle i fwynhau amser o ansawdd yn rhydd o'r gwaith ac i allu rheoli blinder yn well.

Roedd teimlad mai Opsiwn 3 fyddai'n effeithio fwyaf ar fusnesau, yn enwedig ar fusnesau llai. Y gred iedd y gallai busnesau trawsffiniol elwa o wahanol amserau gwyliau ysgol yng Nghymru a Lloegr i reoli llwyth gwaith yn well, ond roedd pryder am yr effaith ar letygarwch a thwristiaeth. Pwysleisiai un rhanddeiliad busnes y dylai Llywodraeth Cymru fod yn edrych i dyfu economi Cymru, nid tarfu arni drwy'r math hwn o ddiwygio.

Roedd sawl rhanddeiliad yn ansicr ynghylch yr opsiwn hwn, gydag un rhanddeiliad yn pwysleisio mai hwn oedd y cam ac iddo'r canlyniadau mwyaf anhysbys ac un arall yn nodi y byddai ei effaith yn debygol o fod yn fach, ond y byddai'r ad-drefnu'n golygu "tarfu enfawr."

### 2.5.8 Effeithiau ar y Gymraeg

Y prif sylw am y Gymraeg oedd y gallai gwyliau hir yn yr haf gael effaith benodol ar ddysgwyr Cymraeg sydd heb lawer o gyfle i ymwneud â'r Gymraeg gartref.

Teimlai rhai y gallai cwtogi gwyliau'r haf olygu llai o golli dysg i ddysgwyr o gartrefi lle nad yw Cymraeg fel ail iaith yn cael ei siarad, gydag un yn nodi bod asesiadau llafar Cymraeg yn aml yn digwydd yn fuan ar ddechrau Blwyddyn 11, gan golygu bod colli dysg dros yr haf yn arbennig o berthnasol. Roedd un a gyfwelwyd yn teimlo y byddai Opsiynau 2 a 3 yn helpu i leihau graddau colli'r Gymraeg a ddysgir, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â dwysedd uwch lle siaredir Saesneg fel y brif iaith gartref.

Dywedodd un o’r rhai a gyfwelwyd y gallai cyfnodau estynedig i ffwrdd o'r ysgol effeithio'n negyddol ar alluoedd yn y Gymraeg, gan gynnwys i staff cymorth sy'n dysgu Cymraeg (er y cydnabuwyd y gallai staff cymorth gael swyddi eraill dros yr haf ac y gallai byrhau gwyliau’r haf effeithio ar eu hincwm atodol). Er hynny, nodwyd nad hyd gwyliau ysgol yw'r ffactor pwysicaf o ran gallu yn y Gymraeg, hyd yn oed os gallai gael effaith ymylol.

Roedd eraill yn pwysleisio’r angen i Lywodraeth Cymru gefnogi’r ddarpariaeth o weithgareddau ychwanegol sy'n galluogi dysgwyr i ddod i gysylltiad â'r Gymraeg a'i defnyddio dros wyliau'r haf. Teimlai sawl un a gyfwelwyd nad byrhau gwyliau'r haf oedd y ffordd iawn o fynd i'r afael â diffyg cyswllt â’r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.

Roedd unrhyw ddiwygiadau i’r flwyddyn ysgol a allai effeithio ar gyfleoedd i fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Frenhinol Cymru yn cael eu hystyried yn niweidiol yma, gan y teimlid bod y rhain yn gyfleoedd allweddol i ddod i gysylltiad â'r Gymraeg. Roedd un rhanddeiliad yn nodi bod 43% o’r rhai sy’n gweithio mewn amaethyddiaeth yn gallu siarad Cymraeg. Byddai cymhlethdodau ynghylch symud Sioe Frenhinol Cymru yn cynnwys seilwaith a rennir fel fflydoedd bysiau ysgol, a gallai newid ei hamser effeithio hefyd ar sioeau a gwyliau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol eraill, gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol.

Gallai unrhyw ddiwygiadau sy'n cywasgu’r cyfnod marcio arholiadau gael effaith benodol ar asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan fod nifer llai o aseswyr sy'n siarad Cymraeg.

#### 2.5.9 Sylwadau ychwanegol

Roedd rhai yn teimlo nad oedd yr ymgynghoriad yn dangos yn ddigonol bod y newidiadau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth. Nododd un y cyfeiriadau at dystiolaeth heb ystyried goblygiadau ariannol ehangach newid.

Roedd rhai yn teimlo bod gormod o newid yn y system addysg ar hyn o bryd, ac nad dyma'r amser gorau i gynnig newidiadau o'r fath. Roedd rhanddeiliaid eraill yn teimlo ei bod yn bwysig ystyried y newid hwn yng ngoleuni'r argyfwng recriwtio a chadw yn y sector, ac y dylid ailystyried telerau ac amodau staff addysgu.

Gwnaed sylwadau tebyg am amseru'r diwygio ynghylch graddau’r tarfu ers pandemig Covid–19 ac awydd y sector am rywfaint o barhad. Dywedodd rhanddeiliad arall yn y sector busnes y dylai busnesau allu addasu, cyn belled â bod digon o rybudd yn cael ei roi am unrhyw newidiadau.

Yn ogystal, dywedwyd y gallai unrhyw newidiadau effeithio ar y swm o amser pan nad oes arolygu yn y calendr ysgol oherwydd y rheolau presennol sy'n cyfyngu ar unrhyw arolygiadau sy'n digwydd yn yr wythnosau o amgylch gwyliau'r Nadolig a'r haf. Roedd galwad am arweiniad cryfach ynghylch cysondeb dyddiadau tymhorau rhwng awdurdodau lleol a’i gilydd a'r ffordd orau o rannu diwrnodau HMS dros y flwyddyn ysgol, gan fod diwrnodau HMS yn aml yn cael eu defnyddio i ymestyn gwyliau'r haf.

Cymysg oedd y farn mewn ynghylch yr effaith y gallai'r tri opsiwn ei chael ar y ffordd rydym yn byw heddiw. Roedd rhai yn teimlo y byddai gwyliau haf byrrach yn gwneud gofal plant yn haws, tra bod eraill yn pwysleisio bod nifer y dyddiau a’r wythnosau gwyliau yn aros yr un fath, felly ni fyddai'n cael effaith. Roedd eraill yn teimlo nad y flwyddyn ysgol oedd y mecanwaith cywir i ddatrys heriau sy’n ymwneud â’n ffordd o fyw heddiw neu ofal plant.

O ran Opsiynau 2 a 3, codwyd pryderon am staffio gwyliau "newydd" mewn lleoliadau addysg nas cynhelir, a fyddai'n effeithio ar allu'r Awdurdodau Lleol i gynnig y nifer angenrheidiol o oriau addysg sy'n ofynnol oherwydd bod rhai lleoliadau sesiynau yn cau yn ystod gwyliau'r ysgol, felly efallai na fyddant yn gallu staffio wythnosau ychwanegol o wyliau yn yr opsiynau am newid. Ar y llaw arall, awgrymwyd y gallai mwy o wyliau ysgol ar adegau heblaw gwyliau'r haf annog mwy o dwristiaeth i Gymru.

Amlygwyd dro ar ôl tro yr angen am fwy o gyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol gyda phwyslais ar wasanaethau cymdeithasol a chymorth y tu allan i'r ysgol i blant difreintiedig. Mynegwyd pryderon am yr effaith y byddai byrhau gwyliau'r haf yn ei chael ar gyllid ar gyfer ysgolion haf a darpariaeth i ddysgwyr difreintiedig.

Yng ngoleuni sgyrsiau ynghylch gwyliau, roedd sawl galwad ar i Ddydd Gŵyl Dewi fod yn ŵyl banc a galwad i bennu amserau sefydlog i wyliau Nadolig, fel eu bod yn dechrau'r wythnos cyn y Nadolig. Gofynnodd un o'r rhai a gyfwelwyd am archwiliad o wyliau haf lle mae'r flwyddyn ysgol yn dechrau'n gynharach, yn debycach i fodel yr Alban. Y farn oedd bod hyn yn gwella cysondeb gwyliau ynghyd â phosibilrwydd o dywydd gwell.

Yn olaf, roedd rhywfaint o ganfyddiad (anghywir) bod ymgyngoriadau ar y flwyddyn ysgol wedi digwydd o'r blaen, gyda nodyn ei bod yn anodd i sefydliadau llai a sefydliadau gwirfoddol ymateb yn gyson i alwadau am gymryd rhan.

## 2.6 Gohebiaeth Ychwanegol – negeseuon e-bost a llythyrau

### 2.6.1 Ymatebion ychwanegol i newidiadau arfaethedig

Yn ogystal â'r ymatebion i'r arolwg a'r ymatebion Hawdd eu Darllen, derbyniwyd 127 o negeseuon e-bost a 52 o lythyrau mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys 50 o ymatebion a dderbyniwyd ar ran sefydliadau. O'r ymatebion hyn, derbyniwyd 16 yn Gymraeg.

### 2.6.2 Ymatebion cyffredinol i newidiadau arfaethedig

Yn yr ohebiaeth ychwanegol a dderbyniwyd, roedd rhanddeiliaid yn cyfleu eu barn yn gyffredinol ar gysyniad y newidiadau a gynigir.

Roedd yr unigolion a fynegodd deimladau cadarnhaol at y newidiadau yn cadarnhau bod tymor yr hydref yn rhy hir, gan adleisio ymatebion i'r ymgynghoriad wrth ddisgrifio bod ymarferwyr a dysgwyr wedi blino erbyn diwedd tymor yr hydref ac yn profi cyfraddau uwch o salwch. Gallai'r cynigion i gydbwyso hyd tymhorau, o ganlyniad, gefnogi'r gweithlu. Yn ogystal, dywedodd unigolion pam fod angen newid i ymateb i'r heriau cymdeithasol presennol, a'u bod yn teimlo bod gwyliau'r haf yn rhy hir. Er bod rhai yn cydnabod y gallai fod 'pethau pwysig eraill i ganolbwyntio arnynt', roeddent yn sôn bod y cynigion yn enghraifft o Lywodraeth Cymru yn arwain ar rywbeth a allai wneud gwahaniaeth heb fod angen cyllid, ac o bosibl gosod esiampl i weddill y DU.

Pwysleisiodd un ymateb nad oedd â barn bendant nad yw nifer y diwrnodau gwyliau yn newid ac felly y byddai problemau tebyg yn ymddangos ar wahanol adegau. Roedd y rhanddeiliad hwn yn cysylltu hyn â diddymu talebau prydau ysgol am ddim dros y gwyliau.

Roedd y rhai a ymatebodd yn negyddol i gysyniad yr ymgynghoriad yn crybwyll amseru'r newidiadau, yr ymddygiad amhriodol canfyddedig neu'n beirniadu'r ffordd yr aed ati i ymgynghori, diffyg tystiolaeth canfyddedig a diffyg sail resymegol a oedd yn argyhoeddi'r achos dros newid, y teimlad mai'r cynigion yw'r dull anghywir o ddatrys heriau perthnasol i gymdeithas, y byddai'r newidiadau arfaethedig yn peri problem i deuluoedd sy'n byw ar y ffin â Lloegr,  a'r sgil-effeithiau i unigolion mewn Addysg Bellach gyda'r gwahaniaethau o ganlyniad mewn patrymau gwyliau.

Roedd yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar amseriad y newidiadau arfaethedig yn cysylltu hyn â'r argyfwng recriwtio a chadw yn y sector, gan gynnwys ymhlith y rhai sy'n newydd i'r proffesiwn. Hefyd yn gysylltiedig â hyn roedd y graddau canfyddedig o newid yn y sector addysg yn ogystal â'r teimlad bod y newidiadau arfaethedig yn dechrau'n rhy fuan i fusnesau y gallent effeithio arnynt allu addasu a datblygu gwytnwch i strwythur blwyddyn ysgol newydd.

Roedd yr ohebiaeth a oedd yn ymwneud â'r canfyddiad o ymddygiad amhriodol neu feirniadaeth o'r ffordd o reoli'r ymgynghoriad yn crybwyll 'defnydd camarweiniol o ddysgwyr' fel sail resymegol dros newid 'diangen' a 'yrrir gan resymau gwleidyddol', yn ogystal â diffyg cefnogaeth i'r cynigion gan rieni, dysgwyr ac athrawon. Yn ogystal, roedd beirniadaeth o'r holiadur ymgynghori yn ymwneud â chynnwys, hepgor, geiriad, a fformat cwestiynau ymgynghori.

Roedd y canfyddiad o ddiffyg tystiolaeth a diffyg sail resymegol bendant a chredadwy dros newid a grybwyllwyd gan rai ymatebwyr yn ymwneud â'r dystiolaeth y cyfeirir ati yn y ddogfen ymgynghori. Roeddent yn teimlo bod y dystiolaeth hon yn canolbwyntio ar yr Unol Daleithiau a Chanada yn hytrach na chyd-destun y DU, ac nad yw'r dystiolaeth yn dangos perthynas rhwng calendrau amgen a chyrhaeddiad myfyrwyr, nac yn gwneud cymariaethau â gwledydd eraill sydd â gwyliau haf hirach a sgoriau PISA uwch.

Roedd yr ymatebwyr a awgrymodd fod diwygio'r calendr yn tynnu sylw oddi ar bethau pwysicach neu mai hyn oedd yr offeryn anghywir ar gyfer datrys problemau perthnasol, yn teimlo y dylid mynd i'r afael yn fwy uniongyrchol a chynhwysfawr â heriau fel tlodi dysgwyr ac anfantais a darpariaeth gofal plant, yn enwedig gan fod hawl gwyliau blynyddol safonol rhieni yn llai na hyd gwyliau ysgol. Mae'r meysydd polisi a restrir gan ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru yn hytrach ganolbwyntio arnynt yn cynnwys gofal plant fforddiadwy, cymorth ychwanegol i ddysgwyr yn yr ysgol, cymorth ariannol i deuluoedd cyflog isel, cyllid i'r GIG, mynd i'r afael ag argyfwng recriwtio a chadw staff ysgolion, llwyth gwaith ymarferwyr addysgu, toriadau i gyllidebau ysgolion, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion, darpariaeth prydau ysgol, a darpariaeth clybiau gwyliau, yn enwedig ar gyfer y rhai ym Mlwyddyn 7 ac uwch.

Yn olaf, roedd y rhai a oedd â barn gyffredinol negyddol am egwyddor yr ymgynghoriad yn mynegi'r teimlad y byddai newid calendr yn peri problemau o ran gofal plant yn enwedig i deuluoedd sy'n byw ar ffin â Lloegr, ac yn rhannu pryderon am sgil-effeithiau ar oedolion sy'n ddysgwyr mewn Addysg Bellach, o ran gwahaniaethau mewn patrymau gwyliau a chostau gofal plant uwch.

### 2.6.3 Cefnogaeth i Opsiwn 1

Soniodd yr ymatebwyr a ddangosodd gefnogaeth i Opsiwn 1 sut mae'r calendr ysgol presennol yn ddeniadol ar gyfer recriwtio a chadw o fewn y proffesiwn addysgu, y teimlad bod plant yn haeddu seibiant hir yn yr haf, ei fod yn osgoi effeithiau negyddol posibl ar dwristiaeth, yn ogystal â'r gred nad oes tystiolaeth y byddai newidiadau o fudd i addysg yn gyffredinol ac mai dyma'r opsiwn a fyddai'n tarfu leiaf, na ddylai Llywodraeth Cymru 'drwsio'r hyn sydd heb ei dorri'.

O'r ymatebwyr nad oedd yn cefnogi Opsiwn 1, soniodd sawl unigolyn am ffactorau a archwiliwyd yn y ddogfen ymgynghori. Cododd eraill yr anghyfleustra a oedd yn gysylltiedig â symud gwyliau'r Pasg o flwyddyn i flwyddyn, a bod gwyliau'r haf yn rhy hir o ran ynysu cymdeithasol a llesiant gan arwain at ddiflastod i ddysgwyr. Mynegodd rhai ymatebwyr a oedd o blaid newid fod hyn ar yr amod bod cyrff dyfarnu yn gwthio terfynau amser asesu yn ôl yn hwyrach yn y tymor yn unol â dyddiadau arfaethedig y tymor.

### 2.6.4 Cefnogaeth i Opsiwn 2 – hyd gwyliau'r haf

O'r ymatebwyr a oedd o blaid Opsiynau 2 a 3 mewn perthynas â byrhau gwyliau'r haf, roedd y ffactorau a grybwyllwyd yn ymwneud â goblygiadau i ofal plant, y tywydd, ystyriaethau diogelu a lleihau'r tarfu ar y drefn arferol, gan gynnwys i ddysgwyr Cymraeg nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref.

Esboniodd rhai ymatebwyr sut y byddai byrhau gwyliau'r haf yn ddefnyddiol wrth wasgaru cost gofal plant drwy gydol y flwyddyn, gan fod cost gwyliau'r haf yn effeithio ar deuluoedd, yn enwedig i rieni sy'n gweithio. Dywedodd un ymatebydd y byddai gwyliau haf byrrach yn arbennig o fuddiol i deuluoedd sydd â phlant o wahanol oedrannau.

O ran y tywydd, dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn teimlo bod y tywydd yn well ym mis Mai nag ym mis Awst, felly byddai'n fuddiol cynyddu gwyliau hanner tymor mis Mai. Soniodd rhai ymatebwyr eu bod o blaid byrhau gwyliau'r haf cyn belled â bod dyddiadau'r tymor yn cael eu diwygio, gyda thymor yr Hydref yn dechrau yn gynharach (ddiwedd Awst) yn hytrach na dod i ben yn hwyrach ym mis Gorffennaf. Roedd rhai ymatebwyr yn cysylltu dyddiadau'r Sioe Frenhinol â'r dewis hwn.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai gwyliau haf byrrach leihau unigedd i bobl ifanc ac effeithio'n gadarnhaol ar sgiliau cymdeithasol, cyfeillgarwch a llesiant. Roedd hyn yn ymwneud ag anfanteision cael gwyliau haf hirach, gan gynnwys pryderon ynghylch diogelu dysgwyr difreintiedig. Roedd eraill yn amlygu'r anawsterau y mae haf hirach yn ei olygu o

ran dysgu, gan gynnwys dysgwyr yn anghofio'r drefn ddysgu, anhawster wrth bontio’n ôl i drefn arferol, a dysgwyr difreintiedig yn enwedig yn colli’r hyn a ddysgwyd.

Y gred oedd bod lleihau'r tarfu ar drefn arferol a cholli dysg yn arbennig o berthnasol i ddysgwyr ag ADY ac i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg sydd heb lawer o gysylltiad â'r Gymraeg yn ystod y gwyliau.

Nodwyd y gallai gwyliau haf byrrach gael effeithiau negyddol posibl ar lesiant. Mae dysgwyr yn mwynhau gwyliau haf hir a'r cyfle i dreulio amser gyda theulu a ffrindiau, gorffwys ac ymlacio ar ôl y flwyddyn ysgol, ac osgoi rhywfaint o'r pryder sy'n gysylltiedig â dychwelyd i'r ysgol. Mae gwyliau haf hirach hefyd yn caniatáu hunanddatblygiad y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Awgrym rhai o'r sylwadau hyn oedd y gallai gwyliau haf byrrach leihau effeithiau gwyliau haf hir ar adferiad, ac arwain at ddysgwyr yn cymryd amser i ffwrdd yn ystod amser ysgol. Mewn ymateb i'r ddadl y gallai cwtogi gwyliau'r haf leihau'r cyfnod o amser y mae plant difreintiedig yn destun pryderon diogelu, roedd rhai ymatebion yn pwysleisio nad yw byrhau gwyliau'r haf yn datrys y broblem hon ac y dylid rhoi darpariaeth a chymorth ychwanegol ar waith ar gyfer y dysgwyr hyn. Mynegwyd pryder penodol mewn perthynas â chanfyddiad y gallai diwygio’r flwyddyn ysgol gymhlethu trefniadau plant a orchmynnwyd gan y llys yn achos rhieni sydd wedi ysgaru neu wahanu.

Nodwyd y gallai byrhau gwyliau'r haf gymhlethu trefniadau gofal plant teuluoedd ar y ffin ac roedd rhai yn gweld y cynnydd mewn gweithio gartref ers 2020 wedi lliniaru'r her o ofalu am blant dros wyliau hir yr haf yn fwy nag a adlewyrchwyd gan adroddiad Miller Research (2023). Adroddwyd bod cwmnïau mawr wedi addasu i'r gwyliau chwe wythnos, gan ganiatáu i deuluoedd weithio’n fwy hyblyg dros yr haf, felly byddai gwyliau haf byrrach yn gwanhau'r darpariaethau hyn. Yn ogystal, roedd teuluoedd yn pryderu y gallai pris gwyliau gynyddu pe byddai cyfnod byrrach o amser lle gall teuluoedd gymryd gwyliau teuluol. Gall hyn arwain yn ei dro at fwy absenoldebau heb eu hawdurdodi o'r ysgol yn ystod y tymor.

Ystyriaeth bwysig yw bod ar staff ysgolion hefyd sydd wedi blino wedi’r flwyddyn ysgol angen gwyliau hir i ddadflinio’n iawn, gyda phwyslais yn cael ei roi ar y ffaith fod gan arweinwyr ysgolion a llawer o staff eraill gyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwaith yn ystod yr haf, gan fyrhau'n sylweddol y gwyliau 6-wythnos. Mae gwyliau hir yr haf yn un o atyniadau poblogaidd y proffesiwn ac roedd pryder y byddai colli hyn yn effeithio ar recriwtio a chadw.

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai byrhau'r gwyliau haf â'r potensial i effeithio ar waith cyflogedig dros yr haf a darpariaeth gwyliau. Mae trefniadau staffio gwyliau'r haf presennol a gwaith tymhorol mewn ardaloedd twristiaeth yn dibynnu ar fyfyrwyr prifysgol a phobl ifanc eraill ac efallai y bydd yn anodd dod o hyd i staff pe bai’r gwyliau’n cael eu symud i rannau eraill o'r flwyddyn. Mae hyn hefyd yn wir am y sector gwaith ieuenctid, gyda chyfnod hirach o gyflogaeth dros yr haf yn fwy deniadol ar gyfer recriwtio staff. I ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd, gallai byrhau gwyliau’r haf hefyd olygu llai o gyfleoedd i gael eu profiadau gwaith cyntaf, datblygu sgiliau meddal, ac ennill eu harian eu hunain. Mae pobl ifanc yn cymryd amser i hyfforddi a nodwyd y gallai'r effaith ar amaethyddiaeth fod yn arbennig o boenus.

Roedd hyn yn wir hefyd i rai staff ysgolion sy'n gweithio mewn swyddi ychwanegol yn yr haf, gyda sylwadau y byddai'n fwy anodd iddyn nhw ddod o hyd i waith ychwanegol pe bai gwyliau'r haf yn fyrrach. Gallai haf byrrach anfanteisio darlithwyr addysg bellach hefyd oherwydd y cyfle mwy cyfyngedig am gyfleoedd dysgu proffesiynol.

Amlygodd rhai ymatebion ganfyddiad o ddiffyg tystiolaeth y byddai byrhau gwyliau'r haf o fudd i ddysgwyr, gan wneud cymariaethau â gwledydd eraill (sydd â gwyliau haf hir) a chanlyniadau PISA uchel. Nodwyd hefyd nad yw profiadau blynyddoedd brig pandemig COVID-19 yn addas i'w defnyddio fel sail ar gyfer angen i ddiwygio'r flwyddyn ysgol, a bod cynhesu byd-eang yn debygol o arwain at dymheredd cynyddol, na ddylai dysgwyr fod yn yr

ysgol ynddynt, gan nad yw ysgolion yng Nghymru wedi'u cynllunio'n gyffredinol i wrthsefyll gwres.

Ym marn cyfran derfynol o ymatebion, ychydig iawn o fanteision fyddai o gael wythnos ychwanegol ar ddiwedd tymor yr haf i fyrhau gwyliau'r haf. Nid oedd yr wythnos ychwanegol hon ar ddiwedd tymor yr haf yn cael ei hystyried yn gyfwerth ag wythnos a osodwyd rywbryd arall yn y flwyddyn. Nodwyd pryderon y byddai hyn i bob pwrpas yn golygu wythnos o golli dysg i ddysgwyr sydd eisoes wedi sefyll eu harholiadau ac a fyddai'n golygu llai o amser ar gyfer paratoi at arholiadau.

### 2.6.5 Diwygio’r Calendr Ysgol – pythefnos o wyliau hanner tymor yn yr Hydref

Prif fantais gwyliau pythefnos hanner tymor ym mis Hydref oedd y cyfle posibl i orffwys a lleddfu blinder i ddysgwyr a staff ysgol. Nodwyd bod gan dymor hir yr hydref gyfraddau presenoldeb gwael oherwydd bod salwch yn gyffredin. Gallai’r gwyliau pythefnos hyn hefyd olygu gwyliau rhatach i deuluoedd, a allai hefyd atal plant rhag cael eu tynnu allan o'r ysgol yn ystod y tymor am wyliau mwy fforddiadwy. Mae'r cynnig hwn yn creu tymhorau mwy cytbwys o ran hyd ac yn lleihau cost gwresogi a goleuo ysgolion yn y gaeaf - er bod hyn yn cael ei weld fel anfantais gan eraill, a oedd yn nodi y byddai teuluoedd yn debygol o gael biliau gwresogi a goleuo uwch o ganlyniad.

Roedd y rhai a oedd yn gweld y gwyliau hanner tymor arfaethedig o bythefnos yn yr hydref fel rhywbeth negyddol yn aml yn crybwyll y tywydd oerach, tywyllach. Gall hyn fod yn ddrutach i deuluoedd, a fyddai â chostau ynni uwch ac a fyddai'n gorfod canfod ffyrdd o ddiddanu eu plant o dan do, o'i gymharu â'r haf pan fydd plant yn gallu chwarae yn yr awyr agored yn well. Byddai'r costau ychwanegol y byddai hyn yn eu peri i deuluoedd mewn perygl o roi dysgwyr difreintiedig mewn sefyllfa anoddach, yn enwedig mewn o ran materion yn ymwneud â diogelu. Yn ogystal, roedd rhai yn pryderu y byddai plant yn treulio gormod o amser ar sgriniau yn ystod y gwyliau hwn pe bai'n cael ei ymestyn, a chodwyd pryderon ynghylch cynnydd posibl mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a phryderon am ddiogelwch plant sy'n fwy tebygol o gael eu gadael ar eu pen eu hunain yn ystod gwyliau hanner tymor hirach. Nodwyd bod yr effeithiau hyn ar deuluoedd hefyd yn wir am staff cymorth.

Roedd yr effeithiau ar gyfnod arholiadau'r gaeaf yn destun pryder arall. Mae'r cyfnod arholiadau hwn, sy'n aml yn ymwneud yn bennaf â dysgwyr Blwyddyn 11 sy'n sefyll arholiadau ffug, fel arfer yn dechrau yn wythnos gyntaf mis Tachwedd yn dilyn y gwyliau hanner tymor, felly byddai wythnos o baratoi at arholiadau yn cael ei cholli.Ychwanegodd yr ymatebwyr y gallai hyn hefyd effeithio ar ddysgwyr sy'n ailsefyll TGAU mewn mathemateg, mathemateg-rhifedd, iaith Saesneg, a'r iaith Gymraeg. Roedd un yn awgrymu y gallai symud arholiadau mis Tachwedd yn ôl wythnos yn hwyrach osgoi'r broblem hon.

I bob dysgwr mewn blynyddoedd arholiadau, byddai gwyliau pythefnos ym mis Hydref hefyd yn byrhau'r amserlen addysgu ar gyfer paratoi at arholiadau yn gyffredinol. Y teimlad oedd y byddai cymryd wythnos o dymor yr hydref a'i symud i ddiwedd tymor yr haf yn rhoi dysgwyr yng Nghymru o dan anfantais o'i gymharu â dysgwyr mewn rhannau eraill o'r DU, gan y gallai rhai o'r dysgwyr hyn fod eisoes wedi gadael yr ysgol hyd yn oed erbyn diwedd "tawel" tymor yr haf. Mae'r gwyliau hiraf ym mis Hydref hefyd yn peryglu colli momentwm i ddysgwyr addysg bellach.

Codwyd rhai pryderon am effaith pythefnos o wyliau ym mis Hydref ar y diwydiant twristiaeth lleol, gyda rhai’n disgwyl i deuluoedd sy’n gallu fforddio hynny gymryd gwyliau dramor i geisio tywydd cynhesach, gan anfanteisio teuluoedd ar incwm is, twristiaeth leol, ac o bosib yr amgylchedd os bydd teithio mewn awyrennau yn cynyddu.

### 2.6.6 Diwygio'r Calendr Ysgol – datgysylltu'r Pasg

O ran datgysylltu'r Pasg, cymysg oedd y farn am hynny hefyd. Roedd y manteision yn cynnwys gwastadhau tymhorau'r gwanwyn a'r haf a chysondeb i ysgolion, yn enwedig wrth gefnogi dysgwyr mewn blynyddoedd arholiadau.

Mae anfanteision datgysylltu'r Pasg yn cynnwys y tarfu posibl gan ddau ddiwrnod o wyliau banc ychwanegol yn ystod y tymor (Dydd Gwener y Groglith a Dydd Llun y Pasg) mewn blynyddoedd pan fyddai gwyliau'r ysgol ar adeg wahanol i'r Pasg, a phroblemau posibl y gallai hyn eu hachosi i ysgolion ffydd. Dywedodd rhai rhanddeiliaid hefyd y byddai'r syniad o ddatgysylltu gwyliau'r banc, ond yn eithaf agos at y gwyliau pythefnos er hynny yn peri tarfu, ac fe allai'r gwyliau banc "ar wahân" hyn effeithio ar bresenoldeb yn ystod y tymor. Ar y nodyn hwnnw, cynhelir cystadlaethau chwaraeon i rai dysgwyr yn Lloegr yn ystod gwyliau'r Pasg, a allai beri i ddysgwyr golli'r ysgol er mwyn cystadlu, os nad yw'r gwyliau yng Nghymru a Lloegr yn digwydd yr un adeg.

Yn fwy cyffredinol, roedd y Pasg yn cael ei ystyried yn ŵyl grefyddol a theuluol bwysig. Roedd un ymatebydd yn gweld y newid arfaethedig hwn fel arwydd bod y gymdeithas yng Nghymru yn symud i ffwrdd oddi wrth y ffydd Gristnogol. O ystyried y gallai llawer o rieni gymryd gwyliau blynyddol o gwmpas y Pasg ei hun, roedd yn well gan rai gadw'r gwyliau ysgol fel y maent. Codwyd y pwynt hwn gan y sector twristiaeth hefyd, gyda rhai'n poeni am yr effaith ar drosiant staff ac efallai na fyddai datgysylltu'r Pasg yn arwain at ddau gyfle yn sgil gwyliau'r ysgol a gwyliau banc, gan y gallai rhieni ei chael hi'n anodd cael amser i ffwrdd.

### 2.6.7 Cefnogaeth i Opsiwn 2 yn gyffredinol

Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod goblygiadau i addysg bellach yn cael eu hystyried yn llawn. Mae hyn yn cynnwys yr effaith ar brentisiaethau traddodiadol, a cheisiadau ar i gyrff dyfarnu wthio dyddiadau asesu yn ôl yn nhymor yr haf er mwyn ymestyn amser addysgu a sicrhau nad yw dysgwyr addysg bellach dan anfantais. Yn ogystal, mae'r materion sy'n ymwneud â gofal plant ar gyfer contractau staff a staff hefyd yn berthnasol hefyd i ddarlithwyr addysg bellach, sydd â chontract i addysgu nifer penodol o oriau bob blwyddyn, felly byddai angen i unrhyw ddiwygiadau i'r flwyddyn ysgol ystyried hyn.

Roedd safbwyntiau eraill ar Opsiwn 2 yn cynnwys galw am asesiadau effaith pellach, dadansoddiad o oblygiadau cost pob opsiwn gan gynnwys newidiadau mewn gwariant ar athrawon cyflenwi, ystyried effeithiau diwygiadau ehangach yn y sector addysg ar lwyth gwaith, effeithiau ar recriwtio a chadw, effeithiau ar ddysgu a datblygu proffesiynol ar adegau heblaw diwrnodau HMS, ac effeithiau ar deuluoedd sy'n byw gerllaw'r ffin. Roedd galwadau hefyd i sicrhau bod cysondeb rhwng dyddiadau tymhorau ysgolion a cholegau a bod y seilwaith rheoleiddio ar waith fel na fyddai unrhyw newidiadau yn effeithio ar staff na dysgwyr. Gofynnodd rhai ymatebion, yn enwedig y rhai a oedd yn crybwyll Sioe Frenhinol Cymru, i Lywodraeth Cymru ailystyried y cynigion hyn.

### 2.6.8 Diwygio'r Calendr Ysgol – pythefnos o wyliau hanner tymor ym mis Mai / mis Mehefin

Roedd yr ymatebwyr a oedd o blaid pythefnos o wyliau hanner tymor mis Mai / mis Mehefin yn sôn am y tywydd i raddau helaeth, gyda rhai'n dweud y byddai'n well ganddynt bythefnos o wyliau yr adeg hon o'r flwyddyn nag ym mis Hydref oherwydd y tywydd mwy ffafriol. Soniwyd hefyd y byddai gwyliau pythefnos ym mis Mai / mis Mehefin yn rhoi cyfle i leihau straen i ddysgwyr sy'n paratoi neu'n sefyll arholiadau ac y gallai hefyd wasgaru ceisiadau am wyliau blynyddol gan rieni sy'n gweithio i'r cyfnod hwn yn hytrach na'u bod yn cael eu cwasgu i wyliau'r haf.

Roedd rhai o'r ymatebwyr ym amlinellu y byddent yn llai cefnogol i bythefnos o wyliau hanner tymor ym mis Mai / mis Mehefin oherwydd effaith negyddol canfyddedig ar gyfnod arholiadau'r haf. Crybwyllwyd hyn mewn perthynas â'r arholiadau a'r asesiadau y byddai dysgwyr yn eu sefyll i gyrff dyfarnu'r DU sydd y tu allan i Gymru, lle nad oes dewisiadau amgen Cymreig yn eu lle, a fyddai'n gofyn i ddysgwyr sefyll asesiadau yn ystod y gwyliau hanner tymor (estynedig). Soniwyd hefyd am yr amser cyflwyno byrrach ar gyfer cymwysterau i Flynyddoedd 11 a 13. Byddai hyn yn golygu y byddai dysgwyr mewn gwledydd eraill yn y DU yn cael pythefnos ychwanegol o amser addysgu o gymharu â'u cymheiriaid yng Nghymru. Soniwyd yn benodol am yr amserlenni ar gyfer llawer o gymwysterau galwedigaethol Lefel 3 ac ieithoedd rhyngwladol TGAU 9–1 sydd wedi'u cynllunio gyda dysgwyr yn Lloegr mewn golwg.

### 2.6.9 Diwygio’r Calendr Ysgol – dyddiau canlyniadau TGAU a Safon UG / Safon Uwch

O blith yr ymatebwyr a oedd yn credu y byddai'n fanteisiol i ddyddiau canlyniadau TGAU a Safon Uwch / Safon UG gael eu cynnal yn yr un wythnos, roedd yr ystyriaethau a restrwyd yn cynnwys amser ychwanegol a fyddai ar gael i gynnwys dysgwyr o'r ysgol yn dilyn diwrnod canlyniadau TGAU cynharach i gyd-fynd â diwrnod canlyniadau Safon Uwch. Soniwyd hefyd am y fantais o fyfyrwyr Lefel 3 yn dibynnu ar ganlyniadau TGAU am fynediad i Addysg Uwch gan y byddai'n galluogi cadarnhau eu mynediad i brifysgol ar yr un diwrnod â chyhoeddi eu cymwysterau Lefel 3.

O blith y ffactorau negyddol a restrwyd gan ymatebwyr, yr ystyriaeth fwyaf cyffredin oedd risg uwch na fyddai canlyniadau’n cael eu darparu’n gywir ac yn amserol, yn ogystal â risgiau sy'n effeithio ar allu ysgolion a cholegau addysg bellach i ddarparu'r un lefel o gefnogaeth i ddysgwyr yn ystod yr amser dan bwysau hwn. Soniwyd am yr amser, adnoddau a llwyth gwaith cynyddol i staff ysgolion allweddol, yn enwedig mewn ysgolion llai.

Yn olaf, roedd ymatebwyr eraill yn gyffredinol o blaid y diwygiad i gynnal dyddiau canlyniadau yn yr un wythnos, gyda amodau yn cael eu crybwyll. Roedd hyn yn cynnwys goblygiadau cysylltiedig ar y graddau y byddai marcwyr arholiadau ar gael, ac i CBAC ystyried a ellid gweithredu'r cynnydd mewn llwyth gwaith cydamserol yn llwyddiannus, yn enwedig o ran arholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod yr effaith gadarnhaol a gafodd ddyddiau'r canlyniadau yn ystod Covid–19 wedi ei grybwyll, roedd angen ystyried bod y newidiadau hyn o dan amgylchiadau gwahanol gyda threfniadau asesu amgen ar waith. Yn ogystal, soniwyd bod diwrnodau canlyniadau arholiadau yn ddiwrnod arbennig i bobl ifanc, felly ni ddylai unrhyw newidiadau wanhau eu profiad. Soniodd rhanddeiliaid hefyd sut y byddai angen cynllunio'r cam hwn ymlaen llaw er mwyn sicrhau nad yw staff yn cael eu gorlwytho fel rhan o'r broses hon.

### 2.6.10 Cefnogaeth i Opsiwn 3 yn gyffredinol

O'r ymatebwyr a ddangosodd eu bod yn cefnogi Opsiwn 3 yn gyffredinol, roeddent yn teimlo y byddai'r tymhorau sy'n deillio o hyn yn fwy cyson a rhagweladwy, dau ffactor sydd o fudd mawr i addysg disgyblion a llesiant dysgwyr a staff.

Roedd cryn dipyn o randdeiliaid o blaid Opsiwn 3 a'r gwelliannau canfyddedig yn sgil hynny i'r system addysg, ond gydag amodau. Roedd yr amodau hyn yn cynnwys ystyriaeth amser addysgu a dysgu a gollir i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 11 a 13, gydag eraill yn cefnogi Opsiwn 3 cyn belled nad yw unrhyw newidiadau i'r flwyddyn ysgol yn effeithio'n negyddol ar Sioe Frenhinol Cymru. Yn ogystal, pwysleisiwyd ei bod yn bwysig sicrhau nad yw unrhyw hanner tymor yn hirach nag wyth wythnos, yn ogystal â sicrhau bod effaith y cynigion ar gyfnodau arholiadau a diwrnodau canlyniadau yn cael eu hystyried yn ofalus.

Yn gyffredinol, dywedodd yr ymatebwyr a oedd yn erbyn Opsiwn 3 y dylid cynnal asesiad pellach o effeithiau'r cynigion a rhannu'r rhain, gan nad oeddent wedi'u hargyhoeddi bod y manteision a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn gorbwyso risgiau'r cynigion. Roedd goblygiadau penodol i addysg bellach hefyd, gan gynnwys integreiddio amserlenni arholiadau eraill, strwythurau prentisiaethau traddodiadol ac unrhyw effeithiau ar oriau a diwrnodau addysgu darlithwyr addysg bellach i gyflwyno'r cwricwlwm llawn. Soniwyd hefyd am effeithiau negyddol pellach ar y sector twristiaeth.

### 2.6.11 Effaith ar grwpiau penodol

Soniodd rhai rhanddeiliaid am yr effaith gadarnhaol y byddai'r cynigion yn ei chael ar y Gymraeg, gan fod cymhwysedd iaith plant sydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn cael y cyfle i siarad Cymraeg gartref yn gallu dirywio'n aml yn ystod amser i ffwrdd o'r ysgol. Roeddent yn credu y byddai gwyliau byrrach yn yr haf yn mynd rhywfaint o'r ffordd i liniaru'r mater hwn.

Roedd y rhai a soniodd am effeithiau negyddol ar y Gymraeg yn cysylltu hyn ag amseriad Sioe Frenhinol Cymru o gymharu â dyddiadau tymor arfaethedig 2025 i 2026. Roeddent yn haeru bod cysylltiad rhwng presenoldeb yn Sioe Frenhinol Cymru a chaffael iaith, ac os bydd y presenoldeb yn gostwng (er enghraifft o ganlyniad i'r Sioe yn digwydd yn ystod y tymor ysgol) gallai hyn hefyd gael effaith negyddol ar ddiwylliant Cymru.

Roedd rhanddeiliaid yn teimlo y byddai byrhau gwyliau'r haf ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Soniodd un rhanddeiliad y gall gwyliau haf hir arwain at fwy o annhegwch o ran cyrhaeddiad. Er y gall y gwyliau gynnig cyfleoedd am brofiadau cymdeithasol a diwylliannol ehangach i rai, nid yw'r rhain ar gael yn gyson ac nid ydynt ar gael i bob teulu, yn enwedig ar adeg pan fo teuluoedd yn cael trafferth gyda chostau cynyddol. Mae diffyg y gweithgareddau cyson ac ysgogol hyn, ynghyd â mynediad gwael at gyfleusterau cymunedol mewn rhai ardaloedd, yn golygu bod rhai dysgwyr ar eu colled o ran cyfleoedd i gyfoethogi eu dysg, a pherygl o lithro'n ôl yn eu haddysg yn ystod gwyliau'r haf. Dywedwyd y byddai'r plant sy'n agored i niwed y mae un sefydliad yn gweithio gyda nhw yn elwa o gymorth iechyd a llesiant mwy cyson, a mwy o oruchwyliaeth diogelwch a fyddai'n deillio o wyliau haf byrrach a allai gael effaith gadarnhaol ar leihau'r angen am geisiadau brys i'r llys am fynd â phlant i ofal ar ôl gwyliau'r haf. Fodd bynnag, gallai canlyniad anfwriadol ymestyn hyd  gwyliau eraill gynyddu ceisiadau brys ar wahanol adegau o'r flwyddyn i ddysgwyr bregus.

Roedd ffactorau negyddol a restrir mewn perthynas â dysgwyr dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn ymwneud â'r costau gwresogi ychwanegol yn ystod gwyliau hanner tymor estynedig ym mis Hydref. Soniwyd hefyd am y goblygiadau negyddol posibl ar drefniadau llysoedd teulu ar orchmynion llys presennol, ac i deuluoedd sydd wedi gwahanu gyda brodyr a chwiorydd sy'n byw dros y ffin yn Lloegr.

Er mwyn cefnogi'r dysgwyr hyn, soniodd rhanddeiliaid y byddai angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adnoddau fel clybiau gwyliau a ariennir yn cael eu darparu i gefnogi llesiant ac atal colli dysg.

Soniodd rhai rhanddeiliaid am ddryswch ynghylch sut y byddai'r cynigion yn gweithio i ddysgwyr hŷn ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 lle byddai wythnos o addysgu yn cael ei chymryd o fis Hydref a'i hychwanegu at fis Gorffennaf, fel yn Opsiwn 2, a lle byddai wythnos o addysgu yn cael ei chymryd o fis Mai a'i hychwanegu at fis Gorffennaf yn Opsiwn 3. Roeddent yn esbonio y byddai'r dosbarthiadau arholi hyn yn y sector ysgolion uwchradd yn colli pythefnos o addysgu mewn blynyddoedd arholiadau pwysig. Roedd rhanddeiliad arall yn ansicr a fyddai'r cynlluniau hefyd yn effeithio ar golegau addysg bellach sy'n cynnig pynciau analwedigaeth i bobl ifanc 16–18 oed sy'n mynychu ysgolion.

O ran goblygiadau'r cynigion ar ddysgwyr sydd ag ADY, soniwyd am sawl ffactor gan randdeiliaid. Roedd gwyliau haf ac amseroedd tymor mwy strwythuredig yn cael eu gweld fel rhywbeth cadarnhaol i ddysgwyr sydd ag ADY gan y byddai'r rhain yn hyrwyddo strwythur a threfn, sy'n cael ei leihau yn ystod gwyliau'r ysgol. Fodd bynnag, teimlai'r rhai a oedd o’r farn y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar ddysgwyr sydd ag ADY y gall colli dysg ac effeithiau ddigwydd yn ystod unrhyw gyfnod o wyliau, nid gwyliau hir yr haf yn unig. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid o’r farn y byddai angen mwy o gefnogaeth i ddysgwyr sydd ag ADY yn ogystal â lleihau pwysau arholiadau ac asesiadau.

O ran dysgwyr sydd mewn unedau cyfeirio disgyblion, roedd rhai rhanddeiliaid yn sôn am yr effeithiau negyddol credent y byddai'r cynigion yn eu cael. Roedd hyn yn cynnwys y byddai’n well i ddysgwyr sydd mewn unedau cyfeirio disgyblion gael gwyliau hirach o amgylchedd yr ystafell ddosbarth gan mai nhw yw'r grwpiau sy’n ei chael yn fwyaf anodd, eu bod yn hoffi bod yn yr awyr agored yn hytrach nag yn gaeth gartref yn yr hyn sy'n aml yn amodau tai gwael, a bod eu rôl fel athrawon unedau cyfeirio disgyblion yn hynod heriol. Roedden nhw'n teimlo mai gwyliau'r haf yw'r unig dro maen nhw'n teimlo y gallan nhw ymlacio o ddifrif.

### 2.6.12 Effaith ar sectorau penodol

Yn ogystal â'r ffactorau a grybwyllwyd eisoes o fewn yr opsiynau penodol a restrir uchod, roedd rhanddeiliaid twristiaeth yn teimlo y byddai’r cynigion yn cael sawl effaith ychwanegol. Roedd rhai rhanddeiliaid twristiaeth yn teimlo na ellir ystyried effaith y cynigion ar eu pen eu hunain ac yn hytrach bod angen eu hystyried fel un elfen ymhlith nifer o bolisïau eraill Llywodraeth Cymru, gan nodi polisïau fel yr ardoll ymwelwyr a'r cynllun cofrestru a thrwyddedu ar gyfer pob llety ymwelwyr yng Nghymru sydd eisoes yn cael effaith negyddol gronnol ar y sector. Roedden nhw'n dadlau y byddai'r cynigion penodol hyn yn cael ‘sgil-effaith' ar ymwelwyr a thrigolion yn ogystal â dysgwyr.

Roedd rhanddeiliaid twristiaeth yn sôn am yr effaith y gallai'r cynigion ei chael ar y farchnad wyliau deuluol, gan sôn am ddata cyhoeddedig Llywodraeth Cymru yn amlinellu bod y farchnad gwyliau teuluol domestig yn hawlio cyfran uwch o'r farchnad gyffredinol nag y mae mewn rhannau eraill o'r DU, gan wneud effaith unrhyw newid i'r flwyddyn ysgol yn fwy amlwg. Fe wnaethant hefyd grybwyll y byddai'n rhaid i brisiau godi i liniaru’r golled o wythnos wyliau yn nhymor brig yr haf, ac na fyddai'r buddion 'yn cael eu hatgynhyrchu gan wythnos arall pan fydd dyddiau'n fyrrach, yn oerach ac yn wlypach'. Rhestrir hyn gan ragweld gostyngiad o 80 y cant mewn refeniw wrth gymharu wythnos gyntaf mis Gorffennaf â'r wythnos ychwanegol arfaethedig ym mis Hydref.

Soniwyd yn benodol hefyd am y sector gwaith ieuenctid gan rai rhanddeiliaid a oedd yn codi'r pwynt y byddai defnyddio gwasanaethau ieuenctid i fonitro disgyblion bregus yn llawer mwy buddiol ac yn llai costus yn ariannol na newid system 'sydd wedi gweithio ers canrifoedd'. Roedd cwestiwn hefyd ynghylch sut y byddai'r gwyliau blynyddol i weithwyr ieuenctid yn cael ei ystyried o fewn yr opsiynau a gynigir.

### 2.6.13 Awgrymiadau amgen ar gyfer y calendr

Nodwyd nifer o awgrymiadau amgen ar gyfer y calendr gan randdeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys dechrau tymor yr Hydref yn gynharach (ar ddiwedd mis Awst) a gwahanu'r ddwy wythnos arfaethedig o wyliau hanner tymor yn nhymor yr Hydref a amlinellir yn Opsiwn 2. Roedd sawl rhanddeiliad hefyd yn sôn am sicrhau bod gwyliau'r Nadolig yn dechrau'n gynt, gan eu bod yn teimlo eu bod wedi dechrau'n rhy agos at y Nadolig yn 2023. Un awgrym ar gyfer sicrhau bod gwyliau'r Nadolig yn gynharach oedd tynnu un wythnos o ddiwedd tymor yr Hydref ac ymestyn hanner byr tymor y gwanwyn. Soniodd un ymatebydd sut y byddai'n well ganddyn nhw ymestyn gwyliau'r Nadolig na phythefnos o wyliau hanner tymor ym mis Hydref.

Soniodd rhanddeiliaid eraill y byddai'n well ganddynt bythefnos o wyliau ym mis Chwefror, neu gael pythefnos o wyliau hanner tymor ym mis Mai yn lle pythefnos o wyliau hanner tymor ym mis Hydref. Roedd hyn yn wahanol i randdeiliaid eraill a oedd yn ffafrio gwyliau haf estynedig, gan ddechrau gwyliau'r haf ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf er mwyn cael tywydd gwell, gan ychwanegu darpariaeth ysgol haf, a ffafrio addysgu drwy gydol y flwyddyn, neu ddechrau'r flwyddyn ysgol ym mis Ionawr.

Soniodd sawl ymatebydd hefyd yr hoffent gael Dydd Gŵyl Dewi fel Gŵyl y Banc yng Nghymru, yn ogystal â chynnwys diwrnod canlyniadau TGAU a Safon Uwch yn ystod y tymor fel na byddai'n ofynnol i athrawon a staff ddod i'r ysgol yn ystod y gwyliau.

Yn olaf, soniodd rhai ymatebwyr am eu hawydd i Lywodraeth Cymru adolygu strwythur y diwrnod ysgol, gan gynnwys ystyriaethau ar gyfer amseroedd cychwyn dyddiol i ysgolion, hanner diwrnodau i bontio'n ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau, ac ystyried hanner diwrnod ar ddydd Gwener, gan grybwyll mai dyma sy'n digwydd yn yr Alban a Ffrainc.

### 2.6.14 Sylwadau ychwanegol

Wrth ystyried y diwygiadau arfaethedig i'r flwyddyn ysgol, fe wnaeth rhanddeiliaid sylwadau ychwanegol hefyd ar yr ymgynghoriad.

Roedd rhai'n awgrymu, o ystyried costau byw cynyddol, fod diwygio blwyddyn ysgol yn fater llai pwysig na mesurau cymorth mwy effeithiol eraill y gellid eu rhoi ar waith ar gyfer teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd, gan gynnwys ymestyn cyfleoedd am ddarpariaeth bwyd drwy wyliau'r haf, galluogi mwy o gyfleoedd am ofal plant fforddiadwy ac ymestyn rhaglenni i alluogi darparu cludiant cyhoeddus fforddiadwy i blant a rhieni er mwyn lleihau baich ariannol gwyliau hir yr haf.

Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo nad oedd digon o dystiolaeth i gefnogi'r newidiadau arfaethedig a bod gan wledydd eraill sydd â gwyliau haf hirach na Chymru ganlyniadau dysgu gwell. Yn ogystal, teimlwyd bod tystiolaeth a nodwyd fel astudiaeth Beaufort (2022) wedi'i chyfyngu i edrych ar agweddau tuag at y flwyddyn ysgol yn unig, a oedd yn awgrymu bod y rhan fwyaf o bobl yn hapus gyda'r drefn bresennol. Hefyd, roedd yr ymatebwyr yn amau rhesymeg diwygio'r flwyddyn ysgol, gan nodi na fyddai hyd y tymhorau'n gyfartal o dan y newidiadau arfaethedig ar gyfer 2025/26.

Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd gan undebau a sefydliadau yn y sector twristiaeth sy'n tynnu o ddata'r arolwg yn amlygu amharodrwydd busnesau i gyd-drafod â Llywodraeth Cymru oherwydd blino ar ymgyngoriadau yn sgil nifer y newidiadau arfaethedig gan Lywodraeth Cymru a'r graddau o ddiystyru tystiolaeth mewn ymgyngoriadau blaenorol.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo mai cymhellion gwleidyddol oedd y tu ôl i newidiadau arfaethedig i'r flwyddyn ysgol, ac nad oeddent yn mynd i'r afael â'r hyn y barnwyd oedd achos sylfaenol problemau llesiant, sef llwyth gwaith, cyfyngiadau ariannu a thanbrisio staff cymorth ysgolion. Y teimlad oedd y bydd goblygiadau ehangach i'r gweithlu a'r dysgwyr o ganlyniad a streiciau posib gan undebau os bydd y cynigion yn mynd yn eu blaen.

Gofynnodd un ymateb ar ran sefydliad i Lywodraeth Cymru dynnu'r cynigion ar gyfer diwygio blwyddyn ysgol yn ôl ac ailgyfeirio ymdrechion tuag at gynnal asesiad effaith economaidd o'r trothwy 182 diwrnod ac asesiad effaith cronnol.[17]

Roedd ymatebwyr o undebau'n nodi pwysigrwydd cadw at delerau ac amodau presennol staff fel y'u hamlinellir yn y Llyfr Bwrgwyn. Roeddent yn awgrymu y byddai angen adolygu dyddiadau a nodir yn Llyfr Bwrgwyn, a fyddai â goblygiadau ehangach ar amserau a

[17] Mae'r trothwy 182 diwrnod yn cyfeirio at ardrethi annomestig ar gyfer eiddo hunanarlwyo yng Nghymru lle mae'n rhaid gosod eiddo am 182 diwrnod y flwyddyn i fod yn gymwys ar gyfer ardrethi annomestig. Os caiff ei osod am lai na 182 diwrnod mae'r eiddo yn cael ei ystyried yn ddomestig a'r perchennog yn atebol i dalu treth gyngor.

phatrymau gwaith gan gynnwys cyfnodau rhybudd a dyddiadau y cyfrifir cyflogau ohonynt. Y teimlad oedd y byddai 'newid mor sylweddol' o drefniadau’r Llyfr Bwrgwyn yn mynd yn groes i'r cytundeb cyfunol presennol sydd ar waith ac a allai roi sail dros hawliadau yn erbyn diswyddo deongliadol annheg i’r rhai yr effeithir arnynt. Roedd pryderon y byddai’r newidiadau hyn yn cael oblygiadau hefyd o ran cadw staff cymorth sydd eisoes â phryderon ynghylch cael eu hail-gyflogi ar gontract newydd neu orfod ail-gyfweld ar gyfer eu rôl ac efallai y byddant yn penderfynu ceisio telerau diswyddo yn lle hynny gan arwain at golli arbenigedd yn y sector.

Teimlai un ymatebydd fod cynllun yr ymgynghoriad wedi'i gyfyngu gan ddiffyg opsiwn ymateb niwtral ar gyfer ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad.

# 3 Casgliad

### 3.1.1 A allai calendr y flwyddyn ysgol gael ei strwythuro'n well i fynd i'r afael ag anfantais, a chefnogi cynnydd, llesiant a’r ffordd rydym yn byw heddiw?

Mae canlyniadau arolwg yr ymgynghoriad yn awgrymu, o'r opsiynau arfaethedig, y gallai'r calendr ysgol fod wedi'i strwythuro'n well o ran cefnogi’r ffordd rydym yn byw heddiw (C1 58.42%), mynd i’r afael ag anfantais (C2 54.72% a C3 55.39%) a chefnogi llesiant (C4 59.58%).

Adroddodd rhanddeiliaid am amryw o broblemau gyda'r calendr ysgol presennol. Mae hyd tymor yr hydref yn achosi blinder ac yn effeithio'n negyddol ar lesiant. Mae tymhorau sy’n anghyson o ran hyd yn rhwystr i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae dosbarthiad anwastad gwyliau ysgol yn rhwystr i rieni gyda hyn yn fwyaf llym i deuluoedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

I rai, mae cryfderau i'r calendr presennol. Mae wedi'i sefydlu ers cymaint o amser fel bod amryw o sectorau wedi addasu o'i gwmpas gyda'r gwyliau ysgol presennol yn y gwanwyn a'r haf yn gweithio'n dda ar gyfer sectorau twristiaeth a digwyddiadau. Mae arholiadau wedi'u trefnu o gwmpas y flwyddyn ysgol bresennol ac mae staff addysg yn gweithio i’r trefniadau hyn. Mae elfen o ddisgwyl bod un gwyliau haf hirach yn well na’r opsiynau eraill a gyflwynir wrth fynd i'r afael â phryderon blinder a llesiant rhwng blynyddoedd academaidd gan fod staff yn parhau i weithio drwy wyliau eraill a rhan o'r haf.

Mae'r tensiynau hyn yn golygu, er gwaethaf y ffigurau mwyafrifol a nodir uchod a'r lefelau uchel o ddiddordeb yn y cynigion ymysg gwahanol ymatebion i'r ymgynghoriad a'r cyfryngau cymdeithasol, bod Opsiwn 1, cynnal y flwyddyn ysgol bresennol yn dal i gael ei ffafrio (gweler C9 52.28%). Roedd y rhai a oedd o blaid Opsiwn 1 yn gyffredinol yn cynnwys rhanddeiliaid ysgolion a'r sector twristiaeth nad oeddent yn argyhoeddedig bod y rhesymeg dros y newidiadau arfaethedig yn werth symud oddi wrth y status quo. Roedd y rhai nad oedd o blaid Opsiwn 1 yn gyffredinol yn cynnwys rhieni ac awdurdodau lleol a oedd yn adleisio’r rhesymeg a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori fel tystiolaeth dros gefnogi newidiadau. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i gefnogi llesiant dysgwyr ac athrawon yn well, cefnogi patrymau byw a gweithio modern yn well a lleihau blinder.

### 3.1.2 Pa effeithiau y mae rhanddeiliaid yn rhagweld y byddai'r strwythurau blwyddyn ysgol amgen arfaethedig yn eu cael arnynt, yn y tymor byr ac yn fwy hirdymor?

Mae barn rhanddeiliaid ar yr effeithiau yn amrywio gan ddibynnu ar y cyd-destun a’r manylion penodol o fewn y strwythurau arfaethedig.

Roedd y rhai a oedd o blaid pythefnos o wyliau hanner tymor yn yr hydref yn nodi’r effeithiau cadarnhaol posibl ar lesiant dysgwyr, a fyddai’n cynnwys lleihad mewn blinder a salwch ymhlith dysgwyr.

Roedd y rhai a oedd yn erbyn gwyliau hanner tymor arfaethedig o bythefnos yn yr hydref un sôn sut nad oedd unrhyw fuddion a ddeuai yn ystod y gwyliau wythnos ychwanegol hyn yn werth yr aberth o wythnos yn llai o wyliau'r haf. Y farn oedd bod y gwyliau pythefnos yn rhy hir, yn enwedig i rai dysgwyr iau, dysgwyr ag ADY a dysgwyr mewn blynyddoedd arholiad, a chafodd y tywydd salach a'r lleihad yn oriau golau dydd ei grybwyll yn aml gan yr holl randdeiliaid. Teimlai rhieni y byddai cynnydd mewn biliau gwresogi a chostau gofal plant yn gorbwyso unrhyw fanteision o’r gwyliau hyn. Nid oedd rhanddeiliaid twristiaeth yn gweld dim ond effaith negyddol sylweddol, yn enwedig i fusnesau twristiaeth bach, a digwyddiadau tymhorol ac awyr agored fel Sioe Frenhinol Cymru.

Mynegwyd graddau helaeth o gefnogaeth ymysg grwpiau rhanddeiliaid i wyliau Pasg a fyddai wedi eu datgysylltu â gwyl gyhoeddus y Pasg, ar y sail y byddai’n rhoi rhywfaint o

sefydlogrwydd, ei gwneud yn haws cynllunio ac yn rhoi cysondeb dyddiadau tymhorau o flwyddyn i flwyddyn. Byddai gwyliau hwyrach yn y gwanwyn nag a geir mewn rhai blynyddoedd o fudd i dwristiaeth ac yn atal tymor gwanwyn cywasgedig, byr, i staff addysg a dysgwyr.

Fodd bynnag, roedd rhai safbwyntiau cymysg ar yr effaith ar deuluoedd sy'n agos at ffin â Lloegr, ynghylch a fyddai hyn yn arwain at hwb i dwristiaeth a'r effaith bosibl ar golli statws 'gwarchodedig' gwyliau'r Pasg, gan ei gwneud yn llai gweladwy o fewn y gymdeithas yng Nghymru ac mewn ysgolion eglwysig. Os gweithredir y newid hwn o ddatgysylltu gwyliau’r Pasg, byddai angen cyfleu hyn yn dda i randdeiliaid, wrth i rywfaint o ddryswch ynghylch goblygiadau'r ddau ddiwrnod Gŵyl y Banc 'ychwanegol' gael ei grybwyll.

Roedd llawer o randdeiliaid yn pryderu am effaith bosibl gwyliau hanner tymor pythefnos ym mis Mai / mis Mehefin ar ddyddiadau arholiadau ac ar berfformiad dysgwyr. Roedd rhanddeiliaid addysgu a'r sector addysg ehangach yn teimlo y byddai'r gwyliau hyn yn cael effaith negyddol ar arholiadau drwy golli amser dysgu a phryder y byddai hyn yn effeithio'n anghymesur ar fyfyrwyr difreintiedig a'r rhai ag ADY, nad ydynt bob amser yn gallu astudio y tu allan i'r ysgol.

Y tu hwnt i arholiadau, roedd y tywydd cynhesach yn cael ei ystyried fel rhywbeth cadarnhaol yn bennaf gyda rhieni a dysgwyr, gyda rhai yn dweud y byddai’n well ganddynt gael pythefnos o wyliau’r adeg yma yn hytrach nag ym mis Hydref oherwydd y tywydd a'r effaith ar gyfleoedd am wyliau.

Yn gyffredinol, barn llawer o grwpiau rhanddeiliaid oedd y byddai byrhau gwyliau'r haf er mwyn caniatáu ymestyn gwyliau’r hydref a/neu wyliau mis Mai yn achosi effaith negyddol. I rai yn y byd addysg, roedd cyfyngu pellach ar hyblygrwydd staff oherwydd cyfrifoldebau sy'n weddill, ac oedi dechrau gwyliau'r haf, yn cael ei weld fel rhywbeth sy’n peri risg i recriwtio a chadw staff ysgolion. I nifer fach o randdeiliaid y gweithlu addysg a'r rhan fwyaf o randdeiliaid twristiaeth, nid oedd ailgydbwyso wythnosau yn gynnig cyfwerth, gan fod amser ychwanegol yn yr hydref yn fwy gwerthfawr yn yr ysgol ar gyfer addysgu a dysgu ac yn llawer llai gwerthfawr i dwristiaeth fel gwyliau. Ac eithrio yn yr achos hwn a’r pryder am arholiadau a grybwyllwyd uchod, yn gyffredinol ni wnaeth rhanddeiliaid sylwadau i’r perwyl fod y cynigion yn creu effaith negyddol ar allu academaidd.

Roedd symud diwrnodau canlyniadau arholiadau i’r un wythnos ar gyfer TGAU a Safon Uwch yn boblogaidd (C8 69.18%) ond ni ragwelwyd yr effeithiau yn llawn gan nad oedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys manylion ar sut y byddai trefniadau yn gwneud hyn yn bosibl. Roedd disgwyliadau yn gymysg o ran pryderon am effaith ar lwyth gwaith neu obeithion y byddai'n lleihau'r amser y byddai angen i staff addysg i weithio yn ystod gwyliau'r haf.

O ran effeithiau'r opsiynau arfaethedig ar y Gymraeg, cymysg oedd y farn. Er bod cyfran o'r ymatebwyr, a mwyafrif yr ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg Hawdd ei Ddeall, yn teimlo na fyddai'r cynigion hyn yn effeithio ar y Gymraeg, tynnodd eraill sylw at y ffaith y gallai gwyliau byrrach yn yr haf leihau colli’r hyn a ddysgwyd a gwella’r graddau mae dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn dal gafael ar yr iaith. Roedd sylwadau eraill yn ymwneud â sut y gallai diwygiadau posibl i'r flwyddyn ysgol effeithio ar gyfleoedd i ddysgwyr ddod i gysylltiad â'r Gymraeg, gan gynnwys mewn digwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Frenhinol Cymru sy'n bwysig i ddiwylliant Cymru.

### 3.1.3 Pa newidiadau penodol, os o gwbl, fyddai'n fwyaf effeithiol er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng gwahanol anghenion a phryderon rhanddeiliaid?

Mae anghenion a phryderon rhanddeiliaid yn gymysg ac ychydig iawn o gonsensws rhwng pawb yn eu cylch. Yn yr arolwg nid oedd pob dosbarth demograffig o blaid Opsiwn 3 a dim ond gweithwyr rhan-amser oedd o blaid Opsiwn 2. Eto, yn ôl y grwpiau ffocws, roedd rhieni i

raddau helaeth o blaid newid, wedi eu rhannu rhwng Opsiynau 2 a 3 yn bennaf. Roeddent yn croesawu newidiadau y disgwylid iddynt fod o fudd i'w gallu i ymdrin â gofal plant, manteision llesiant posibl i ddysgwyr difreintiedig, y rhai ag ADY, a'r rhai mewn cymunedau gwledig.

Roedd llywodraethwyr ysgolion a gweithwyr ieuenctid hefyd yn gyffredinol o blaid Opsiwn 2, gyda'r ddau grŵp yn tynnu sylw at bryder ynghylch darpariaeth gwyliau mewn gwyliau hanner tymor hirach yn yr hydref, ond roedd ganddynt rai pryderon ynghylch graddau'r newid yn Opsiwn 3. Roedd darpariaeth gwyliau yn fater allweddol i weithwyr ieuenctid, gyda phryderon am gyllid ar gyfer darpariaeth yr haf ac a fyddai gweithgareddau i gymryd eu lle ym mis Hydref a mis Mai/ mis Mehefin pe bai Opsiwn 3 yn cael ei weithredu.

Roedd rhanddeiliaid twristiaeth mewn grwpiau ffocws yn croesawu datgysylltu gwyliau'r gwanwyn oddi wrth y Pasg (yn groes i ganfyddiadau'r arolwg ar gyfer C6 a thwristiaeth) ond roeddent yn gwrthwynebu'n gryf yr holl newidiadau eraill yn Opsiwn 2, yn bennaf oherwydd gwrthwynebiad i fyrhau gwyliau'r haf a cholli wythnos o fasnachu yn y tymor brig.

Ymhlith y rhai a wrthwynebai roedd y rhan fwyaf o staff ysgolion a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws, yn ogystal ag undebau addysg. Amlygwyd amharodrwydd i gwtogi gwyliau'r haf oherwydd yr angen am wyliau hir i staff ddadflino a'r ffaith bod y rhan fwyaf o staff eisoes yn gweithio drwy o leiaf rywfaint o'r gwyliau chwe wythnos. Roedd yr effaith bosibl ar recriwtio a chadw staff yn bryder cyffredin. Roedd staff ysgolion a chynrychiolwyr undebau yn amheus a fyddai unrhyw un o'r diwygiadau arfaethedig o fudd i lesiant dysgwyr nad yn lleihau'r graddau o golli dysg, ac roedd ganddynt bryderon ynghylch tarfu ar gyfnod trwm cyflwyno'r cwricwlwm yn nhymor yr hydref. Roedd undebau addysg a staff ysgolion yn gwrthwynebu Opsiwn 3 i raddau helaeth, gydag undebau yn tanlinellu'r angen i sicrhau parch at gytundebau contractau a staff yn tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng wythnos yn nhymor yr hydref ac wythnos yn nhymor yr haf o ran paratoi at arholiadau. Roedd yn well gan ysgolion ac undebau y drefn bresennol (Opsiwn 1) yn bennaf ac yn gweld rhai o'r diwygiadau arfaethedig fel symud heriau i wahanol rannau o'r flwyddyn yn hytrach na'u datrys.

Roedd cyfweliadau yn gweld Opsiwn 2 fel "cyfaddawd hapus" gydag ymatebion cadarnhaol gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys ynghylch effeithiau ar leoliadau cyfrwng Cymraeg. Roedd y prif bryderon a amlygwyd mewn cyfweliadau yn ymwneud ag effaith Opsiwn 2 ar y system arholiadau, gyda'r potensial i liniaru pwysau ar lesiant dysgwyr blwyddyn arholiad ond y gallent gael effaith negyddol ar staff. Pwysleisiodd y rhai a gyfwelwyd effeithiau Opsiwn 3 ar y system arholiadau, yn benodol o ran cael digon o farcwyr arholiad gyda gwyliau byr yn yr haf ac un wythnos ganlyniadau, ond yn tynnu sylw hefyd at y potensial i leihau'r graddau o golli dysg. Roedd rhai rhanddeiliaid yn disgwyl i rai dysgwyr a staff ysgolion uwchradd, dysgwyr difreintiedig, a rhieni elwa o'r gwyliau mwy cyfartal, ond roedd pryder ynghylch yr effaith ar fusnesau bach, lletygarwch a thwristiaeth. Mae data'r grwpiau ffocws yn dangos bod rhanddeiliaid awdurdodau lleol a blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn ffafrio Opsiwn 3. Roedd yn well gan randdeiliaid blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae Opsiwn 3 oherwydd ei allu i wasgaru costau a phwysau staffio gofal plant drwy gydol y flwyddyn ond roeddent yn pryderu am staffio darpariaeth Blynyddoedd Cynnar gyda chynorthwywyr addysgu mewn gwyliau o bedair wythnos yn yr haf. Fe wnaeth Opsiwn 3 godi pryderon am gymunedau ar ffin â Lloegr, gan gynnwys staffio ysgolion arbennig.

### 3.1.4 Pa opsiynau gweithredu ar gyfer unrhyw newidiadau i strwythur y flwyddyn ysgol fyddai'r mwyaf a'r lleiaf effeithiol a ffafriol? Pam?

O blith Opsiynau 1, 2, a 3 nid oes unrhyw opsiwn clir a ffefrir yn amlwg. Opsiwn 1 yw'r mwyaf ffafriol yn yr arolwg (52.58%), ond roedd rhanddeiliaid yn fwy agored i newid yn y grwpiau ffocws. O ran y dyddiadau tymor penodol ar gyfer 2025 a 2026 ar gyfer Opsiynau 2

a 3 a gynigiwyd yng nghwestiwn 12 yr ymgynghoriad, roedd dros hanner (52.85%) yr ymatebwyr yn gwrthwynebu'r dyddiadau hyn. Roedd ymatebwyr a chyfranogwyr hefyd yn cynnig rhai cynigion amgen ar gyfer diwygiadau i'r flwyddyn ysgol. Roedd rhai yn cynnwys cyfuniad gwahanol o elfennau arfaethedig Opsiynau 1, 2, a 3. Er enghraifft, cefnogaeth i ddatgysylltu'r Pasg heb newid unrhyw elfennau eraill o'r calendr, neu ffafrio gwyliau haf pum wythnos gyda phythefnos o wyliau hanner tymor ym Mai/Mehefin yn lle ym mis Hydref. Roedd eraill yn canolbwyntio ar ddiwygiadau gwahanol, megis ymestyn gwyliau'r Nadolig i dair wythnos, sefydlogi gwyliau'r Nadolig i ddechrau ar adeg benodol ym mis Rhagfyr er mwyn osgoi rhedeg yn ystod y tymor yn agos at Noswyl Nadolig, dechrau'r flwyddyn ysgol yn hwyrach ym mis Medi, neu ddechrau gwyliau'r haf yn gynharach er mwyn manteisio ar dywydd gwell. Galwodd rhai am i Ddydd Gŵyl Dewi ddod yn ŵyl banc. Thema gyffredin oedd yr angen am gymorth ychwanegol i ddysgwyr, yn enwedig dysgwyr difreintiedig a'r rhai ag ADY, yn ystod gwyliau ysgol.

O'r newidiadau arfaethedig, cael diwrnodau canlyniadau arholiadau ar gyfer TGAU a Safon Uwch yn yr un wythnos yw’r un sy’n cael ei ffafrio fwyaf gan randdeiliaid, er na chynhwyswyd canllawiau ar sut i weithredu hyn yn yr ymgynghoriad a hefyd nid oedd y rhanddeiliaid eu hunain yn archwilio'r effeithiau yn llawn.

Oherwydd yr adborth cymysg iawn, ac anghyson weithiau, i'r ymgynghoriad, mae'n anodd bod yn sicr pa un o'r 3 opsiwn a gynigir yn yr ymgynghoriad fyddai'r mwyaf, na’r lleiaf, effeithiol. Cytunai mwy na hanner yr ymatebion i'r arolwg y gallai’r calendr ysgol fod wedi'i strwythuro'n well i fynd i'r afael ag anfantais, a chefnogi cynnydd, llesiant a’n ffordd o fyw heddiw, tra bod mwy na hanner (er ychydig yn llai) o'r ymatebion i'r arolwg yn ffafrio Opsiwn 1 o gynnal y flwyddyn ysgol bresennol. Roedd ymatebion i’r arolwg yn sefydlogi i batrwm o wythnos 8 ymlaen, a chyn yr wythnos honno cafwyd mwy o ymatebion o blaid Opsiwn 2 heb ddim un opsiwn yn cael ei ffafrio gan fwy na hanner yr ymatebion cyn yr wythnos honno. Mae'r ymchwil ansoddol yn dangos darlun mwy cymhleth gyda rhieni, llywodraethwyr ysgolion a gweithwyr ieuenctid o blaid newid ar y naill law, a rhanddeiliaid twristiaeth, y gweithlu addysg a'r undebau addysg yn erbyn newid ar y llaw arall. Mae effeithiau disgwyliedig unrhyw newidiadau yn amrywiol, yn aml yn ddibynnol ar randdeiliaid, ac yn aml heb fod yn canolbwyntio ar gyflawniad, cyrhaeddiad a dilyniant academaidd. Nid oes fawr o gonsensws ym marn a rhagdybiaethau rhanddeiliaid, a chynrychiolir hyn yn glir gan y rhaniad agos 50/50 ar sawl cwestiwn.

# 4 Atodiadau

## 4.1 Ymatebion i'r ymgynghoriad

**Tabl 4.1.1 - Cwestiwn 1 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi'r ffordd rydym yn byw, yn dysgu ac yn gweithio heddiw?**

| Cwestiwn 1 | Cytuno'n gryf % | Cytuno % | Anghytuno % | Anghytuno'n gryf % | Heb ei ateb % | cytuno ac yn cytuno'n gryf % | Anghytuno ac anghytuno'n gryf % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob ymateb | 34.39 | 24.03 | 13.57 | 27.19 | 0.82 | 58.42 | 40.76 |
| Gweithlu addysg | 29.78 | 27.18 | 14.18 | 28.34 | 0.51 | 56.97 | 42.52 |
| Rhieni / Gofalwyr | 38.99 | 12.50 | 12.50 | 25.32 | 10.70 | 51.48 | 37.81 |
| Gweithiwr llawn amser | 35.55 | 23.54 | 12.61 | 27.51 | 0.77 | 59.10 | 40.13 |
| Gweithiwr rhan amser | 41.99 | 25.21 | 13.57 | 18.62 | 0.61 | 67.19 | 32.19 |
| Sector twristiaeth | 18.96 | 21.93 | 15.99 | 42.01 | 1.12 | 40.89 | 57.99 |
| Sector gofal plant | 37.16 | 25.96 | 11.63 | 24.54 | 0.71 | 63.12 | 36.17 |
| 17 oed ac iau | 36.27 | 26.56 | 12.78 | 23.69 | 0.69 | 62.83 | 36.47 |

**Tabl 4.1.2 - Cwestiwn 2 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi dysgwyr sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol?**

| Cwestiwn 2 | Cytuno'n gryf % | Cytuno % | Anghy-tuno % | Anghy-tuno'n gryf % | Heb ei ateb % | Cytuno ac yn cytuno'n gryf % | Anghytuno ac anghytuno'n gryf % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob ymateb | 27.57 | 27.14 | 18.58 | 25.45 | 1.26 | 54.72 | 44.02 |
| Gweithlu addysg | 24.27 | 28.80 | 19.38 | 26.83 | 0.72 | 53.07 | 46.21 |
| Rhieni / Gofalwyr | 31.86 | 26.49 | 17.31 | 23.42 | 0.92 | 58.36 | 40.72 |
| Gweithiwr llawn amser | 28.15 | 26.68 | 18.28 | 25.85 | 1.03 | 54.83 | 44.14 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithiwr rhan amser | 33.55 | 30.74 | 17.39 | 17.00 | 1.32 | 64.30 | 34.39 |
| Sector twristiaeth | 13.94% | 24.16 | 20.63 | 37.36% | 3.90 | 38.10 | 57.99 |
| Sector gofal plant | 32.62 | 28.37 | 14.47 | 23.26 | 1.28 | 60.99 | 37.73 |
| 17 oed ac iau | 28.64 | 30.33 | 16.95 | 23.19 | 0.89 | 58.97 | 40.14 |

**Tabl 4.1.3 – Cwestiwn 3 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)?**

| Cwestiwn 3 | Cytuno'n gryf % | Cytuno % | Anghy-tuno % | Angh-ytuno'n gryf % | Heb ei ateb % | Cytuno ac yn cytuno'n gryf % | Anghytuno ac anghytuno'n gryf % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob ymateb | 28.33 | 27.06 | 18.67 | 24.57 | 1.37 | 55.39 | 43.24 |
| Gweithlu addysg | 24.46 | 28.34 | 20.42 | 26.17 | 0.60 | 52.80 | 46.59 |
| Rhieni / Gofalwyr | 33.15 | 26.25 | 16.77 | 22.76 | 1.07 | 59.40 | 39.53 |
| Gweithiwr llawn amser | 28.46 | 26.87 | 18.53 | 25.04 | 1.09 | 55.34 | 43.57 |
| Gweithiwr rhan amser | 34.87 | 30.87 | 16.60 | 15.94 | 1.71 | 65.74 | 32.54 |
| Sector twristiaeth | 15.06 | 24.54 | 21.75 | 34.39 | 4.28 | 39.59 | 56.13 |
| Sector gofal plant | 34.89 | 28.51 | 13.90 | 21.42 | 1.28 | 63.40 | 35.32 |
| 17 oed ac iau | 30.72 | 30.53 | 16.65 | 21.11 | 0.99 | 61.25 | 37.76 |

**Tabl 4.1.4 - Cwestiwn 4 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi llesiant athrawon a/neu ddysgwyr a lleihau blinder?**

| Cwestiwn 4 | Cytuno'n gryf % | Cytuno % | Anghy-tuno % | Anghy-tuno'n gryf % | Heb ei ateb % | Cytuno ac yn cytuno'n gryf % | Anghytuno ac anghytuno'n gryf % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob ymateb | 35.47 | 24.11 | 14.11 | 25.21 | 1.09 | 59.58 | 39.33 |
| Gweithlu addysg | 37.14 | 23.44 | 12.93 | 25.79 | 0.70 | 60.58 | 38.73 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhieni / Gofalwyr | 38.30 | 24.24 | 13.27 | 23.50 | 0.69 | 62.54 | 36.77 |
| Gweithiwr llawn amser | 35.95 | 23.47 | 13.77 | 25.93 | 0.89 | 59.42 | 39.70 |
| Gweithiwr rhan amser | 41.19 | 27.45 | 13.39 | 16.91 | 1.05 | 68.64 | 30.30 |
| Sector twristiaeth | 18.96 | 19.33 | 18.96 | 38.85 | 3.90 | 38.29 | 57.81 |
| Sector gofal plant | 39.29 | 24.68 | 12.20 | 22.70 | 1.13 | 63.97 | 34.89 |
| 17 oed ac iau | 33.99 | 27.85 | 15.56 | 21.80 | 0.79 | 61.84 | 37.36 |

**Tabl 4.1.5 - Cwestiwn 5 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno wythnos ychwanegol o wyliau (wedi'i thynnu oddi ar wyliau'r haf) i rannu'r tymor hiraf (yr Hydref)?**

| Cwestiwn 5 | Cytuno'n gryf % | Cytuno% | Anghy-tuno % | Anghy-tuno'n gryf % | Heb ei ateb % | Cytuno ac yn cytuno'n gryf % | Anghytuno ac anghytuno'n gryf % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob ymateb | 32.96 | 17.74 | 10.66 | 37.89 | 0.76 | 50.70 | 48.54 |
| Gweithlu addysg | 32.83 | 19.74 | 10.53 | 36.35 | 0.55 | 52.57 | 46.88 |
| Rhieni / Gofalwyr | 36.40 | 17.51 | 10.14 | 35.49 | 0.46 | 53.91 | 45.63 |
| Gweithiwr llawn amser | 33.73 | 17.25 | 10.33 | 38.04 | 0.65 | 50.98 | 48.36 |
| Gweithiwr rhan amser | 39.48 | 20.07 | 10.89 | 28.72 | 0.83 | 59.55 | 39.61 |
| Sector twristiaeth | 14.87 | 12.64 | 12.83 | 58.74 | 0.93 | 27.51 | 71.56 |
| Sector gofal plant | 37.59 | 18.30 | 9.65 | 33.76 | 0.71 | 55.89 | 43.40 |
| 17 oed ac iau | 33.80 | 15.76 | 10.70 | 39.25 | 0.50 | 49.55 | 49.95 |

**Tabl 4.1.6 - Cwestiwn 6 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chael y hyblygrwydd i ddatgysylltu (gwahanu) gwyliau'r gwanwyn â gŵyl gyhoeddus y Pasg?**

| Cwestiwn 6 | Cytuno'n gryf % | Cytuno % | Anghy-tuno % | Anghy-tuno'n gryf % | Heb ei ateb % | Cytuno ac yn cytuno'n gryf % | Anghytuno ac anghytuno'n gryf % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob ymateb | 23.12 | 27.65 | 17.47 | 30.71 | 1.05 | 50.77 | 48.18 |
| Gweithlu addysg | 23.39 | 29.76 | 17.35 | 28.85 | 0.66 | 53.15 | 46.20 |
| Rhieni / Gofalwyr | 24.89 | 28.77 | 17.05 | 28.54 | 0.74 | 53.67 | 45.59 |
| Gweithiwr llawn amser | 23.51 | 27.46 | 17.38 | 30.86 | 0.79 | 50.97 | 48.24 |
| Gweithiwr rhan amser | 26.17 | 31.75 | 18.09 | 23.06 | 0.92 | 57.93 | 41.15 |
| Sector twristiaeth | 11.71 | 26.58 | 17.84 | 41.64 | 2.23 | 38.29 | 59.48 |
| Sector gofal plant | 21.84 | 30.92 | 17.73 | 28.79 | 0.71 | 52.77 | 46.52 |
| 17 oed ac iau | 20.32 | 25.57 | 19.13 | 33.50 | 1.49 | 45.89 | 52.63 |

**Tabl 4.1.7 - Cwestiwn 7 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno wythnos ychwanegol o wyliau ym mis Mai neu fis Mehefin (wedi'i thynnu oddi ar wyliau'r haf a'i hychwanegu at wyliau presennol mis Mai), er mwyn creu tymhorau cyson o ran hyd?**

| Cwestiwn 7 | Cytuno'n gryf % | Cytuno % | Anghy-tuno % | Anghy-tuno'n gryf % | Heb ei ateb % | Cytuno ac yn cytuno'n gryf % | Anghytuno ac anghytuno'n gryf % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob ymateb | 25.17 | 19.71 | 16.41 | 37.89 | 0.81 | 44.89 | 54.30 |
| Gweithlu addysg | 20.46 | 19.11 | 18.86 | 40.96 | 0.62 | 39.57 | 59.82 |
| Rhieni / Gofalwyr | 29.91 | 21.20 | 14.66 | 33.66 | 0.57 | 51.11 | 48.32 |
| Gweithiwr llawn amser | 25.33 | 19.92 | 15.85 | 38.22 | 0.69 | 45.24 | 54.07 |
| Gweithiwr rhan amser | 32.94 | 22.92 | 16.78 | 26.57 | 0.79 | 55.86 | 43.35 |
| Sector twristiaeth | 14.50 | 15.61 | 15.80 | 53.16 | 0.93 | 30.11 | 68.96 |
| Sector gofal plant | 31.77 | 19.86 | 15.04 | 32.20 | 1.13 | 51.63 | 47.23 |
| 17 oed ac iau | 27.16 | 20.42 | 13.78 | 38.06 | 0.59 | 47.57 | 51.83 |

**Tabl 4.1.8 - Cwestiwn 8 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chynnal diwrnodau canlyniadau arholiadau Safon Uwch, Safon UG a TGAU yn ystod yr un wythnos?**

| Cwestiwn 8 | Cytuno'n gryf % | Cytuno % | Angh-ytuno % | Anghy-tuno'n gryf % | Heb ei ateb % | Cytuno ac yn cytuno'n gryf % | Anghytuno ac anghytuno'n gryf % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob ymateb | 25.20 | 43.99 | 15.04 | 13.42 | 2.36 | 69.18 | 28.45 |
| Gweithlu addysg | 26.57 | 43.35 | 15.19 | 13.57 | 1.33 | 69.91 | 28.76 |
| Rhieni / Gofalwyr | 26.12 | 45.44 | 14.19 | 12.03 | 2.22 | 71.55 | 26.23 |
| Gweithiwr llawn amser | 26.80 | 43.53 | 14.58 | 13.22 | 1.87 | 70.33 | 27.80 |
| Gweithiwr rhan amser | 24.37 | 48.13 | 15.02 | 9.09 | 3.38 | 72.51 | 24.11 |
| Sector twristiaeth | 16.73 | 43.68 | 19.89 | 14.87 | 4.83 | 60.41 | 34.76 |
| Sector gofal plant | 24.96 | 47.23 | 12.62 | 13.19 | 1.99 | 72.20 | 25.82 |
| 17 oed ac iau | 24.18 | 43.51 | 16.25 | 14.07 | 1.98 | 67.69 | 30.33 |

**Tabl 4.1.9 – Cwestiwn 9 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 1: Cadw at y calendr ysgol presennol?**

| Cwestiwn 9 | Cytuno'n gryf % | Cytuno % | Anghy-tuno % | Anghy-tuno'n gryf % | Heb ei ateb % | Cytuno ac yn cytuno'n gryf % | Anghytuno ac anghytuno'n gryf % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob ymateb | 39.07 | 13.52 | 23.49 | 22.89 | 1.03 | 52.58 | 46.39 |
| Gweithlu addysg | 39.11 | 15.39 | 24.75 | 20.08 | 0.67 | 54.50 | 44.83 |
| Rhieni / Gofalwyr | 35.94 | 12.42 | 24.49 | 26.26 | 0.88 | 48.36 | 50.76 |
| Gweithiwr llawn amser | 39.05 | 13.34 | 23.30 | 23.52 | 0.80 | 52.39 | 46.82 |
| Gweithiwr rhan amser | 30.17 | 12.38 | 29.12 | 27.23 | 1.10 | 42.56 | 56.35 |
| Sector twristiaeth | 57.81 | 14.13 | 13.57 | 13.20 | 1.30 | 71.93 | 26.77 |
| Sector gofal plant | 35.60 | 10.50 | 28.79 | 23.40 | 1.70 | 46.10 | 52.20 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 oed ac iau | 39.35 | 13.48 | 23.59 | 22.89 | 0.69 | 52.82 | 46.48 |

**Tabl 4.1.10 - Cwestiwn 10 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 2 a'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig: calendr ysgol â phythefnos o wyliau ym mis Hydref, gwyliau'r gwanwyn ar yr un pryd fwy neu lai bob blwyddyn (ni waeth pryd y bydd y Pasg yn disgyn), a 5 wythnos o wyliau dros yr haf?**

| Cwestiwn 10 | Cytuno'n gryf % | Cytuno % | Angh-ytuno % | Anghy-tuno'n gryf % | Heb ei ateb % | Cytuno ac yn cytuno'n gryf % | Anghytuno ac anghytuno'n gryf % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob ymateb | 17.80 | 27.11 | 17.03 | 36.98 | 1.08 | 44.92 | 54.01 |
| Gweithlu addysg | 20.89 | 27.64 | 16.24 | 34.48 | 0.74 | 48.54 | 50.73 |
| Rhieni / Gofalwyr | 17.34 | 29.50 | 17.06 | 35.29 | 0.80 | 46.84 | 52.36 |
| Gweithiwr llawn amser | 17.83 | 27.55 | 16.57 | 37.16 | 0.89 | 45.38 | 53.74 |
| Gweithiwr rhan amser | 19.10 | 32.76 | 17.61 | 29.51 | 1.01 | 51.87 | 47.12 |
| Sector twristiaeth | 6.32 | 16.54 | 18.40 | 57.62 | 1.12 | 22.86 | 76.02 |
| Sector gofal plant | 19.72 | 28.37 | 16.74 | 34.33 | 0.85 | 48.09 | 51.06 |
| 17 oed ac iau | 17.15 | 26.76 | 17.05 | 38.65 | 0.40 | 43.90 | 55.70 |

**Tabl 4.1.11 - Cwestiwn 11 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 3: calendr ysgol â phythefnos o wyliau ym mis Hydref, gwyliau'r gwanwyn ar yr un pryd fwy neu lai bob blwyddyn (ni waeth pryd y bydd y Pasg yn disgyn), pythefnos o wyliau ym mis Mai, a 4 wythnos o wyliau dros yr haf?**

| Cwestiwn 11 | Cytuno'n gryf % | Cytuno % | Angh-ytuno % | Anghyt-uno'n gryf % | Heb ei ateb % | Cytuno ac yn cytuno'n gryf % | Anghytuno ac anghytuno'n gryf % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob ymateb | 23.65 | 12.99 | 13.39 | 49.15 | 0.81 | 36.64 | 62.54 |
| Gweithlu addysg | 18.78 | 12.87 | 14.18 | 53.57 | 0.60 | 31.65 | 67.75 |
| Rhieni / Gofalwyr | 28.70 | 13.90 | 11.96 | 44.90 | 0.53 | 42.60 | 56.87 |
| Gweithiwr llawn amser | 24.50 | 12.72 | 12.76 | 49.51 | 0.50 | 37.23 | 62.27 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithiwr rhan amser | 29.56 | 17.35 | 14.40 | 37.81 | 0.88 | 46.90 | 52.22 |
| Sector twristiaeth | 14.13 | 7.43 | 10.59 | 66.54 | 1.30 | 21.56 | 77.14 |
| Sector gofal plant | 29.79 | 16.74 | 11.91 | 41.13 | 0.43 | 46.52 | 53.05 |
| 17 oed ac iau | 26.96 | 11.69 | 13.88 | 46.58 | 0.89 | 38.65 | 60.46 |

**Tabl 4.1.12 - Cwestiwn 12 – Ar gyfer 2025 i 2026, i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dyddiadau arfaethedig a nodwyd ar gyfer y tymhorau yn Opsiwn 2 ac Opsiwn 3?**

| Cwestiwn 12 | Cytuno'n gryf % | Cytuno % | Anghy-tuno % | Anghy-tuno'n gryf % | Heb ei ateb % | Cytuno ac yn cytuno'n gryf % | Anghytuno ac anghytuno'n gryf % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob ymateb | 22.89 | 22.60 | 12.19 | 40.65 | 1.67 | 45.49 | 52.85 |
| Gweithlu addysg | 20.16 | 24.89 | 12.82 | 40.77 | 1.37 | 45.04 | 53.59 |
| Rhieni / Gofalwyr | 26.88 | 22.94 | 11.21 | 37.63 | 1.33 | 49.82 | 48.84 |
| Gweithiwr llawn amser | 23.53 | 22.29 | 11.63 | 41.22 | 1.33 | 45.82 | 52.85 |
| Gweithiwr rhan amser | 27.49 | 28.06 | 12.17 | 30.39 | 1.89 | 55.56 | 42.56 |
| Sector twristiaeth | 12.08 | 10.41 | 12.83 | 62.64 | 2.04 | 22.49 | 75.46 |
| Sector gofal plant | 27.09 | 25.67 | 10.50 | 35.60 | 1.13 | 52.77 | 46.10 |
| 17 oed ac iau | 24.78 | 21.80 | 11.30 | 40.34 | 1.78 | 46.58 | 51.64 |

## 4.2 Methodoleg

Wrth ddadansoddi’r cyd-drafod a’r ymgynghori aed ati mewn modd dilyniannol ac aml-ddull i geisio darlun mor gynhwysfawr â phosibl ar y meysydd allweddol o ddiddordeb, er mwyn ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:

- A allai calendr y flwyddyn ysgol fod wedi'i strwythuro'n well i fynd i'r afael ag anfantais, a chefnogi cynnydd, llesiant a’r ffordd rydym yn byw heddiw?
- Pa effeithiau y mae rhanddeiliaid yn rhagweld y byddai'r strwythurau blwyddyn ysgol amgen arfaethedig yn eu cael arnynt, yn y tymor byr ac yn fwy hirdymor?
- Pa newidiadau penodol, os o gwbl, fyddai'n fwyaf effeithiol o ran sicrhau cydbwysedd rhwng gwahanol anghenion a phryderon rhanddeiliaid?

- Pa opsiynau gweithredu ar gyfer unrhyw newidiadau i strwythur y flwyddyn ysgol fyddai'r mwyaf a'r lleiaf effeithiol a ffafriol? Pam?

Rhannwyd y dull yn bedwar cam. Roedd hyn yn cynnwys y camau canlynol: cwmpasu a pharatoi, cyd-drafod ansoddol, dadansoddi, ac adrodd.

### 4.2.1 Cwmpasu a Pharatoi

Pwrpas y cam hwn oedd paratoi ar gyfer y prif ymarfer ymgynghori trwy gyd-gynhyrchu cwestiynau ymgynghori a chyd-drafod a chydweithio â datblygwr deunyddiau cyfryngau i sicrhau bod y negeseuon/cysyniadau yn y deunyddiau yn gyson â deunyddiau ymgynghori. Yr hyn y canolbwyntiwyd arno wrth ddatblygu cwestiynau oedd sicrhau eglurder a hygyrchedd wrth holi rhanddeiliaid gwahanol, gan gynnwys yr hyn sydd, a’r hyn nad yw, o fewn cwmpas yr ymgynghoriad.

Roedd y cyfnod cwmpasu hefyd yn cynnwys ystyried pa faterion fyddai'n berthnasol i ba randdeiliaid. Er enghraifft, byddai rhieni/gofalwyr a dysgwyr yn fwy tebygol o ystyried goblygiadau'r diwygiadau arfaethedig iddynt yn bersonol, tra bod gweithwyr proffesiynol addysgu a rhanddeiliaid eraill mewn gwell sefyllfa i feddwl yn fwy strategol ac ystyried beth mae hyn yn ei olygu i addysgu a dysgu yn y dyfodol.

Y cam olaf yn y cyfnod cwmpasu oedd cwblhau'r cynllun gwaith, gan gynnwys strwythur y sampl ar gyfer yr ymchwil ansoddol, strategaeth recriwtio gadarn, holiadur ymgynghori terfynol a chanllawiau pwnc, Cod Ymddygiad ar gyfer grwpiau ffocws a Hysbysiadau Preifatrwydd.

### 4.2.2 Sesiynau Cyd-drafod Ansoddol

Cynhaliwyd cyfanswm o 25 o grwpiau ffocws a 10 o gyfweliadau yn unol â'r strwythur samplu. Cyflawnwyd y recriwtio ar gyfer y grwpiau ffocws rhieni gan ein partner, DJS Research. Recriwtiwyd y grwpiau rhanddeiliaid eraill gan Miller Research, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru a'r Consortia Addysg Rhanbarthol.

Cynhaliwyd pum grŵp ffocws gyda rhieni/gofalwyr ac roeddent yn cynnwys cyfuniad o rieni/gofalwyr sy'n gweithio/nad ydynt yn gweithio a rhieni/gofalwyr mewn grwpiau cymdeithasol ac economaidd BC1 a C2DE sydd â phlant mewn:

- Ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg/dwyieithog
- Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig
- Ysgolion â statws uchel ac isel prydau ysgol am ddim
- Ysgolion mewn cymunedau gwledig a threfol
- Ysgolion ffydd
- Rhieni plant sydd â’r brif iaith a siaredir gartref (Cymraeg, Saesneg neu arall) yn wahanol i gyfrwng iaith eu hysgol.

Cynhaliwyd chwe grŵp ffocws gyda gweithwyr proffesiynol addysgu yn cynnwys cyfuniad o aelodau uwch dimau arwain, athrawon ystafell ddosbarth a chynorthwywyr addysgu, yn ogystal â'r rhai sy'n darparu cefnogaeth fugeiliol neu mewn rolau gweinyddol, i ganfod trawstoriad o safbwyntiau. Roedd y sampl hefyd yn cynnwys y rhai sy'n gweithio mewn:

- Ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg
- Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig
- Ysgolion â statws uchel ac isel prydau ysgol am ddim
- Ysgolion mewn cymunedau gwledig a threfol
- Ysgolion ffydd.

Cynhaliodd Plant yng Nghymru grwpiau ffocws gyda dysgwyr mewn 6 ysgol, gan gynnwys dysgwyr a oedd: yn gymwys/anghymwys am brydau ysgol am ddim, mewn ysgolion cyfrwng

Saesneg a chyfrwng Cymraeg/dwyieithog, mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, mewn ysgolion gwledig a threfol ac mewn ysgolion ffydd.

Ategwyd y cyd-drafod uniongyrchol hwn â dysgwyr gan ddull hunan-gwblhau, a gynlluniwyd i gasglu adborth ar faterion yr ymgynghoriad gan ddysgwyr o sampl ehangach o ysgolion.

Cynhaliwyd y gweddill o'r grwpiau ffocws gyda'r grwpiau rhanddeiliaid canlynol:

- Gweithwyr proffesiynol Blynyddoedd Cynnar a chynrychiolwyr o'r sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae
- Awdurdodau lleol
- Llywodraethwyr Ysgolion
- Gweithwyr ieuenctid
- Sefydliadau lletygarwch a thwristiaeth
- Cynrychiolwyr o'r sector y prif atyniadau twristiaeth
- Undebau'r gweithlu addysg

Hwyluswyd pob grŵp ffocws ar-lein er mwyn sicrhau cysondeb a chynhwysiant a dechreuasant gyda'r fideo esboniadol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r sesiwn. Lle bo'n briodol, crynodeb gweledol o'r gwahaniaethau rhwng Opsiynau 1, 2 a 3 hefyd eu rhannu gyda'r cyfranogwyr.

Roedd cyfweliadau yn ategu'r trafodaethau â'r grwpiau ffocws a gwnaed cyfanswm o 10 gyda chynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Cymwysterau Cymru
- CBAC
- Gwasanaeth Addysg Gatholig
- Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
- Estyn
- Yr Eglwys yng Nghymru
- CBI Cymru
- Trafnidiaeth Cymru
- Sioe Frenhinol Cymru

Cynhaliwyd y cyfweliadau drwy MS Teams neu dros y ffôn ac fe'u cynhaliwyd naill ai yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â dewisiadau'r cyfwelydd.

### 4.2.3 Dadansoddi

Datblygwyd fframwaith a chronfa ddata ymchwil cychwynnol er mwyn sicrhau rheolaeth ofalus ac effeithlon o'r broses ddadansoddi. Cynhyrchwyd crynodebau ar 4, 8, a 12 wythnos yn ystod y cyfnod ymgynghori a'u rhannu â Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn caniatáu olrhain y gyfradd ymateb a'r naratif cysylltiedig wrth i'r ymgynghoriad fynd yn ei flaen. Amlygwyd themâu allweddol pob cwestiwn ymgynghori yn y camau cynnar, gydag ymatebion dilynol yn atgyfnerthu'r themâu hyn, gan ymhelaethu arnynt a'u ehangu.

Roedd sampl o'r ymatebion a gafwyd o fewn y 4 wythnos gyntaf yn sail ar gyfer dadansoddi geiriau allweddol a thoriadau thematig ar gyfer y gweithgaredd dadansoddi ehangach ac yn galluogi'r tîm dadansoddi i wirion synnwyr y themâu a ganfuwyd yn y dadansoddiad meintiol cychwynnol.

Derbyniodd arolwg yr ymgynghoriad gyfanswm o 16,298 o ymatebion ar-lein a 49 o ymatebion drwy e-bost. Dadansoddwyd yr ymatebion hyn gyda'i gilydd.

Cafodd ymatebion a ddyblygwyd, neu ymatebion ymgyrchu, eu trin fel un ymateb yn y dadansoddiad. Ar gyfer yr arolwg ar-lein, cyflawnwyd hyn drwy nodi gwerthoedd dyblyg ar

gyfer y cwestiynau testun agored. Lle canfuwyd dyblygu, dilewyd yr ymateb llawn ym mhob achos ar ôl y cyntaf. O ystyried natur y cwestiynau caeedig roedd llawer o ymatebion yn wahanol yn yr ymateb testun agored yn unig. Lle na atebwyd y cwestiynau ymateb testun agored, tynnwyd dyblygiadau lle roedd yr amser cyflwyno yn ei gwneud yn glir bod ymateb wedi'i gyflwyno ddwywaith (o bosibl trwy wall technegol). Nodwyd ymatebion sbam trwy ddefnyddio data demograffig. Cafodd ymatebion eu dileu o’r dadansoddiad os oeddent wedi dewis pob opsiwn ymateb i gwestiwn 16. Diystyrwyd ymatebion gwag hefyd. Tynnwyd cyfanswm o 19 o ymatebion o'r dadansoddiad o'r arolwg gan adael 16,328 o ymatebion unigryw.

Dadansoddwyd pob cwestiwn categorïaidd (ee: ie/na) gan ddefnyddio Microsoft Excel Pivot Tables. Defnyddiwyd Microsoft PowerBI i gynhyrchu cymylau geiriau gan nodi themâu ac ymadroddion a grybwyllwyd yn aml, a ddefnyddiwyd wedyn fel codau cychwynnol i osod ymatebion mewn trefn. Yna cafodd ymatebion ym mhob categori eu codio a'u dadansoddi â llaw gan ymchwilwyr i gynhyrchu crynodeb o'r ymatebion.

Ar gyfer ymatebion afreolaidd rydym wedi adrodd ar ehangder yr adborth a gafwyd ond nid ydym wedi mesur yr ehangder hwnnw; felly, adroddwyd unwaith yn unig ar ymatebion lluosog a oedd yn union yr un fath o ran cynnwys, ac ni roddwyd mwy o bwysau arnynt nag ar ymateb unigryw.

Dadansoddwyd y grwpiau ffocws, cyfweliadau a’r ymatebion ychwanegol (e-byst a llythyrau) gan ddefnyddio Miro, meddalwedd mapio meddwl ar-lein, gan alluogi cylch iterol o ddadansoddi strwythuredig ac olrhain themâu a ganfuwyd.

Yn y lle cyntaf, gwnaed dadansoddiad ar sail cwestiwn–wrth-gwestiwn ac yn ôl y math o gyfrwng y cyswllt, gyda dadansoddiad eilaidd yn cael ei wneud ar sail thematig. Roedd hyn yn ategu gwell dealltwriaeth o unrhyw feysydd o amheuaeth.

Cafodd ymatebion afreolaidd, gan gynnwys y rhai a dderbyniwyd trwy e-bost a llythyr, nad oeddent yn ymdrin yn benodol â chwestiynau'r ymgynghoriad ond a oedd yn dal i fod yn berthnasol, eu dadansoddi a'u priodoli i'r cwestiwn mwyaf perthnasol. Weithiau roedd hyn yn gofyn am lunio casgliadau o'r cynnwys a gwneud rhagdybiaethau am y cwestiwn roedd yr awduron yn bwriadu ymateb iddo.

### 4.2.4 Adrodd

Rhannwyd a chyflwynwyd dec sleidiau o ganfyddiadau a ddaeth i’r amlwg i'r Grŵp Llywio, cyn i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ategu gan grynodeb tablaidd chwiliadwy o ymatebion i'r ymgynghoriad.

## 4.3 Cwestiynau'r Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| | Dewiswch bob un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:<br><br>• 17 oed ac yn iau<br>• 18 oed ac yn hŷn<br>• Y gweithlu addysg<br>• Y sector twristiaeth<br>• Y sector gofal plant<br>• Gwaith llawn-amser (rhowch fanylion)<br>• Gwaith rhan-amser (rhowch fanylion)<br>• Rhiant neu ofalwr (Defnyddiwyd 'rhiant' fel term llaw fer i gynnwys mamau, tadau, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, llys-rieni, gofalwyr sy'n berthnasau, theidiau a neiniau a gwarcheidwaid)<br>• Arall |
| 1 | I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi'r ffordd rydym yn byw, yn dysgu ac yn gweithio heddiw? |
| 2 | I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi dysgwyr sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol? |
| 3 | I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)? |
| 4 | I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi llesiant athrawon a/neu ddysgwyr a lleihau blinder? |
| 5 | I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno wythnos ychwanegol o wyliau (wedi'i thynnu oddi ar wyliau'r haf) i rannu'r tymor hiraf (yr hydref)? |
| 6 | I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chael y hyblygrwydd i ddatgysylltu (gwahanu) gwyliau'r gwanwyn â gŵyl gyhoeddus y Pasg? |
| 7 | I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno wythnos ychwanegol o wyliau ym mis Mai neu fis Mehefin (wedi'i thynnu oddi ar wyliau'r haf a'i hychwanegu at wyliau presennol mis Mai), er mwyn creu tymhorau cyson o ran hyd? |
| 8 | I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chynnal diwrnodau canlyniadau arholiadau Safon Uwch, Safon UG a TGAU yn ystod yr un wythnos?<br><br>Ar hyn o bryd, dosberthir canlyniadau'r arholiadau yn ystod trydedd neu bedwaredd wythnos mis Awst, yn y drefn honno. Byddai cysoni'r diwrnodau canlyniadau yn golygu y byddai canlyniadau arholiadau TGAU yn cael eu dosbarthu'n gynt yn ystod yr un wythnos â chanlyniadau'r arholiadau Safon Uwch a Safon UG. |
| 9 | I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 1: Cadw at y calendr ysgol presennol? |
| 10 | I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 2 a'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig: calendr ysgol â phythefnos o wyliau ym mis Hydref, gwyliau'r gwanwyn ar yr un pryd fwy neu lai bob blwyddyn (ni waeth pryd y bydd y Pasg yn disgyn), a 5 wythnos o wyliau dros yr haf? |
| 11 | I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 3: calendr ysgol â phythefnos o wyliau ym mis Hydref, gwyliau'r gwanwyn ar yr un pryd fwy neu lai bob blwyddyn (ni waeth pryd y bydd y Pasg yn disgyn), pythefnos o wyliau ym mis Mai, a 4 wythnos o wyliau dros yr haf? |
| 12 | Ar gyfer 2025 i 2026, i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dyddiadau arfaethedig a nodwyd ar gyfer y tymhorau yn Opsiwn 2 ac Opsiwn 3? |

| | |
|---|---|
| 13 | Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br>A ydych yn meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?<br>A ydych yn meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol? |
| 14 | Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r cynigion er mwyn sicrhau:<br>er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg; neu<br>er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg? |
| 15 | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma. |

## 4.4 Cwestiynau Hawdd Eu Deall

| | |
|---|---|
| 1 | Ydych chi'n hoffi'r calendr ysgol fel y mae nawr?<br>• Ydw<br>• Nac ydw<br>• Ddim yn siŵr<br>Defnyddiwch y blwch yma i ddweud mwy wrthon ni am eich ateb. |
| 2 | Dychmygwch fod 1 wythnos o wyliau'r haf wedi'i symud i fis Hydref er mwyn gwneud gwyliau hanner tymor mis Hydref yn wythnos, yn lle 1 wythnos, o hyd. Byddai hyn yn golygu bod 5 wythnos o wyliau dros yr haf. Ydych chi'n hoffi'r syniad yma?<br>• Ydw<br>• Nac ydw<br>• Ddim yn siŵr<br>Defnyddiwch y blwch yma i ddweud mwy wrthon ni am eich ateb. |
| 3 | Dychmygwch fod gwyliau'r gwanwyn yn digwydd tua'r un pryd bob blwyddyn. Ar hyn o bryd, mae gwyliau'r gwanwyn yn newid bob blwyddyn i gyd-fynd â'r Pasg. Mae hyn yn gallu gwneud rhai tymhorau ysgol yn hir iawn neu'n fyr iawn.<br>Ydych chi'n hoffi'r syniad o gael gwyliau'r gwanwyn tua'r un pryd bob blwyddyn?<br>• Ydw<br>• Nac ydw<br>• Ddim yn siŵr<br>Defnyddiwch y blwch yma i ddweud mwy wrthon ni am eich ateb. |
| 4 | Dychmygwch ein bod ni'n cael pythefnos o wyliau ym mis Mai neu fis Mehefin. Ar hyn o bryd 1 wythnos o wyliau sydd. Byddai hyn yn golygu bod gwyliau'r haf 1 wythnos yn fyrrach. Ydych chi'n hoffi'r syniad yma?<br>• Ydw<br>• Nac ydw<br>• Ddim yn siŵr<br>Defnyddiwch y blwch yma i ddweud mwy wrthon ni am eich ateb. |
| 5 | Ydych chi'n hoffi'r syniad o gael diwrnodau canlyniadau arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yn yr un wythnos?<br>• Ydw<br>• Nac ydw<br>• Ddim yn siŵr<br>Defnyddiwch y blwch yma i ddweud mwy wrthon ni am eich ateb. |

| | |
|---|---|
| 6 | Ticiwch unrhyw un o’r blychau sy’n eich disgrifio chi orau.<br>• 17 oed ac yn iau.<br>• 18 oed ac yn hŷn.<br>• Rwy’n gweithio ym myd addysg.<br>• Rwy’n gweithio ym maes twristiaeth.<br>• Rwy’n gweithio ym maes gofal plant.<br>• Rwy’n gweithio’n llawn-amser.<br>• Rwy’n gweithio’n rhan-amser.<br>• Rwy’n rhiant neu’n ofalwr.<br>• Arall. |
| 7 | Ydych chi’n meddwl y byddai newid y calendr ysgol yn effeithio ar y Gymraeg?<br>• Ydw<br>• Nac ydw<br>• Ddim yn siŵr |
| 8 | Beth fyddai’r effeithiau, yn eich barn chi, ar y Gymraeg? Sut gallen ni leihau unrhyw effeithiau gwael a chynyddu effeithiau da? |
| 9 | Oes unrhyw beth arall hoffech chi ei ddweud wrthon ni am eich barn am y calendr ysgol? |

## 4.5 Cwestiynau i’r Grwpiau Ffocws

| | |
|---|---|
| **Hwyluswyr:** | |
| **Enwau mynychwyr oedran y plant::** | |
| **Dyddiad:** | |
| **Rhif grŵp ffocws:** | |

**Cefndir i‘r ymchwil**

Croeso a diolch am gymryd yr amser i ymuno â ni heddiw. Fy enw i yw [x] o Miller Research. Rydyn ni wedi cael ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i archwilio safbwyntiau ystod eang o randdeiliaid fel rhan o’r ymgynghoriad ar strwythur y flwyddyn ysgol.

Byddwn yn dechrau’r sesiwn drwy rannu fideo byr yn nodi’r tri opsiwn sy’n cael eu cynnig yn yr ymgynghoriad.

Yna byddwn yn gofyn rhai cwestiynau penodol i chi, yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Eich barn ar fanteision ac anfanteision yr elfennau amrywiol a nodir yn y tri opsiwn o safbwynt:
  - Chi / rhieni eraill
  - Eich plentyn/plant
  - Gweithwyr proffesiynol addysgu
  - Plant eraill mewn grwpiau difreintiedig, fel y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu o gefndiroedd sydd dan anfantais ariannol
- Eich lefel gyffredinol o gefnogaeth i’r tri opsiwn

Sylwch, mae hwn yn ymarfer casglu tystiolaeth, heb unrhyw atebion cywir neu anghywir absoliwt.

Bydd y sesiwn yn para hyd at 90 munud a bydd eich adborth yn ddienw yn ein hadroddiad terfynol.

Rydym yn cymryd nodiadau a hoffem hefyd recordio'r sesiwn i gefnogi'r broses o gymryd nodiadau. Bydd y recordiad hwn yn cael ei ddileu yn ystod y cam dadansoddi. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu i'r sesiwn gael ei recordio?

**[Dangos y fideo os yw hynny'n addas]**

*Dolen i'r fideo Saesneg: https://www.youtube.com/watch?v=RBvZFfkYgjQ*

*Dolen i'r fideo Cymraeg: https://www.youtube.com/watch?v=OdJ50s0h1Mw*

| | |
|---|---|
| | **Rhagymadrodd** |
| 1 | A fyddai ots gennych gyflwyno eich hun a rhannu oedran neu grŵp blwyddyn eich plentyn/ blant gyda'r grŵp? |
| | **Manteision ac anfanteision y gwahanol elfennau o fewn yr opsiynau arfaethedig** |
| **Hanner tymor yr hydref am bythefnos** | |
| 2 | Beth yn eich barn chi fyddai'r manteision i **chi/rhieni eraill** o gael pythefnos o hanner tymor yn nhymor yr hydref (a lleihau gwyliau'r haf o wythnos)? |
| 3 | Beth yn eich barn chi fyddai'r manteision **i'ch plentyn/plant** o gael pythefnos o hanner tymor yn nhymor yr hydref (a lleihau gwyliau'r haf o wythnos)? |
| 4 | Beth yn eich barn chi fyddai'r manteision i **weithwyr addysgu proffesiynol** o gael hanner tymor o bythefnos yn nhymor yr hydref (a lleihau gwyliau'r haf o wythnos)? |
| 5 | Beth yn eich barn chi fyddai'r manteision i **blant mewn grwpiau difreintiedig** o gael pythefnos o hanner tymor yn nhymor yr hydref (a lleihau gwyliau'r haf o wythnos)? |
| 6 | Beth fyddech chi'n ei ystyried yn anfanteision **i chi/rhieni eraill** o gael hanner tymor o bythefnos yn nhymor yr hydref (a lleihau gwyliau'r haf o wythnos)? |
| 7 | Beth fyddech chi'n ystyried yw'r anfanteision **i'ch plentyn/plant** o gael hanner tymor o bythefnos yn nhymor yr hydref (a lleihau gwyliau'r haf o wythnos)? |
| 8 | Beth yn eich barn chi yw'r anfanteision **i weithwyr addysgu proffesiynol** o gael hanner tymor o bythefnos yn nhymor yr hydref (a lleihau gwyliau'r haf o wythnos)? |
| 9 | Beth fyddech chi'n ei ystyried yn anfanteision **i blant mewn grwpiau difreintiedig** o gael hanner tymor o bythefnos yn nhymor yr hydref (a lleihau gwyliau'r haf o wythnos)? |

| | |
|---|---|
| **Pasg wedi ei ddatgysylltu** | |
| 10 | Beth fyddech chi'n ei ystyried yn fanteision (eto, wrth feddwl am safbwyntiau'r gwahanol grwpiau hynny[18]) o gael yr hyblygrwydd i ddatgysylltu (gwahanu) gwyliau'r gwanwyn o wyliau cyhoeddus y Pasg? |
| 11 | Beth fyddech chi'n ei ystyried yn anfanteision (eto, wrth feddwl am safbwyntiau'r gwahanol grwpiau hynny) o gael yr hyblygrwydd i ddatgysylltu (gwahanu) gwyliau'r gwanwyn o wyliau cyhoeddus y Pasg? |
| **Pythefnos hanner tymor Mai/Mehefin** | |
| 12 | Beth fyddech chi'n ei ystyried yw'r manteision (eto, gan feddwl am safbwyntiau'r grwpiau gwahanol hynny) o gael wythnos ychwanegol ym mis Mai neu fis Mehefin (wedi'i chymryd o wyliau'r haf a'i hychwanegu at wyliau mis Mai presennol, gan olygu bod egwyl yr haf yn bedair wythnos), i greu hyd cymharol i'r termau? |
| 13 | Beth fyddech chi'n ei ystyried yw'r anfanteision (eto, wrth feddwl am safbwyntiau'r grwpiau gwahanol hynny4) o gael wythnos ychwanegol ym mis Mai neu fis Mehefin (wedi'i chymryd o wyliau'r haf a'i hychwanegu at wyliau mis Mai presennol, sy'n golygu bod egwyl yr haf yn bedair wythnos), i greu hyd cymharol i'r termau? |
| **Cael diwrnodau canlyniadau TGAU a Lefel A/UG yn yr un wythnos *(gofynnwch am rieni uwchradd yn unig)*** | |
| 14 | Beth fyddech chi'n ei ystyried yw'r manteision (eto, wrth feddwl am safbwyntiau'r gwahanol grwpiau hynny5) o gynnal diwrnodau canlyniadau Safon Uwch, Safon UG a TGAU yn yr un wythnos? |
| 15 | Beth fyddech chi'n ystyried yw'r anfanteision (eto, wrth feddwl am safbwyntiau'r gwahanol grwpiau hynny6) o gynnal diwrnodau canlyniadau Safon Uwch, Safon UG a TGAU yn yr un wythnos? |
| | **Gradd gyffredinol o gefnogaeth i'r tri Opsiwn** |
| 16 | I ba raddau ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1 (dangoswch y diagram ar y sgrin) |
| 17 | I ba raddau ydych chi'n cefnogi Opsiwn 2 (dangoswch y diagram ar y sgrin) |
| 18 | I ba raddau ydych chi'n cefnogi Opsiwn 3 (dangoswch y diagram ar y sgrin) |

[18] Chi / rhieni eraill, eich plentyn/plant, gweithwyr proffesiynol addysgu a phlant eraill mewn grwpiau o dan anfantais

| | Sylwadau i gloi |
|---|---|
| 19 | A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud mewn perthynas â’r newidiadau arfaethedig i galendr y flwyddyn ysgol, a’u heffaith a’u heffeithiolrwydd? |

## 4.6 Cwestiynau Cyfweliadau

| | |
|---|---|
| **Hwyluswyr:** | |
| **Mynychwyr a rolau:** | |
| **Dyddiad:** | |
| **Rhif cyfweliad:** | |

**Cefndir i‘r ymchwil**

Croeso a diolch am gymryd yr amser i ymuno â ni heddiw. Fy enw i yw [x] o Miller Research. Rydyn ni wedi cael ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i archwilio safbwyntiau ystod eang o randdeiliaid fel rhan o’r ymgynghoriad ar strwythur y flwyddyn ysgol. Y meysydd rydym yn ceisio barn am eu cylch yn ystod yr ymgynghoriad yw:

- A allai'r flwyddyn ysgol fod wedi'i strwythuro'n well i gefnogi anfantais, cynnydd, llesiant a’n ffordd o fyw heddiw?
- Pa effeithiau a ddisgwylir gan yr opsiynau arfaethedig yn y tymor byr a'r tymor hir?
- Pa opsiynau yw’r mwyaf, a’r lleiaf, effeithiol a ffafriol?
- Pa newidiadau penodol, os o gwbl, fyddai'r rhai mwyaf effeithiol o ran sicrhau cydbwysedd rhwng gwahanol anghenion a phryderon rhanddeiliaid?

Law yn llaw â'r brif ddogfen ymgynghori a'r  ymatebion, rydym yn defnyddio trafodaethau fel y drafodaeth hon i archwilio cwestiynau atodol yn fanylach. Sylwch, mae hwn yn ymarfer casglu tystiolaeth, heb unrhyw atebion cywir nac anghywir absoliwt. Bydd y sgwrs heddiw yn canolbwyntio ar ddau o'r cwestiynau a grybwyllais - effeithiau disgwyliedig yr opsiynau ac effeithiolrwydd gwahanol newidiadau wrth gydbwyso anghenion rhanddeiliaid.

Bydd y sesiwn yn para 35- 40 munud a bydd eich adborth yn ddienw yn ein hadroddiad terfynol. Dim ond ar gyfer trefnu'r sesiwn hon y bydd eich manylion cyswllt yn cael eu defnyddio a byddant yn cael eu tynnu oddi ar ein systemau ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, oni bai y cytunir fel arall gyda'ch caniatâd.

Rydym yn cymryd nodiadau a hoffem hefyd recordio'r sesiwn i gefnogi'r broses o gymryd nodiadau. Bydd y recordiad hwn yn cael ei ddileu yn ystod y cam dadansoddi.

**[Dangos y fideo os yw hynny’n addas]**

*Dolen i’r fideo Saesneg:* https://www.youtube.com/watch?v=RBvZFfkYgjQ

*Dolen i’r fideo Cymraeg:* https://www.youtube.com/watch?v=OdJ50s0h1Mw

| | |
|---|---|
| | **Cyflwyniad** |
| 1 | A fyddai ots gennych gyflwyno eich hun, eich sefydliad/eich rôl? |
| | **Effaith y cynigion** |
| 2 | Pa effaith fyddai unrhyw un o'r opsiynau arfaethedig yn ei gael arnoch chi?<br>• Holi am effeithiau tymhorau mwy cyson o ran hyd, datgysylltu'r Pasg, phythefnos o wyliau ym mis Hydref (Opsiwn 2)<br>• Holi am effeithiau pellach o gam 2 Opsiwn 3, gan gynnwys diwrnodau canlyniadau (ar gyfer rhanddeiliaid y gweithlu), pythefnos o wyliau hanner tymor ym mis Mai.<br>• Holi am effeithiau dim newidiadau (Opsiwn 1)<br>• (Ar gyfer pawb holi am effaith ar fynd i'r afael ag anfantais, a chefnogi cynnydd, llesiant a'n ffordd o fyw heddiw) |
| 3 | Pa opsiwn fyddai orau ar gyfer cydbwyso anghenion gwahanol bobl eraill? Gan gynnwys<br>• Dysgwyr<br>• Rhieni<br>• Gwahanol aelodau o'r gweithlu addysg (holi am amrywiadau o fewn e.e. arweinwyr, staff cymorth)<br>• Gwahanol feysydd o'r economi fel twristiaeth (holi am eraill)<br>• (I bawb o'r uchod holi am enghreifftiau o grwpiau dan anfantais megis ADY a gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol)<br>• (Ar gyfer pawb holi am effaith ar fynd i'r afael anfantais, a chefnogi cynnydd, llesiant a'n ffordd o fyw heddiw) |
| | **Effeithiolrwydd opsiynau** |
| 4 | Pa un o'r opsiynau fyddai'r **lleiaf** effeithiol a pham?<br>• Holi am effeithiolrwydd wrth gefnogi anghenion y grŵp rhanddeiliaid hwn.<br>• Holi am effeithiolrwydd wrth gefnogi anghenion grwpiau rhanddeiliaid eraill (dysgwyr, rhieni, gweithlu, economi)<br>• Holi am effeithiolrwydd penodol o ran mynd i'r afael ag anfantais, a chefnogi cynnydd, llesiant a'n ffordd o fyw heddiw |
| 5 | Pa un o'r opsiynau fyddai'r **rhai mwyaf** effeithiol a pham?<br>• Holi am effeithiolrwydd wrth gefnogi anghenion y grŵp rhanddeiliaid hwn.<br>• Holi am effeithiolrwydd wrth gefnogi anghenion grwpiau rhanddeiliaid eraill (dysgwyr, rhieni, gweithlu, economi) |

| | |
|---|---|
| | • Holi am effeithiolrwydd penodol o ran mynd i'r afael ag anfantais, a chefnogi cynnydd, llesiant a'n ffordd o fyw heddiw |
| | **Y Gymraeg** |
| 6 | Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg?<br><br>• A ydych yn meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?<br>• A ydych yn meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol? |
| 7 | Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r cynigion:<br><br>• er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg; neu<br>• er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg? |
| | **Sylwadau i gloi** |
| 8 | A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y newidiadau arfaethedig i'r calendr blwyddyn ysgol, a'u heffaith a'u heffeithiolrwydd? |

## 4.7 Geirfa

| **Talfyriad/Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| TGAU | Tystysgrif Addysg Uwchradd Gyffredinol |
| HMS | Addysg a hyfforddiant mewn swydd |
| PISA | Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr |
| CBAC | Cyd-bwyllgor Addysg Cymru |